

Ymatebion Cyffredinol / General responses .....	2
Cwestiwn 1. Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig i gefnogi a chynyddu trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. a. A fydd y camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig yn caniatáu i ni wneud hyn? Question 1. This draft policy sets out our proposed actions to support and increase Welsh language transmission in families. a. Will the actions we propose allow us to do this? .....	11
b. A oes camau gweithredu ar goll o'r polisi drafft? b. Are there any actions missing from the draft policy? .....	39
c. A ddylen ni gymryd trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r camau gweithredu hyn? .....	69
Question 2: This draft policy is intended to inform a ten-year programme of work. Are there any actions which should be implemented before others? .....	89
Cwestiwn 3. Mae pedwar nod i'r polisi hwn. a. A yw'r polisi hwn yn rhoi digon o sylw i bob un o'r pedwar nod hyn?.....	99
b. A oes unrhyw nodau eraill y dylen ni dalu sylw iddyn nhw yn y polisi?.....	109

## Ymatebion Cyffredinol / General Responses

### Ymatebydd 1 / Respondent 1

Dear Sirs

May I suggest that pupils learning Welsh @ school use only Welsh with their families during their evening meal.

### Ymatebydd 3 / Respondent 3

#### Cyflwyniad

Mae Estyn yn cydnabod pwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd os ydym am wireddu nodau Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Mae Estyn yn gweld yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Nodwn yn y ddogfen ymgynghori mai *'y gyfundrefn addysg sy bellach yn cynhyrchu'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg newydd'*. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r *'holl siaradwyr Cymraeg newydd yn siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain nes ymlaen yn eu bywydau'*. Yn ogystal, rydym yn cytuno bod y sail dystiolaeth, yn sgil ymchwil yn ymwneud â chynllunio ieithyddol, yn tanlinellu'n glir mai cyfuniad o ddau faes penodol sydd yn ganolog i'r broses. Un o'r meysydd hynny yw trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r nesaf a'r llall yw addysg. Rydym yn derbyn ei bod yn annhebygol i'r Gymraeg ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig. Mae'r ffaith bod 43 y cant o siaradwyr wedi dysgu siarad Cymraeg gartref fel plentyn ifanc yn cadarnhau hynny.

Credwn fod y polisi hwn yn cyd-fynd yn addas â thri nod pennaf Cymraeg 2050, sef

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun

#### Introduction

Estyn acknowledges the importance of Welsh language transmission in families if we are to realise the aims of Cymraeg 2050: A Million Welsh Speakers. Estyn views the Welsh language as an integral part of our vision for education in Wales. We note in the consultation document that *'now, the education system generates the majority of new Welsh speakers'*. However, we also acknowledge that *'not all of these new Welsh speakers necessarily speak Welsh with their own children later in life'*. We also agree that the evidence base, as a result of research in relation to linguistic planning, underlines clearly that a combination of two specific areas is at the heart of the process. One of these areas is language transmission from one generation to the next, and the other is education. We accept that is unlikely that the Welsh language will thrive as a communal and social language if it relies solely on the education system. The fact that 43 per cent of speakers have learned Welsh at home as young children corroborates this.

We believe that this policy links suitably to the three main aims of Cymraeg 2050, namely:

- Increasing the number of Welsh speakers
- Increasing the use of Welsh
- Creating favourable conditions – infrastructure and context

#### **Ymatebydd 4 / Respondent 4**

The National Deaf Children's Society is the national charity dedicated to creating a world without barriers for deaf children and young people.

We support deaf children and young people with all levels of hearing loss from mild to profound, including those with a unilateral loss (hearing loss in one ear) and temporary hearing loss.

#### **Our Response**

Language is an essential means of people connecting with, exploring, and embracing their cultural identity. Deaf young people in Wales may embrace and inhabit many cultural identities: they may identify as culturally deaf and part of the Deaf community, they may use sign language, they may come from families from elsewhere in the world complete with their own rich cultures and language who now call Wales their home (indeed there is an increased incidence of deafness among ethnic minority groups), and they may identify as Welsh and/or Welsh language users. It is important that any policy and approach undertaken by the Welsh Government is fully inclusive so that deaf children and young people are granted the same opportunity to explore, build upon and own their Welsh identity through language acquisition as their hearing peers.

Having read the *National policy on Welsh language transmission and use in families*<sup>1</sup> consultation, we would like to offer the following feedback.

#### **1) Please ensure policy and approaches are suitable to the needs of deaf children and British Sign Language (BSL) speaking children and families**

The consultation asserts the importance for all households to be able to speak Welsh with their children.

*Maintaining and increasing the numbers of Welsh speakers is important, but ensuring the language is used is vital. It is essential that all Welsh speakers, in whatever type of household they live, feel that they have the opportunity to transmit Welsh to their children.*<sup>2</sup>

This national campaign should be inclusive of deaf families, both where parents are deaf and/or the children are deaf..We would welcome the opportunity to see how the Welsh Government has planned to make the approach inclusive and would also be willing to feed into and provide any resources to help.

---

<sup>1</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

<sup>2</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.22. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

*We'll provide practical advice and/or techniques to families where not everybody speaks Welsh on how to increase their use of Welsh in all sorts of family situations e.g. in the car, during mealtimes at home etc.*<sup>3</sup>

It is important that these approaches are designed to include advice and techniques that meet the needs of children who have Additional Learning Needs (ALN). For families of deaf children, for example, 'in the car' learning may not be the most suitable approach, especially where children rely on lip-reading. It is important, therefore, that the guidance provides a variety of examples and options for learning so no child or family feels left out. You can read our tips and guidance for communicating with a deaf child here: <https://www.ndcs.org.uk/information-and-support/being-deaf-friendly/communicating-with-a-deaf-child/>

*We'll analyse how we communicate with families about their use of Welsh to improve the impact of our current and future work in this area. This could involve looking at which channels we use and the way we use them, as well as the messaging from us and our stakeholders to parents/carers. But this is not only about us communicating with parents/carers—we will also explore opportunities for peer-to-peer support amongst parents/carers.*<sup>4</sup>

Peer to peer support is an excellent and recognised means of sharing knowledge, skills and experience. Every parent's experience will differ, but, for those parents who have children with ALN, they may prefer opportunities to discuss and share their experiences with families who share similar needs to themselves. It is important, therefore, that a wide range and inclusive sample size of families with ALN are used in the testing, analysis and peer-to-peer support groups.

*We'll give teaching practitioners the skills and learning resources to help them positively encourage children to speak Welsh with one another, with a view to increasing their use of Welsh within the family and wider community, now and in later life.*<sup>5</sup>

It is important that any learning resources directed towards teaching practitioners include reference to how they can support children with ALN to increase their use of Welsh. We are mindful of the Welsh Government's emphasis on cross-curricular learning. It is important to note that where learners, including many deaf learners, have accessibility requirements around learning a language, that these access requirements are met wherever and whenever language is taught.

The National Deaf Children's Society Cymru would also like to take this opportunity to highlight that there are issues in areas of Wales with accessing specialist ALN support,

---

<sup>3</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.23. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

<sup>4</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.24. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

<sup>5</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.27. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

such as Teachers of the Deaf, through the medium of Welsh. As such, there are families of deaf children who do not feel able to choose to educate their child in English/Welsh according to their preference – but rather according to the availability of specialist support in each medium. We would urge the Welsh Government to look into this issue as part of this initiative.

*We'll use all the possibilities the workplace offers for reigniting people's use of Welsh and explore what potential there is for increased Welsh language use in the workplace to 'spill over' into families.*<sup>6</sup>

Whilst the workplace provides a utilisable space for people to explore and practise their Welsh language skills, without proper attention to ensuring these approaches include all colleagues, the scheme could act as a form of alienation. Research shows that 7 out of 10 D/deaf workers feel that colleagues do not communicate effectively with them<sup>7</sup>. Any workplace focussed approach must be presented in such a way that all members of the workforce can participate. Action on Hearing Loss have produced documentation on how workplaces can be safe and inclusive spaces for all the workforce. You can find it here <https://www.actiononhearingloss.org.uk/how-we-help/businesses-and-employers/employer-hub/supporting-employees-with-hearing-loss/>.

*We'll develop an online presence to assist parents/carers who could, but for whatever reason, don't speak Welsh with their children. This may involve helping parents who have no personal experience of raising a child bilingually to do so (e.g. helping them learn child-directed speech in Welsh).*<sup>8</sup>

It is essential that these videos are deaf friendly and accessible, through the use of subtitles and BSL.

## **2) Technology- Support Local Authorities to provide Radio Aids in the Home setting**

*We will explore the opportunities technology offers to help children play in Welsh and how that in turn can provide opportunities to help more use of Welsh in the household.*<sup>9</sup>

For many children, technology, such as radio aids, are essential tools for both their communication and linguistic development. Many families across Wales will not be able to fully communicate with their child and support their speech, language and communication needs without access to this essential technology. At the National Deaf Children's Society Cymru, we strongly support the need for all families to have access to essential assistive technology in the home setting.

---

<sup>6</sup> IBID

<sup>7</sup> Action on Hearing Loss, *Employers Guide*. Available at: <https://www.actiononhearingloss.org.uk/how-we-help/businesses-and-employers/employer-hub/supporting-employees-with-hearing-loss/>

<sup>8</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.24. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

<sup>9</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.25. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

The National Deaf Children's Society Cymru is aware of a current postcode lottery in relation to access to equipment such as a radio aid in the home setting. We have been calling for such provision to be regarded as an essential part of local authority support for deaf children. This initiative further emphasises the need for this provision to be made available.

**3) Please ensure families with ALN and/ or deafness are included in the research and evaluation process.**

*When we commission research projects on the use of Welsh in families, we'll make sure we consider the role of parents/carers, their wider family networks on the use of Welsh, and what part children themselves play. This will include considering Welsh language transmission from a child's perspective.<sup>10</sup>*

It is important that the views, insight and input of children with ALN are included in the research and evaluation process.

*When we commission research projects on the use of Welsh in families, we'll study children's language development in the context of Welsh-English bilingualism in the home (including how they acquire grammar, vocabulary and phonology) among children living in households with at least one adult Welsh speaker. We'll use what we find to improve our work.<sup>11</sup>*

As above, we ask that families with deaf children and ALN experience are included in this work.

Finally, we would like to take the opportunity to highlight a sentiment within the consultation that strongly stood out to us.

*Children are individuals and have their own sense of agency. They aren't just passive recipients of a language from parents/carers. Children may express language preferences themselves regarding what language they use and influence which language their parents/carers use with them, and on what language they use with their siblings and their friends.<sup>12</sup>*

The National Deaf Children's Society Cymru believe that all children should be supported to express themselves through a language that they feel comfortable and confident with and one that best meets their needs and identity. As Article 30 of the United Nations Convention on the Rights of the Child states, children from minority groups have:

---

<sup>10</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.25. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

<sup>11</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.26. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

<sup>12</sup> Welsh Government, *National policy on Welsh language transmission and use in families*, p.21. Available at: [https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-02/national-policy-on-welsh-language-transmission-and-use-in-families-consultation-document_0.pdf)

*the right to learn and use the language, customs and religion of their family, whether or not these are shared by the majority of the people in the country where they live.*<sup>13</sup>

For parents of deaf children who would like to use is British Sign Language (BSL), a severe shortage and lack of access to BSL classes are preventing them from being able to communicate with their child. The recently published *Independent Review of BSL Provision for Adults in Wales* highlights how a lack of availability and cost is preventing parents from accessing classes<sup>14</sup>. For those who do manage to undertake classes, the content is often irrelevant to the specific communication needs of families and children. We believe that the Welsh Government should support parents to access BSL classes that are targeted to the communication needs of children. This approach would work in harmony and conjunction with Welsh Government work to improve language transmission in households.

### **More information**

Thank you for the opportunity to respond. For further information please contact us at [campaigns.wales@ndcs.org.uk](mailto:campaigns.wales@ndcs.org.uk)

### **Ymatebydd 13 / Respondent 13**

#### **SYLWADAU CYFFREDINOL**

Croesawn y polisi drafft hwn yn gynnes iawn. Mae Dyfodol yn credu bod trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd a'i defnydd ymysg teuluoedd yn feysydd allweddol i lwyddiant Cymraeg 2050, ac yn wir, mae hyn wedi bod ymysg ein prif flaenoriaethau ers sefydlu'r mudiad yn 2012. Rydym yn falch iawn, felly, bod y Llywodraeth yn cychwyn ar y broses o adnabod yr anghenion a mynd i'r afael â gweithredu mewn maes a fydd, o lunio polisiau effeithiol ac addas, yn talu ar ei ganfed i ddyfodol y Gymraeg.

#### **SYLWADAU YCHWANEGOL**

Gobeithiwn y gwnaiff y polisi drafft hwn arwain at raglen a phrosiectau creadigol ac arloesol. Cydnabyddir pwysigrwydd y maes hwn o safbwynt sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Ychwanegwn at hyn fod cyflwyno'r Gymraeg o'r dechrau cyntaf o'i hanfod yn peri i'r iaith ddod yn gyfrwng rhyfeddod a llawenydd i'r plentyn a'i d/theulu. Nid yw'r ddogfen yn sôn am gyllid ar gyfer y gwaith pwysig hwn, ac i gloi, byddwn yn galw am i'r polisi a'r cynllunio a'r cynlluniau sy'n deillio ohono gael eu cyllido'n deilwng, a gyda'r ddealltwriaeth o natur hanfodol a hirdymor yr orchwyl.

---

<sup>13</sup>United Nations, 'Article 30', *The rights of every child: A summary of the United Nations Convention on the Rights of the Child*. Available at: [https://www.unicef.org.uk/child-rights-partners/wp-content/uploads/sites/3/2016/08/CRC\\_summary\\_leaflet\\_Child\\_Rights\\_Partners\\_web\\_final.pdf](https://www.unicef.org.uk/child-rights-partners/wp-content/uploads/sites/3/2016/08/CRC_summary_leaflet_Child_Rights_Partners_web_final.pdf)

<sup>14</sup> Bowen, R, Holtom D, (2020). *Independent Review of BSL Provision for Adults in Wales*. Cardiff: Welsh Government, GSR report number 4/2020. Available at: <https://gov.wales/independent-review-british-sign-language-bsl-provisionadults-wales>

## Ymatebydd 19 /Respondent 19



Annex to the the  
response form of co

## Ymatebydd 20 /Respondent 20

*Cynigir sylwadau isod ar y cwestiynau ymgynghori, ond cyflwynir yma hefyd rhai sylwadau cyffredinol ar y ddogfen bolisi drafft.*

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu dogfen bolisi sydd yn cynnig mwy o arweiniad yn y maes allweddol hwn. Mae'n holl bwysig bod y Llywodraeth yn gallu esbonio eu bwriadau a'u cynlluniau, a rôl partneriaid eraill, wrth fynd i'r afael a'r maes anodd ond pwysig o drosglwyddo iaith o fewn y cartref.

Fel mae'r ddogfen yn nodi, mae'n destun pryder bod cymaint o rieni sydd yn gallu siarad Cymraeg yn dewis peidio â gwneud hynny gyda'u plant, ac rydym yn cytuno bod angen cymryd camau i ddylanwadu, a bod wir angen i ni fagu gwell dealltwriaeth o pam fod hynny'n digwydd.

Mae angen deall yn well pam bod siaradwyr Cymraeg yn peidio â throsglwyddo'r iaith i'w plant, ac yn benodol felly lle mae dau oedolyn sydd yn gallu'r Gymraeg. Beth sydd yn arwain y rhai hynny i bennu'r Saesneg fel iaith y cartref yn hytrach na'r Gymraeg? Oes rhesymau pam y byddai dau siaradwr Cymraeg iaith gyntaf yn gwneud penderfyniad bwriadol i beidio siarad Cymraeg yn y cartref?

Er yn cytuno am yr angen am ddogfen sydd yn cynnig arweiniad pellach yn y maes allweddol hwn, felly, mae angen hefyd bod yn ofalus bod y cyswllt rhwng y ddogfen hon a Strategaeth Cymraeg 2050 yn glir. Bod y Llywodraeth yn gallu dangos sut mae'r targedau a'r camau a nodir yn plethu yn ôl i'r hyn sydd wedi ei gyhoeddi fel nod tymor hir yn Cymraeg 2050 a'r rhaglen waith gyfredol. Fel arall mae peryg i'r ddogfen hon ymddangos fel dogfen ar wahân, gyda chyfres newydd o gamau, yn hytrach na bod yn rhan o'r darlun ehangach.

Nodir bod y gwaith a amlinellir yma yn cyfrannu at wireddu'r cyntaf o'r tri cham o nodau Cymraeg 2050. Ond os yw cam 2 a 3 (Adolygu Cymraeg i Blant a Parhau i gydweithio gyda'r GIG) yn waith sydd eisoes ar y gweill, yna pam na all y polisi hwn fanylu ar hynny hefyd, fel bod gennym ddarlun cyflawn a manwl o'r hyn sydd yn digwydd ar draws y maes cyfan, a bod dealltwriaeth o sut mae'r gwaith ym maes caffael a throsglwyddo iaith yn plethu efo'i gilydd. Ni ellir, mi gredwn, drafod yr un heb y llall, ac heb ystyried rôl y gyfundrefn addysg (ffurfiol ac anffurfiol).

Ymhellach na hynny felly, os mai gwireddu'r cam cyntaf y mae'r polisi hwn, yna onid sicrhau bod gwaith ymchwil cyfredol a newydd yn cael ei gynnal yw'r flaenoriaeth? Credir y dylid fod wedi edrych eto ar y sylfaen dystiolaeth a chwblhau mwy o waith ymchwil, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r problemau, y rhwystrau, a'r cyfleoedd, cyn mynd ati i osod camau gweithredu mewn dogfen bolisi.

**Amseru cyhoeddi'r ddogfen bolisi:**



Mae'n gwestiwn gennym pam bod y ddogfen hon – sydd i fod yn gosod rhaglen waith tymor canolig (10 mlynedd) – wedi ei chyhoeddi nawr, yn hytrach nag aros tan ar ôl y cyfrifiad nesaf. Nodir hefyd bod Arolwg Cenedlaethol diweddaraf ar fin cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2020, felly nid yw'r ddogfen hon yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg hwnnw. Fan leiaf, gobeithir y bydd y newid hwn i'w weld yn y ddogfen derfynol. Pryder sydd yna felly bod y ddogfen bolisi wedi ei seilio ar dystiolaeth sydd bellach wedi dyddio.

### **Sylfaen ymchwil:**

Mae'r ddogfen yn dibynnu'n drwm ar waith y Llywodraeth ei hun, ac er bod hynny yn ddealladwy, credwn bod wir angen cynnal ymchwil ehangach a mwy swmpus, sydd yn cynnig tystiolaeth o arferion ac sydd yn adlewyrchu'r dylanwadau modern ar fywydau pobl a'r amrywiaeth o amgylchiadau y mae teuluoedd yn byw ynddynt.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r cyfeiriad ar dudalen 10-11 y ddogfen at newidiadau yn **ail hanner yr ugeinfed ganrif**, fel sail i sefyllfa'r Gymraeg a'r Gymru sydd ohoni, yn arddangos agwedd hen ffasiwn ac wedi gor-symleiddio o'r sefyllfa.

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn dangos dealltwriaeth well o'r ffactorau modern sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith pobl - ac sydd yn debygol o arwain at ddylanwadu ar benderfyniadau i drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref neu beidio - ac yn atgyfnerthu'r ddadl y dylai'r ddogfen bolisi yma adleisio yr hyn sydd wedi ei nodi yn y strategaeth:

Gwelwn sut mae globaleiddio, symudedd, a dehongliadau mwy amrywiol o gysyniadau megis yr uned deuluol a 'chymuned' wedi arwain at newidiadau pellgyrhaeddol. Gwelwn hefyd sut mae datblygiadau ym maes technoleg yn cynnig dulliau newydd o gyflawni ein gwaith a chyfathrebu a'n gilydd. Ar yr un pryd, nid yw'r newidiadau hyn wedi disodli'n llwyr bwysigrwydd cymunedau sydd wedi eu diffinio gan ddaearyddiaeth, rhwydweithiau cymdeithasol sy'n seiliedig ar gyfathrebu wyneb yn wyneb, a'r aelwyd fel canolbwynt i fywyd teuluol.

### **Teulu a'r Gymuned:**

Mae'r dyfyniad uchod o'r Strategaeth hefyd yn amlygu problem arall gyda'r ddogfen bolisi hon, sef nad oes digon o sylw yn cael ei roi i'r sffêr trosglwyddo cymunedol, a'i bwysigrwydd yn y cyd-destun hwn o drosglwyddo iaith o fewn teuluoedd.

Sonir yn y ddogfen am y cyfraddau trosglwyddo ymysg plant 3 a 4 oed, ond mae'n rhaid cydnabod bod hynny – hyd yn oed mewn ardaloedd fel Gwynedd lle mae cyfran uchel o deuluoedd yn parhau i drosglwyddo'r Gymraeg i'r plant – yn llawn mor ddibynnol ar y gefnogaeth a geir yn y gymuned a'r teulu ehangach nag ar benderfyniad gan rieni. Pan fydd y plant yn 4 oed, maent mewn lleoliadau meithrin, neu wedi cychwyn yn yr ysgol, ac felly yn fwy tebygol o gael cyswllt a'r iaith y tu allan i'r cartref. Mae'r ffaith bod cymaint o wahaniaeth rhwng y ffigyrau ar gyfer Môn er enghraifft, yn dangos yn glir bod dylanwad allanol yn gryfach na'r dylanwad cartref.

Mae angen meddwl am y term "teulu" felly yn ei ystyr ehangaf posib, a chydabod bod y gymuned y tu allan i'r cartref yr un mor bwysig i ddatblygiad ieithyddol plentyn a'r unigolion sydd yn y cartref ei hun. Gyda nifer fawr o famau yn dychwelyd i weithio yn fuan ar ôl geni, mae rhwydweithiau gofal plant yn ffactor hollbwysig wrth ystyried dylanwadau ar

ddatblygiad iaith cynnar. Mae cefnogaeth y teulu ehangach, y meithrinfeydd a'r gofalwyr plant yn allweddol i ymdrechion y rhieni i drosglwyddo iaith.

### **Nodyn ychwanegol am yr amgylchiadau cyfredol a sut y gallai hynny ddylanwadu ar y ddogfen derfynol:**

A derbyn bod y ddogfen wedi ei hysgrifennu a'i rhyddhau cyn y sefyllfa gyfredol gyda Covid-19, bydd angen i'r ddogfen derfynol hefyd adlewyrchu'r sefyllfa honno a sut rydym yn delio gyda'r heriau sydd wedi codi ac a fydd yn codi o ganlyniad yn y dyfodol. Mae nifer fawr o deuluoedd ar hyn o bryd yn colli eu cyswllt gyda'r iaith – rhieni yn methu mynd i grwpiau mam a phlentyn, plant yn methu mynd i'r cylchoedd meithrin - ac mae angen wir ystyried beth fydd sgil effaith hynny yn y tymor hir.

Yr un peth sydd wedi dod yn amlwg iawn yn y cyfnod hwn yw rôl technoleg yn y bywyd modern – mae'r Gymraeg wedi bod yn cael ei defnyddio a'i rhannu mewn ffyrdd gyfan gwbl newydd dros yr wythnosau diwethaf, a phobl wedi addasu i sicrhau presenoldeb i'r Gymraeg ar y we mewn ffyrdd na fu o'r blaen. Mae angen i'r Llywodraeth ystyried o ddifrif sut y maent yn mynd i allu cynnal a chefnogi'r bwrlwm hwnnw yn y dyfodol.

### **Ymatebydd 23 / Respondent 23**

Dwi'n taro nodyn byr atoch chi yn dilyn y drafodaeth ddiweddar y buom ni'n rhan ohoni **[gwybodaeth wedi ei olygu]**, sef Grŵp Llywio Cymraeg yn y Cartref. Diolch am sôn ychydig am y polisi trosglwyddo ac am y ffaith fod y cyfnod ymgynghori wedi cael ei ymestyn. Ga i eich llongyfarch ar y ddogfen – hollol, hollol bwysig fod hyn yn cael sylw brys.

Er gwybodaeth, dwi wedi codi hyn yn y Brifysgol a hefo Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, gyda golwg ar gael trafodaeth ar hyn yn gynnar yn yr hydref ac ymateb i chi.

Yn y cyfamser, dim ond cwpwl o bwyntiau gen i, sy'n fy nharo wrth ddarllen y ddogfen: O brofiad personol (a chyfeillion a chydweithwyr), ac yn anecdotaidd, mae'r arfer o siarad Saesneg hefo plant lle mae rhiant yn siarad Cymraeg i'w weld yn fwy amlwg nag y bu a hynny mewn ardaloedd 'traddodiadol' Gymraeg, ac yn ymddangos yn uwch na ffigurau cyfrifiad 2011. Yn amlwg, barn goddrychol ydy hyn ac nid yw'n seiliedig ar ffeithiau a data.

Tudalen 10 – y 3 cham gweithredu:

- a. Ydy ymgyrchoedd newid ymddygiad wedi cael eu hystyried (e.e. stopio smocio, bwyta'n iach etc). Nodir nad penderfyniad ydy trosglwyddo iaith ond ymddygiad ymwybodol. Ond, mae ymgyrchoedd hefyd yn medru dylanwadu ar yr is-ymwybodol. Oes ystyriaeth wedi'i roi i dynnu Ysgolion Seicoleg ein prifysgolion i fewn i hyn?
- b. Dwi'n credu fod angen edrych ar y cwricwlwm cenedlaethol, ac effaith 'anymwybodol' rhai agweddau e.e. y drafodaeth gyfredol ar Hanes Cymru. Yn achos plant sy'n dysgu am eu hanes eu hunain, mi ddylid gweld effaith ar ymdeimlad o Gymreictod a balchder. Gallai hyn gael effaith ar eu parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar eu hymddygiad wrth fagu plant yn ddiweddarach. Hefyd, dwi'n meddwl fod gwir angen trafodaeth am y ffordd ydysgir y Gymraeg yn yr ysgol. Nid yw'n gyson â'r dull cyfathrebol a welir yn

CiO ac mae hyn yn achosi cyd-daro rhwng plant a'u rhieni (sy'n dysgu Cymraeg fel oedolyn). Mae cywair y Gymraeg a ddysgir hyd at TGAU yn orffurfiol yn fy marn i a tydy o ddim yn hwyluso cymathu naturiol gan fod y siaradwyr ail-iaith yn swnio mor wahanol o siaradwyr naturiol. Mae lle i gyweiriau ffurfiol, wrth gwrs, ond gellir cyflwyno hyn yn ddiweddarach yn fy marn i

- c. Credaf y dylid edrych ar ffyrdd o hau hadyn manteision trosglwyddo'r Gymraeg i blant oed ysgol uwchradd. Mae modd ei wneud mewn ffyrdd cynnil

Tudalen 10 – cyfeiriad at 'taflwybr'. Tybed oes modd cymharu hefo data 1981, 1991, 201 er mwyn gweld newid dros amser, nid yn unig 2001 i 2021? Ydy pethau'n well ynta'n waeth erbyn hyn? Byddai hyn yn fodd hefyd o gadarnhau neu wrthbrofi'r darlun anecdotaidd yn 1. uchod

2. Mae'r cyfeiriad at Fishman yn bwysig – unwaith y cyrhaeddwn i bwynt di-droi 'n ôl lle mae'r siaradwyr iaith gyntaf yn arwyddocaol llai na'r siaradwyr newydd, bydd y defnydd naturiol dan fgygythiad a byddwn yn symud i batrwm lwerddon lle nad ydy hi (ac eithrio mân achosion, yn drist iawn) yn iaith naturiol bob dydd.

Gobeithio y bydd un neu ddau o'r sylwadau o gymorth – hapus i drafod mwy tasa fo o help!

Pob lwc hefo'r gwaith aruthrol bwysig yma

**Cwestiwn 1. Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig i gefnogi a chynyddu trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.**

**a. A fydd y camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig yn caniatáu i ni wneud hyn?**

**Question 1. This draft policy sets out our proposed actions to support and increase Welsh language transmission in families.**

**a. Will the actions we propose allow us to do this?**

Ymatebydd 2 / Respondent 2

**Mae bodolaeth y ddogfen hon i'w groesawu.**

**Cam gweithredu 2:** Wrth ystyried cynulleidfaoedd targed ar gyfer unrhyw prosiectau newydd dylid ystyried targedu ardaloedd Dechrau'n Deg oherwydd buddion economaidd ac eraill dwyieithrwydd. Serch hynny, rhaid cofio mai lleiafswm o deuluoedd sydd yn byw o fewn ffiniau'r ardaloedd dynodedig hyn, a rhaid sicrhau mynediad cyfartal i'r adnoddau a'r

gefnogaeth i'r sawl sydd yn byw y tu hwnt i'w ffiniau.

**Cam gweithredu 3 a 4:** Nodwn hefyd bod nifer o gynlluniau eisoës yn bodoli nad sydd yn cael eu gweithredu, neu nad sydd yn cael eu gweithredu i'w llawn botensial a hyn am rhesymau ariannol. Cyfeiriwn at gynlluniau megis 'Kids Soak it Up', 'Mae dy Gymraeg di'n grêt', 'Cymraeg o'r Crud' a 'Clwb Cwtsh'. Byddai medru darparu a gweithredu'r cynlluniau hyn ar draws Cymru unwaith eto yn cefnogi ac yn cynyddu trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Pwysleisiwn yr angen am fuddsoddiad ariannol digonol, dros sawl blwyddyn, er mwyn medru gweithredu a gweld budd y cynlluniau hyn.

**Cam gweithredu 6:** nodwn bod ymchwilwyr o brifysgol Caergrawnt wedi bod yn cydweithio gyda'r NCT a hefyd y GIG yn Lloegr i ddatblygu adnoddau o dan y cynllun 'we speak multi'. Byddai sicrhau bod dosbarthiadau cyn-geni, ac ar ôl geni a dosbarthiadau rhianta ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog (pan yn briodol) y fodd da o gyflwyno trafodaethau am iaith y cartref cyn bod plentyn yn cyrraedd. Prin iawn yw'r cyfleoedd i dderbyn gwasanaetha fel hyn mewn nifer o rannau o Gymru. Byddai gofyn uwch-sgilio bydwragedd i hwyluso seisynau mewn dwy iaith ac i arwain trafodaeth hyderus am hynny wrth wneud.

**Cam gweithredu 7;** bydd angen sicrhau fod yr adnoddau hyn ar gael i ymarferwyr addysg ar draws y sector addysg yn cynnwys y sector nas gynhelir a ysgolion sydd yn addysgu Cymraeg fel ail-iaith (ar y funud). Cytunwn fod hyn yn holl bwysig.

**Cam gweithredu 13:** argymhellwn fuddsoddiad ychwanegol yn rhaglen Cymraeg i Blant er mwyn ehangu capasiti a sicrhau fod pob teulu yng Nghymru o fewn cyrraedd rhesymol i'r grwpiau cefnogi. Ar hyn o bryd mae bylchau enfawr yn y ddarpariaeth, a'r bylchoedd hynny yn aml mewn ardaloedd sydd yn draddodiadol gyda chanran uwch o rieni'n trosglwyddo, er enghraifft Dyffryn Conwy, ardal Penllyn. Mae angen sicrhau fod trosglwyddiad iaith o fewn cartrefi y cymunedau hyn yn cael ei gynnal gan fod ymchwil yn awgrymu e.e ym Môn fod canran y trosglwyddo yn lleihau yn raddol dros amser mewn ardaloedd tebyg.

**Cam gweithredu 15, 16, 17, 18, 19, 20:** croesawn y pwyslais ar ymestyn a datblygu'r gwaith ymchwil sydd yn hanfodol ar gyfer datblygu a gweithredu cynlluniau ymarferol ar gyfer y trosglwyddo'r Gymraeg a'i ddefnydd mewn teuluoedd. Argymhellwn cyd-weithio gydag unigolion a sefydliadau sydd eisoës yn gweithio yn y maes, megis Mudiad Meithrin, er mwyn adnabod bylchau yn y gwaith ymchwil sydd eisoës ar gael.

**Cam gweithredu 21:** pwysleisiwn yr angen i sicrhau bod y bwrdd rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws amryw o sectorau, gan gynnwys y gweithlu gofal, addysg a chwarae, gweithwyr cyn-geni ac ôl-eni gan mai dyma'r unigolion fydd a'r cysylltiadau mwyaf aml gyda teuluoedd yn ystod blynyddoedd cyntaf y plant.

**Ymatebydd 3 / Respondent 3**

Mae Estyn yn credu bod y polisi hwn yn canolbwyntio'n briodol ar ddefnydd gweithredol o'r Gymraeg rhwng rhieni/gofalwyr a'u plant. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r polisi drafft yn gynhwysfawr ac ystyrllon ac maent yn cydnabod yn werthfawr realiti trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn y byd sydd ohoni. Mae'r ffaith bod ymchwil yn ganolog i'r broses o lunio'r polisi'n gryfder amlwg.

Mae'r ddogfen yn rhestru 22 o gamau gweithredu'n ddefnyddiol. Maent yn croesgyfeirio'n glir i amcanion polisi pendant.

Mae camau gweithredu 8 ac 11 yn ddiddorol o ran effaith addysg oedolion ar drosglwyddo iaith mewn teuluoedd. Mae'r ddogfen yn datgan ar dudalen 19 bod ymchwil yn dangos '*nad penderfyniad yw trosglwyddo'r Gymraeg. Yn hytrach, ymddygiad anymwybodol ydyw*'.

Fodd bynnag, mae rhieni yn gwneud penderfyniadau dros ddyfodol eu plant ac, ar ddiwedd y dydd, yn medru penderfynu ar iaith yr aelwyd. Gwyddom hefyd fod nifer sylweddol o ddysgwyr sector Cymraeg i Oedolion yn dysgu'r iaith oherwydd eu plant. Rydym yn ystyried fod y ddau gam gweithredu hyn yn gysylltiedig â sector Cymraeg i Oedolion a'r ddarpariaeth sydd gan y sector ar gyfer siaradwyr di-hyder (trwy raglenni fel *Cymraeg Gwaith*) a rhaglenni ar gyfer rhieni a gofalwyr fel *Camau*. Rydym yn credu bod tystiolaeth o'n hadroddiadau arolygu Cymraeg i Oedolion yn dangos ei bod yn bosib newid ymddygiad drwy addysgu. Gwneir hyn drwy arfogi pobl, sydd yn meddu ar yr ewyllys ac ymrwymiad eisoes, gyda'r sylfaen ieithyddol angenrheidiol i drosglwyddo'r iaith a'i defnyddio mewn cyd-destun teuluol yn llwyddiannus

Rydym yn croesawu cynnwys cam gweithredu 7 a fydd yn adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud mewn ysgolion gyda mentrau fel y Siarter Iaith.

Estyn believes that this policy focuses appropriately on active use of the Welsh language between parents/carers and their children. The principles that underpin the draft policy are comprehensive and meaningful, and acknowledge valuably the reality of Welsh language transmission in families in modern day life. The fact that research is at the heart of the policy-making process is an obvious strength.

The document lists 22 actions usefully. These are cross-referenced clearly with specific policy objectives.

Actions 8 and 11 are interesting in terms of the effect of adult learning on language transmission in families. The document states on page 19 that research shows that 'the transmission of Welsh isn't a decision, but unconscious behaviour'. However, parents make decisions for their children's future and, at the end of the day, are able to decide on the language of the home. We also know that a significant number of learners in the Welsh for Adults sector are learning the language because of their children. We believe that both of these actions are linked with the Welsh for Adults sector, and the sector's provision for speakers who lack confidence (through programmes such as *Work Welsh*) and programmes for parents and carers, such as *Camau*. We believe that evidence from our inspection reports on Welsh for Adults shows that it is possible to change behaviour through teaching. This is done by equipping people, who already have the will and the commitment, with the linguistic foundation necessary to transmit the language and use it successfully in the family context.

We welcome the content of action 7, which will build on the positive work that is being done in schools with initiatives such as the Welsh Language Charter.

#### **Ymatebydd 5 / Respondent 5**

Possibly if people are willing to engage

#### **Ymatebydd 6 / Respondent 6**

Parents need to know early on the effect it will have on their child in a few years if they don't speak Welsh with them then send them to a Welsh school. Get them thinking very early about languages in school and how many schools are Welsh immersion until 7 years old and it will be an advantage if their child has an understanding on admission.

#### **Ymatebydd 7 / Respondent 7**

The proposals are sound, especially the ones that focus strongly on working with parents/carers to improve their skills and confidence in the use of Welsh. I am also pleased to see that there are proposals to work with employers - I think that workplaces are currently untapped as a resource for improving Welsh language skills. Public facing businesses, such as town centre retail, could help to further "normalise" the language in everyday conversation - even if it is just a word or phrase.

#### **Ymatebydd 8 / Respondent 8**

Actions proposed discriminate against the majority of Welsh who speak only English. Assembly members must honour and reflect the vast majority of English speakers. Assembly membership needs to avoid present bias.

#### **Ymatebydd 9 / Respondent 9**

No. Families will, and always will, do what suits them, and no amount of 'initiatives' will substantially increase the use of a dying language, which is too expensive for an impoverished country to support. The only way to 'increase' this (as you wish) is to fully become the authoritarian (nee, totalitarian) nanny state that you are already morphing into. Although the far more important question - and the one you are not asking the voting public of this country - is whether or not you should do such a thing.

#### **Ymatebydd 10 / Respondent 10**

The actions are very 'wolly' and are not massively measurable.

#### **Ymatebydd 11 / Respondent 11**

Mae'r camau gweithredu'n synhwyrol. Credwn mai ansawdd y gweithredu fydd yn penderfynu a yw'r polisi'n llwyddo ai peidio. Bydd angen sicrhau perchnogaeth rhanddeiliaid, sefydlu prosiectau gyda phersonel penderfynol. Bydd angen adnoddau addas a hir-hoedledd i brosiectau os ydyn nhw yn gweithio. A bydd angen i'r gwerthuso gonest a chyson sydd yn y polisi gael ei drosglwyddo i fodel ariannu a rheoli prosiectau a fydd yn derbyn bod newid agweddau ac arferion yn cymryd amser a dyfalbarhad ac nid yw bob amser yn amlygu ei hun mewn ffigurau moel ond mewn agwedd ac ymwybyddiaeth o fewn cymunedau sy'n trosglwyddo i mewn i arferion cadarnhaol.

Y gol yn y pen draw yw ei wneud yn gwbwl naturiol ac yn weithred gadarnhaol i fagu plant yn ddwyieithog gan atgyfnerthu sgiliau iaith pawb drwy ddefnyddio Cymraeg gartref.

Efallai y dylid rhoi mwy o sylw i brif-ffrydio negeseuon am fagu'n ddwyieithog i ymgyrchoedd rhianta eraill y llywodraeth?

## **Ymatebydd 12 / Respondent 12**

Rydym yn croesawu'r polisi, ac mae'r camau gweithredu, o dderbyn adnoddau digonol i'w cyflawni'n effeithiol yn synhwyrol.

Mae gwaith y Ganolfan yn gallu cefnogi'r polisi drwy amrywiol dulliau, nid yn lleiaf ein rhaglen genedlaethol o ddysgu'r Gymraeg i unrhyw un sy'n dymuno gwneud hynny. Ar ben hynny mae'r Ganolfan eisoes wedi, ac yn gobeithio parhau i dreialu mentrau penodol all gyfrannu at wireddu'r amcanion polisi.

O ran cynorthwyo gyda rhieni sydd â diffyg hyder neu arfer o ran defnyddio'r Gymraeg, gallwn gyfeirio yn benodol at y prosiectau peilot canlynol:

### **Prosiect Hyder ardal Bangor**

Y llynedd cynhaliwyd ymchwil marchnad gan gwmni Beaufort Research ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG) ar y thema *hyder*, fel sail ar gyfer ei hymgyrch farchnata ar gyfer yr haf 2019. Edrychwyd ar hyder siaradwyr y Gymraeg (ar bob lefel o ruglder) i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mewn termau cyffredinol, canfu'r ymchwil hwn fod canran arwyddocaol o'r rheiny sy'n medru'r Gymraeg yn peidio ei defnyddio oherwydd diffyg hyder. Canfu'r ymchwil hefyd fod awydd clir gan siaradwyr dihyder i dderbyn cefnogaeth ar ffurf cyrsiau cymunedol.

Ar sail hyn, comisiynodd CDCG Brifysgol Bangor (PB) i gynnal prosiect peilot i ymateb i'r canfyddiadau hyn a fyddai'n treialu dulliau i fynd i'r afael â'r anghenion a adnabuwyd yn astudiaeth Beaufort. Cydweithiodd Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin (DCGO) gyda Chanolfan Bedwyr (CB) ac Ysgol Seicoleg PB yn fewnol, ynghyd â Menter Iaith Bangor (MIB) yn allanol. Cynhaliwyd y gwaith hwn rhwng Mai – Medi 2019 ac mae adroddiad manwl wedi cael ei ddarparu ar y prosiect.

Amcan y prosiect oedd newid arferiad craidd a chodi hyder siaradwyr anfoddog fel eu bod yn defnyddio'r Gymraeg (o leiaf mewn rhai achosion) pan fyddent fel arfer yn defnyddio'r Saesneg.

Rydym wedi rhannu'r canlyniadau yma gyda chi eisoes. Rydym wedi cynnal sesiwn gyda'n darparwyr i ystyried a oes modd iddynt ddatblygu cynnig tebyg yn eu hardaloedd dros y cyfnod nesaf. Bydd modd ystyried hyn ymhellach hefyd wrth ddatblygu rhaglen newydd Cymraeg yn y Cartref. Bydd angen ystyried ymhellach beth sy'n bosibl ei wneud mewn cyfnod o ymbellhau cymdeithasol.

### **Prosiect Peilot Codi Hyder Mentrau Iaith Cymru.**

Mae MIC yn gweithio ar gynllun peilot i gynyddu defnydd y Gymraeg ymysg siaradwyr di-hyder, gan gynnwys oedolion sy'n dysgu a charfanau eraill sy'n targedu ardaloedd unigryw yn ieithyddol. Mae'r cynllun peilot yn bartneriaeth rhwng Menter Bro Dinefwr a Menter Iaith Caerffili. Mae Menter Bro Dinefwr yn cydweithio â Menter Cwm Gwendraeth Elli i weithredu elfen o'r cynllun gyda rhai unigolion yn yr ardal honno yn ogystal. Mae'r cynllun yn adlewyrchu pwyslais y Ganolfan ar godi hyder dysgwyr a siaradwyr, ac awydd y Ganolfan i beilota amryw o ddynesiadau gwahanol.

### **Y Cynllun**

Bwriad y cynllun yw darganfod ffordd o adnabod siaradwyr di-hyder a dyfeisio ffordd neu ffyrdd effeithiol o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg drwy newid meddylfryd yr unigolyn a chodi hyder, a hynny mewn ardaloedd penodol gan bod pob ardal yn wahanol o ran demograffeg, cyfleoedd i siarad Cymraeg a lefelau hyder.

Mae MIC yn:


- Adnabod 24 unigolyn er mwyn dod o hyd i'r bobl iawn - allan o'r nifer hyn byddwn yn edrych i weithio gyda 20 person (10 yn ardal Caerffili a 10 yn ardal Dinefwr).
- Targedu'r unigolion drwy ddulliau marchnata a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun drwy gyswllt uniongyrchol ag unigolion targed, a thrwy sefydliadau yn y cymunedau dan sylw, megis ysgolion, mudiadau, clybiau chwaraeon a hamdden.
- Sicrhau trawsdoriad o unigolion ac mae heriau gwahanol yn y ddwy ardal dan sylw, gyda rhai heb siarad fawr o Gymraeg ers gadael yr ysgol uwchradd, ac eraill yn parhau i'w ddefnyddio mewn rhai peuoedd ond yn dal yn ddi-hyder mewn sefyllfaoedd mwy cymdeithasol ac wrth siarad ag oedolion.
- Cychwyn sgwrs un i un a fydd yn amlinellu anghenion personol yr unigolion. Bydd hyn yn ddull o ddarganfod diddordebau, eu hymwneud cymunedol, a'u hymwneud â'r Fenter Iaith leol ar hyn o bryd.
- Teilwra cynllun cymorth unigol ar gyfer pob cyfranogwr.
- Defnyddio technegau seicoleg iaith i ddarganfod a goresgyn rhwystrau'r unigolyn a llunio cynllun hyder unigol ar sail yr wybodaeth a gesglir a rhoi cymorth iddynt i weithredu'r cynllun.

Rydym yn disgwyl canlyniadau'r cynllun prosiect yn y misoedd nesaf – mae wedi ei oedi am ychydig oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus. Serch hyn, mae elfennau yn parhau



drwy gyswllt digidol ar hyn o bryd.

Rydym hefyd fel rhan o'n Cynllun '**Cymraeg yn y Cartref**' wrthi'n datblygu adnodd arlein sy'n rhan o'r fframwaith isod. Rydym yn gweithio gyda Mudiad Meithrin ar hyn ar hyn o bryd, ac mae grŵp Llywio wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn fuan (sy'n cynnwys aelodaeth o blith swyddogion Llywodraeth Cymru).



Ry'n ni'n gobeithio y bydd y gwaith yma yn cynorthwyo cartrefi sydd ag o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg i siarad Cymraeg gyda'u plant yn eu cartrefi. Rydym yn tybio y bydd cynnig mwy a mwy o ddulliau hyblyg i oedolion ddysgu'r Gymraeg, gan gynnwys cyrsiau ar-lein/cyrsiau cyfunol/cyrsiau o bell dros y cyfnod nesaf yn hwyluso'r broses i'r partner di-Gymraeg ddod yn siaradwr newydd ei hunan

### Ymatebydd 13 / Respondent 13

Mae'r camau gweithredu a gynigir yn grynodedb cynhwysfawr o'r anghenion. Yr hyn sydd ei angen nesaf, a chyn gynted â phosib, yw cynlluniau creadigol, amserlen, a phennu cyfrifoldebau ar gyfer y gwaith. Ynghlwm â'r broses hon o roi cig ar yr esgyrn, bydd angen gosod targedau. Nodwn, er enghraifft, fod y canran o blant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref wedi aros oddeutu 6-7% ers 2004, a bod y nifer wedi gostwng i 5.6% yn ystod 2019. Nid yn unig y mae hyn yn destun pryder, ond mae'r ystadegyn hwn yn ddangosydd allweddol. Credwn, felly, fod angen gosod targedau cynyddol i godi'r canran i 7%, 10% ac yna i 20% erbyn 2050.

Mae'n amlwg o'r ddogfen ymgynghori bod angen hyrwyddo newid ymddygiad rhieni a chodi eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, ac efallai mai dyma'r ddwy her fwyaf yn y tymor byr.

Bydd angen lledaenu neges gadarnhaol a chyfeillgar ynglŷn â gwerth y Gymraeg, a llunio rhaglen gynhwysfawr i dargedu rhieni, darpar-rieni a'r teulu ehangach. Mae lledaenu'r negeseuon hyn yn fater llorweddol, sy'n berthnasol i holl benawdau'r camau gweithredu. Dull gweithredu sydd yn gyffredin ymysg rhieni sydd â dwy famiaith wahanol yw i un rhiant ond siarad y famiaith honno gyda'r plant, tra bod y llall yn glynu at y famiaith arall. OPOL yw'r llythrenw/acronym Saesneg, sef One Parent One Language. Mae modd cadw at y patrwm hwn hyd yn oed os yw addysg plentyn mewn trydedd iaith.

Mae nifer o deuluoedd cymysgiaith yng Nghymru a byddai'n werthfawr iddynt ddeall bod dull cydnabyddedig ar gael i drosglwyddo'r ddwy iaith i'w plant.

Credwn y byddai modd bwrw ymlaen â rhai cynlluniau a phrosiectau yn fuan iawn. Gresyn, er enghraifft, y diddymwyd y cynllun Twf, a byddwn yn argymhell ei atgyfodi fel rhan o'r rhaglen waith. Yn yr un modd, roedd y cynllun 'Mae dy Gymraeg di'n grêt' yn mynd i'r afael â diffyg hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'r Polisi drafft yn nodi 'Gwaith Newydd' a 'Gwaith Cyfredol' fel penawdau ar gyfer y camau gweithredu: byddwn yn argymhell ail-edrych yn ogystal ar y cynlluniau gwerthfawr a ddiddymwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

#### **Ymatebydd 14 / Respondent 14**

Tybed a oes gormod o gamau gweithredu, â hynny, o ganlyniad yn gwneud y dasg o fonitro ac ymateb i ddatblygiadau unrhyw un o'r camau, bron yn amhosib? Mae rhai camau yn debyg i'w gilydd – efallai bod modd cyfuno ac ail-edrych ar ambell un. O fewn yr amserlen gweithredu (deng mlynedd) a nodir, cwestiynir a yw cyflawni pob un ohonynt yn ymarferol bosib? Mae'n galonogol gweld rhai camau yn seiliedig ar ymchwil penodol o wledydd eraill, ond mae angen sicrhau bod digon o dystiolaeth perthnasol ar gael o ran effeithiolrwydd unrhyw gynllun gaiff ei ystyried cyn bwrw ati i'w efelychu er mwyn sicrhau ei berthnasedd i gymunedau ar draws Cymru. Mae angen meddwl am ymarferoldeb monitro canlyniadau'r holl gamau gweithredu a nodir er mwyn cael casgliadau fydd yn sail i waith pellach ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y deilliannau disgwylidig. Croesewir yr elfen amlwg o gydweithio gyda rhan-ddeiliaid sydd ymhlyg yn y polisi drafft.

#### **Ymatebydd 15 / Respondent 15**

##### **New Work**

**Action 1** – Early Years Wales agrees that a similar movement to Euskalardia would be beneficial but would encourage its trial before a larger roll out. The Welsh and Basque languages have shared similar historical difficulties and as such we can learn from the work they are doing.

It should be noted however, that the most recent National Survey for Wales suggests that only 565,020 people (18% of the population) in Wales considers themselves to be Welsh speakers, a survey produced by Basque Government in 2016 titled VIème Enquête Sociolinguistique (VIème Sociolinguistic Survey) suggested that 616,564 people from Basque Country consider themselves as Euskara speakers. Whilst there just is only a

difference of around 50,000 in users of each language, the percentage of the population of Basque who considered themselves as native speakers is 28.4%.

This may impact on the success of the movement in Wales so other actions should be prioritized before its commencement such as continued development of the work carried out under Cymraeg for Kids, Camau, Work Welsh and the like. This will increase the number of Welsh speakers and ensure that parents and children are able to use Welsh at all opportunities throughout their day, whether at home or in childcare/education and work.

**Action 2** – Early Years Wales agrees that focusing on parents that have basic Welsh skills but may lack confidence to use it would be a welcomed step forward. A program that guides and encourages social parenting groups such as Parent and Toddler, libraries etc., to use Welsh during sessions, focusing on language that can be used at home would be advocated. This would give an opportunity for the language to be modelled, teaching those new to the language along with giving confidence to those that have lost it.

A number of families find it difficult to source and/or afford bilingual or Welsh books and resources. Working with other organisations, for example Booktrust Cymru and the NHS would allow books and other resources to be distributed and shared with families throughout Wales encouraging the use of the language.

**Action 3** – Early Years Wales would encourage that any support materials are easily accessible either on a website as printable downloads or a physical pack to be distributed.

Whilst it is beneficial to recognise the different opportunities available to use Welsh, if a parent is learning the language alongside their child then physical resources can be reassuring. This will of course not always be needed, especially where both parents speak Welsh and the materials would then act as a support mechanism.

**Action 4** – It will be important to reassure parents that all children develop at different stages and not to confuse lack of confidence with lack of ability. Language acquisition is complex and cannot follow a step by step guide.

It will also be important to recognise that as children grow and social circles form, so will their use of language and it shouldn't be expected that a child will speak a language different from its peers and this shouldn't be confused with a reticence to use the language.

**Action 5** – Working with groups already in existence, Local Authorities should provide more support to Toddler groups outside of their usual parenting projects, supporting groups with Welsh speakers in attendance to offer peer to peer support to groups that have little or no Welsh speakers.

**Action 6** – Local Authorities have various successful parenting projects in operation this would be a good place to introduce language workshops.

**Action 7** – Early Years Wales would encourage that early years and childcare practitioners be included in this. As Camau courses progress throughout Wales and Welsh language skills of childcare practitioners develop, they will be well placed to support parents with language transmission at home. Strategies and guidance could easily be delivered in future Camau courses.

**Action 8** – Early Years Wales would welcome the development of further smaller Work Welsh courses as it can be difficult for some people to commit to long training courses.

**Action 9** – Early Years Wales suggest that in addition to having an online presence, literature regarding the benefits of bilingualism to the child should be shared through other channels i.e. via childcare providers, NHS, libraries and aimed at parents and expectant parents.

**Action 10** – There are many projects / networks already in existence around schools, these would be easy to target using organisations that already work with them to target families and to introduce Welsh to help families use more Welsh with their children.

**Action 11** – Early Years Wales will encourage the use of Welsh for Adults courses that reinforce this draft policy and recognise through its past work with ‘un, dau, tri – hwyl a sbri’ and its current work with Camau, that learning the language doesn’t necessarily translate to its daily use. Strategies to support and guide parents will be crucial to hearing more Welsh in homes.

**Action 12** – As more children engage with IT and the majority of parents are computer literate this action would be welcomed. The use of IT can benefit and support language acquisition and transmission, allowing parents new to the language and those that may lack confidence the comfort to use the basics of the language with their child.

However, it may not be enough to purely have Welsh games etc. For older children in school where IT plays an important role in their education, innovative ideas should be developed to ensure engagement with the language through all aspects of their learning.

### **Developing Existing Projects**

**Action 13** – Early Years Wales agree that it will be crucial to review existing work to ensure that public money and funding is well spent and that projects which don’t deliver the desired outcomes are further developed to ensure needs are met.

**Action 14** – Looking at techniques used in other countries to develop people’s assertiveness and confidence in using languages can be beneficial, if it works in a similar environment, this should be drawn on and adapted to suit needs in Wales as a country.

### **Getting to Know more**

**Actions 15, 16 +17** – Early Years Wales understand that there has been research carried out in relation to the use of the Welsh Language at home in various sectors and it would be useful to scope that existing research as a baseline before commissioning further research, therefore reducing the possibility of duplicating work that has already been carried out with families.

**Action 18** – Early Years Wales believe it is important to consider that bilingualism in Wales doesn't necessarily relate to speakers of both Welsh and English. A small proportion of families, specifically in areas of cities such as Cardiff will be multilingual and may have a native foreign language (e.g Polish) and Welsh and/or English as second languages. For example, one parent may speak to the child in Polish, the other parent in Welsh and the child may attend an English language school.

Freedom of movement has seen families created from a whole host of nations with their own languages and cultures and these shouldn't be ignored. With Cymraeg 2050 in mind, recognition should be given to these families and research into how Welsh as a third language should also be considered. This would support the early years sector on developing strategies to support the target of a million Welsh speakers by 2050.

**Actions 19 + 20** – Early Years Wales agree with these proposed actions.

### **How will all this be managed**

**Actions 21 + 22** – Early Years Wales would like to see sufficient and appropriate stakeholders involved in the proposed programme board to ensure adequate delivery of the draft policy and the proposal to work with the Network to Promote Linguistic Diversity is welcomed.

### **Ymatebydd 16 / Respondent 16**

#### **Mae bodolaeth y ddogfen hon i'w groesawu.**

**Cam gweithredu 2:** Wrth ystyried cynulleidfaoedd targed ar gyfer unrhyw prosiectau newydd dylid ystyried targedu ardaloedd Dechrau'n Deg oherwydd buddion economaidd ac eraill dwyieithrwydd. Serch hynny, rhaid cofio mai lleiafswm o deuluoedd sydd yn byw o fewn ffiniau'r ardaloedd dynodedig hyn, a rhaid sicrhau mynediad cyfartal i'r adnoddau a'r gefnogaeth i'r sawl sydd yn byw y tu hwnt i'w ffiniau.

**Cam gweithredu 3 a 4:** Nodwn hefyd bod nifer o gynlluniau eisoes yn bodoli nad sydd yn cael eu gweithredu, neu nad sydd yn cael eu gweithredu i'w llawn potensial a hyn am rhesymau ariannol. Cyfeiriwn at gynlluniau megis 'Kids Soak it Up', 'Mae dy Gymraeg di'n grêt', 'Cymraeg o'r Crud' a 'Clwb Cwtsh'. Byddai medru darparu a gweithredu'r cynlluniau hyn ar draws Cymru unwaith eto yn cefnogi ac yn cynyddu trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Pwysleisiwn yr angen am fuddsoddiad ariannol digonol, dros

sawl blwyddyn, er mwyn medru gweithredu a gweld budd y cynlluniau hyn.

**Cam gweithredu 6:** nodwn bod ymchwilwyr o brifysgol Caergrawnt wedi bod yn cydweithio gyda'r NCT a hefyd y GIG yn Lloegr i ddatblygu adnoddau o dan y cynllun 'we speak multi'. Byddai sicrhau bod dosbarthiadau cyn-geni, ac ar ôl geni a dosbarthiadau rhianta ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog (pan yn briodol) y fodd da o gyflwyno trafodaethau am iaith y cartref cyn bod plentyn yn cyrraedd. Prin iawn yw'r cyfleoedd i dderbyn gwasanaetha fel hyn mewn nifer o rannau o Gymru. Byddai gofyn uwch-sgilio bydwagedd i hwyluso seisynau mewn dwy iaith ac i arwain trafodaeth hyderus am hynny wrth wneud.

**Cam gweithredu 7;** bydd angen sicrhau fod yr adnoddau hyn ar gael i ymarferwyr addysg ar draws y sector addysg yn cynnwys y sector nas gynhelir a ysgolion sydd yn addysgu Cymraeg fel ail-iaith (ar y funud). Cytunwn fod hyn yn holl bwysig.

**Cam gweithredu 13:** argymhellwn fuddsoddiad ychwanegol yn rhaglen Cymraeg i Blant er mwyn ehangu capasiti a sicrhau fod pob teulu yng Nghymru o fewn cyrraedd rhesymol i'r grwpiau cefnogi. Ar hyn o bryd mae bylchau enfawr yn y ddarpariaeth, a'r bylchoedd hynny yn aml mewn ardaloedd sydd yn draddodiadol gyda chanran uwch o rieni'n trosglwyddo, er enghraifft Dyffryn Conwy, ardal Penllyn. Mae angen sicrhau fod trosglwyddiad iaith o fewn cartrefi y cymunedau hyn yn cael ei gynnal gan fod ymchwil yn awgrymu e.e ym Môn fod canran y trosglwyddo yn lleihau yn raddol dros amser mewn ardaloedd tebyg.

**Cam gweithredu 15, 16, 17, 18, 19, 20:** croesawn y pwyslais ar ymestyn a datblygu'r gwaith ymchwil sydd yn hanfodol ar gyfer datblygu a gweithredu cynlluniau ymarferol ar gyfer y trosglwyddo'r Gymraeg a'i ddefnydd mewn teuluoedd. Argymhellwn cydweithio gydag unigolion a sefydliadau sydd eisoes yn gweithio yn y maes, megis Mudiad Meithrin, er mwyn adnabod bylchau yn y gwaith ymchwil sydd eisoes ar gael.

**Cam gweithredu 21:** pwysleisiwn yr angen i sicrhau bod y bwrdd rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws amryw o sectorau, gan gynnwys y gweithlu gofal, addysg a chwarae, gweithwyr cyn-geni ac ôl-eni gan mai dyma'r unigolion fydd a'r cysylltiadau mwyaf aml gyda teuluoedd yn ystod blynyddoedd cyntaf y plant.

Mae cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng y gweithredoedd sydd yn cael eu crybwyll yma a'r Strategaeth Cymraeg 2050. Yn anffodus nid oes eglurhad clir yma o sut mae'r yn cydblethu a chydweithio ochr yn ochr. Byddai hyn yn fuddiol.

**Ymatebydd 17 / Respondent 17**

Croesawn y polisi ddrafft a chytunwn gyda'r egwyddorion o roi cymorth i'r rhai sydd yn gallu siarad Cymraeg, i siarad gyda'u plant yn Gymraeg. Mae'r pedwar nod arfaethedig yn cyd fynd a Cymraeg 2050 a byddant yn cefnogi'r defnydd parhaus o Gymraeg yng Nghymru.

Gallai'r polisi drafft fynd ymhellach, ac mae angen mwy o fanylion i gyflawni'r nodau cyffredinol. Mae'r gweithredoedd yn teimlo'n ailadroddus o feysydd polisi eraill, yn enwedig gweithrediad 8 o amgylch Cymraeg yn y gweithle, a gyflawnwyd yn helaeth, yn hanesyddol trwy'r cynllun Gwaith Cymraeg. Fodd bynnag, gyda'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg; sy'n cyflwyno llawer o ddysgu Cymraeg yn y gweithle; yn dderbyn gostyngiadau ariannol sylweddol ar gyfer 2020/2021, efallai y bydd angen adlinio nodau'r polisi i ystyried hyn. Mae angen linciau i bolisiau pwysig eraill yn y ddrafft.

We welcome the draft policy and agree with the principles of supporting those who can speak Welsh to speak to their children in Welsh. The four proposed aims of the policy align to Cymraeg 2050 and will support the continued use of Welsh in Wales.

The draft policy could go further, and more detail is needed to achieve the overall aims. The actions feel repetitive of other policy areas, particularly action 8 around workplace Welsh, which has been carried out extensively, historically through the Work Welsh scheme. However, with the National Centre for Learning Welsh; who deliver much of the workplace Welsh learning; receiving significant financial reductions for 2020/2021, the policy aims may need to be realigned to take account of this.

There are also some fundamental links to other policies missing from this proposal.

### **Ymatebydd 18 / Respondent 18**

We agree that the proposed actions will allow you to do this. However, some of the actions set out in the draft policy are not all specific and are worded as intentions and do not include the "how", for example, proposed action 2 " We'll create new initiatives ..." and action 11 " We'll ensure that Welsh for Adults courses reinforce the aims of this draft policy" Therefore it is more difficult to comment on whether these actions will support and increase Welsh language transmission – in theory creating more initiatives should contribute but without the exact details of the initiative it is more difficult to assess if we believe they will be effective.

We welcome the range of proposed actions listed in this draft policy. We acknowledge the fundamental thrust is "about changing behaviours" and developing assertive confidence in parent/carers. As is acknowledged, a particular skills set is needed for using the Welsh language with a child. More detail of how schools/teaching practitioners can support this in the home is needed. The draft policy proposes using parent/carer networks around the school. This we welcome, however the role of the school, and indeed adult Welsh courses, to reinforce the aims of the draft policy, is unclear.

A number of proposed actions refer to providing practical advice/techniques to parents/carers who do not speak Welsh. An on-line presence is listed as supporting a strong Welsh language play technology. The role of technology to strengthen the Welsh language in our children and young people's lives is paramount. It is also a direct link into the home and to shared learning experiences for those who live there.

We welcome the proposed action to look at work done with families in other fields and analyse how we communicate with families.

*Developing existing projects:* We welcome the TLA approach particularly with regard to adult confidence to speak Welsh in the home.

*Getting to know more:* proposed actions: We agree with the aim of commissioning research on use of Welsh language in families through focus on the child's perspective – their views, the part they will play and their willingness and enthusiasm to do this. How children acquire language in a bi-lingual/multi-lingual home is complex and includes acquisition of grammar, vocabulary and phonology.

Not unlike home schooling, this requires robust support structures that focus on the learners in the home developing their skills – be they adults or children. We welcome the proposed aim of looking at other bilingual/multi lingual homes and how the languages co-exist and thrive together.

*How will all this be managed? Proposed actions:* We welcome the proposal to establish a programme board to manage this work and support the intention of establishing an international dimension to this e.g. to work with NPLD (Network to Promote Linguistic Diversity) and the indigenous, minority and lesser-used languages group of the British-Irish Council.

### **Ymatebydd 19 / Respondent 19**

I think so. You will see it in a few years. As it is written in the consultation document, it will not be a direct and unidirectional consequence caused by this FLP, but by all around others sectoral policies that would be set up together inside of the overall strategy.

Beyond that, I do not know enough about nor the situation of the Welsh Language and nor the current Welsh society to go into details of the potential performance of each action.

### **Ymatebydd 20 / Respondent 20**



Teimlir yn gyffredinol bod nifer o gamau gweithredu yn cael eu nodi, ond bod y geiriad yn rhy amwys, ac felly nad ydynt mewn gwirionedd yn rhoi manylion am beth yn union yw'r weithred y disgwylir i ni ei gweld. Heb gael y manylion am beth mae rhai ohonynt yn ei olygu –e.e. beth a olygir wrth “rhoi cyngor” nid yw'n bosib barnu a fydd y camau yn cyflawni'r nod. Gan fod elfen o ailadrodd, mae nifer o'r camau yn swnio yn debyg i'w gilydd. Bydd angen edrych ar y geiriad yn y fersiwn derfynol er mwyn sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng y camau yn glir.

Croesewir y camau sydd yn seiliedig ar ymchwil ac arferion llwyddiannus mewn gwledydd eraill, ond mae'n rhaid bod yn ofalus ac ymarferol wrth drosglwyddo arferion i Gymru. Mae'r amgylchiadau yng Nghymru, a'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gosod cyd-destun gwahanol iawn i wledydd eraill, a byddai angen sicrhau bod tystiolaeth ddigonol sydd yn dangos y byddent hefyd yn berthnasol i'n cyd-destun ni yma yng Nghymru. Dylid canolbwyntio yn ein barn ni ar adnabod un neu ddau o rif feysydd/meysydd blaenoriaeth, megis gwaith ymchwil i arferion trosglwyddo siaradwyr Cymraeg, a thargedu rhieni Cymraeg sydd yn peidio trosglwyddo, a cheisio gweithio yn ddwys ar y rheiny, yn hytrach na thafu'r rhwyd yn rhy eang.

Teimlwn hefyd y dylai fod pob un o'r camau gweithredu sydd yn cael eu rhestru yn cyfeirio yn ôl at y tri cham o Cymraeg 2050, gan nodi pwy yw'r partneriaid, a beth yn union fydd yn cael ei gyflawni gan bwy.

### **Ymatebydd 21 / Respondent 21**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs believes that the proposed actions within the consultation will support families in gaining confidence to speak Welsh at home.

### **Ymatebydd 22 / Respondent 22**

Mae Amgueddfa Cymru yn cefnogi egwyddorion y polisi ac yn croesawu'r cynnydd yn y maes hwn. Maent yn cyd-fynd a'n cenhadaeth i ysbrydoli pobl, newid bywydau yn nwy iaith Cymru a'n gwaith ar gynnig rhaglenni Cymraeg a dwyieithog o'r safon uchaf i'n cynulleidfaoedd.

Trwy ein rhaglenni cyhoeddus – a'r rhaglenni digwyddiadau, addysg ac ymgysylltu yn benodol – mae gennym gyfleoedd da i greu neu gynnal cysylltiadau â'r cynulleidfaoedd targed a nodir yn y polisi ac rydym yn awyddus i gefnogi a chydweithio lle bynnag y bo modd. Mae ein lleoliadau hefyd yn cynnig gofodau amgen i'r Gymraeg ffynnu tu hwnt i leoliadau addysg traddodiadol.

Rydym yn croesawu'r camau gweithredu, ac yn cynnig rhai sylwadau pellach ar gamau gweithredu unigol:

Mae llawer o'r camau gweithredu yn creu cyfleoedd i **gydweithio** er mwyn sicrhau llwyddiant, e.e. treialu rhaglen Euskaraldia (Cam Gweithredu 1) a Cham Gweithredu 13. Tybed hefyd oes lle i **weithio gyda phrojectau neu raglenni cyfredol** yn ogystal â chreu rhai newydd? Rydym yn meddwl yn benodol am raglenni cyhoeddus lleoliadau fel yr Amgueddfa mewn perthynas â Cham Gweithredu 2.

Wrth geisio dangos nad iaith yr ystafell ddosbarth yw'r Gymraeg yn unig, gwelwn gyfleoedd i **dargedu cynulleidfaoedd penodol mewn lleoliadau amgen** fel yr Amgueddfa e.e. Cam Gweithredu 2 ble nodir y bydd eich projectau 'yn cefnogi pobl a fydd, efallai, heb ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ers ysgol i siarad Cymraeg gyda'u plant.' Trwy ein rhaglen addysg yn benodol, rydym eisoes yn annog plant sy'n ymweld ar daith ysgol i ddychwelyd gyda'u teuluoedd, a gellid defnyddio'r cyfle hwn hyn i gryfhau'r neges am y Gymraeg fel rheswm da i ddychwelyd gyda'r teulu. Yn yr un modd, carem weld mynychu amgueddfeydd a digwyddiadau treftadaeth a chelfyddydol ymhlith y gwahanol fathau o sefyllfaoedd teuluol a nodir yng Ngham Gweithredu 3 'Byddwn ni'n **rhoi cyngor a/neu dechnegau ymarferol i deuluoedd** lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ym mhob math o sefyllfa deuluol e.e. yn y car, yn ystod amser bwyd gartref ac ati.'

Gwelwn hefyd gyfleoedd i **blethu negeseuon y polisi** i raglenni digwyddiadau cyhoeddus cyfredol er mwyn lledaenu'r neges, e.e. Cam Gweithredu 4 – sicrhau bod cyngor ar gael i rieni/gofalwyr ar yr hyn y gallan nhw ei wneud pan fydd eu plant yn ddihyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Rydym yn croesawu'r camau sy'n trafod gwaith **ymchwil** yn y maes hwn, yn enwedig Camau Gweithredu 5 ac 18-20. A ellid rhannu'r canfyddiadau ag ymarferwyr fel yr Amgueddfa er mwyn ehangu'r ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion gwahanol gynulleidfaoedd a chysylltu â rhwydweithiau i wneud y mwyaf o'r effaith er budd y Gymraeg? Byddem hefyd yn croesawu crynodeb neu adroddiad hawdd ei ddarllen yn seiliedig ar y gwaith ymchwil er mwyn ehangu mynediad i ymarferwyr nad ydynt yn academyddion.

Rydym yn croesawu Cam Gweithredu 7 parthed **rhoi sgiliau ac adnoddau addysgu i ymarferwyr addysg** i'w helpu i ddefnyddio dulliau cadarnhaol i annog plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'i gilydd yn y teulu a'r gymuned nawr ac yn y dyfodol. Tybed a ellid ystyried cynnwys cyrff addysgol tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, fel yr Amgueddfa, ymhlith yr ymarferwyr addysg hyn er mwyn lledaenu'r neges ymhellach?

Mae chwilio am y **cyfleoedd a godir trwy weithleoedd** i ailgynnau defnydd o'r Gymraeg (Cam Gweithredu 8) hefyd yn cyd-fynd â'n gwaith ehangach ar gynyddu defnydd a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn ogystal â gwaith mewnol gyda staff, cynhelir **cyrсияu Cymraeg i Oedolion** i'r cyhoedd yn rhai o'n hamgueddfeydd, felly mae Cam Gweithredu 11 hefyd yn atgyfnerthu gwaith sydd eisoes ar y gweill gennym. Mae cynnal cyrsiau mewn lleoliadau lle mae staff sy'n siarad Cymraeg eisoes ar gael yn atgyfnerthu'r profiad, ac mae tystiolaeth fod dysgu mewn cyd-destun diwylliannol yn gallu dyfnhau'r profiad. Fel lleoliad, mae gennym gapasiti a sgiliau addysgol, ond nid ydym yn y categori 'addysg' traddodiadol – gall hyn fod o fantais wrth ddenu cynulleidfaoedd newydd at y Gymraeg neu dargedu cynulleidfaoedd sy'n ymwelwyr eisoes. Gellid ystyried lleoleiddio'r gwaith ar y cam hwn i ystyried anghenion gwahanol ardaloedd daearyddol.

Gwelwn gyfleoedd yng Nghamau Gweithredu 9 a 10 i **rannu arfer dda** a gwybodaeth am blatfformau digidol a rhwydweithiau ag ymarferwyr fel yr

Amgueddfa er mwyn gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau galluogi cyrff i gydweithio tuag at y nodau cyffredin.

Parthed Cam Gweithredu 12, mae **gwaith digidol** yn llinyn yn ein gwaith addysg, ac rydym eisoes yn cynhyrchu gwahanol brofiadau digidol dwyieithog, gan gynnwys Google Expeditions, profiadau rhithwir yn ein hamgueddfeydd yn ogystal â chynnyrch fel iLyfrau a deunydd ar gyfer gwefan HWB. A ellid ystyried cryfhau Cam Gweithredu 12, o 'ymchwilio i'r cyfleoedd mae technoleg yn eu cynnig' i weithredu er mwyn sicrhau fod adnoddau ar gael i sicrhau y bydd plant yn chwarae yn Gymraeg a buddsoddi a datblygu'r maes hwn?

Rydym hefyd yn croesawu'r **dimensiwn cenedlaethol a rhyngwladol** (Camau gweithredu 13, 14, 17, 22) ar gydweithio er mwyn ehangu ein dealltwriaeth o ddefnydd iaith ac yn gobeithio y bydd data ar gael i'w rannu yn ehangach er mwyn i gyrff sy'n gweithio tuag at yr un nodau allu cyfrannu at y gwaith.

#### **Ymatebydd 24 / Respondent 24**

No - what ever policies you have does not guarantee that it will work within a home environment.

In my opinion this is a total waste of time, money and resources - the Welsh Language act in general is a waste.

It creates confusion with regards to signage within hospitals, roads and other public buildings.

A total waste of resources where forms need to be published bilingual and when completed only English is completed and the Welsh version is then binned. WHAT A WASTE. Surely there are more important priorities to Welsh Government.

Why doesn't Welsh Government survey the population of Wales as a whole to see what their opinion is of the Welsh Language Act in general - value of money?

#### **Ymatebydd 25 / Respondent 25**

I don't want you to do this

#### **Ymatebydd 26 / Respondent 26**

Waste of time and money no point

#### **Ymatebydd 27 / Respondent 27**

Rydym fel Cyngor yn canmol ac yn gwerthfawrogi ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r maes hwn ac i greu polisi i ymdrin â'r mater. Mae'r camau gweithredu a amlinellir i'w gweld yn synhwyrol ac yn rhesymol. Er hynny nid ydym yn teimlo y gellir rhoi sylw ar

lwyddiant ai peidio gan fod y camau yn rhai cyffredinol iawn. Bydd llwyddiant y camau o ran cynyddu trosglwyddo'r Gymraeg yn ddibynnol ar y technegau a'r dulliau penodol a ddefnyddir.

Yr ydym o'r farn na all polisi trosglwyddiad iaith yn unig sicrhau y newidiadau angenrheidiol o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae angen cyd-berthynas glir gyda Strategaeth y Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac mae angen creu ffrwd gwaith sy'n cael ei harwain gan y Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod cydweithio clos rhwng y sefydliadau sy'n darparu addysg cyn oed ysgol.

Awgrymwn bod angen ennyn ymdeimlad o falchder cenedlaethol fel cyd-destun i bolisi o'r math.

#### **Ymatebydd 28 / Respondent 28**

Not entirely, there are several other things you could do to help

#### **Ymatebydd 29 / Respondent 29**

Fail to represent the majority of WELSH who speak ENGLISH.

#### **Ymatebydd 30 / Respondent 30**

Byddant

#### **Ymatebydd 31 / Respondent 31**

Yes

#### **Ymatebydd 32 / Respondent 32**

What a crackers world we live in. If the language was thriving we wouldn't need to invest the money in it, we wouldn't need to discriminate against mono-lingual English speaking Welsh folk. I can speak Spanish reasonably, French to school boy level and have some Portuguese but that is because when living in those countries the languages were used. Even in rural Powys the chances of me bumping into the welsh language are slim in daily life e.g. shopping, school or business

#### **Ymatebydd 33 / Respondent 33**

I think they will if they are communicated and marketed correctly

#### **Ymatebydd 34 / Respondent 34**

I think so, but I strongly encourage you to develop very close campaigns to the families, that is, less big commercials and more door-to-door or community-based contact

### **Ymatebydd 35 / Respondent 35**

Yes, certainly. You have covered a range of actions which will support and increase Welsh Language transmission in families.

### **Ymatebydd 36 / Respondent 36**

It is difficult to say whether or not they will allow this as there is such variability in family circumstance, opportunity, proficiency, and motivation.

There is a lack of research to support the actions therefore we are unable to say for sure what the best actions are to develop welsh language among families.

### **Ymatebydd 37 / Respondent 37**

Er bod amryw o gamau gweithredu penodol, mae'r rhan helaethaf o'r camau gweithredu yn eithaf amwys ac nid ydynt yn cynnwys llawer o fanylder am yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud yn union. Er enghraifft, mae cam gweithredu 2 yn nodi bydd y Llywodraeth yn 'creu prosiectau newydd gan adeiladu ar ein gwaith cyfredol i gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Byddan nhw'n defnyddio'r datblygiadau gwyddonol diweddaraf i newid ymddygiad.' Er bod hyn yn ymddangos yn gadarnhaol, mae'n anodd darparu sylwadau ar gamau gweithredu o'r fath, oherwydd nid oes unrhyw fanylder ynglŷn â beth yn union fydd y prosiectau hyn a sut y bwriedir newid ymddygiad. Mae'r un peth yn wir i raddau ar gyfer camau gweithredu 3, 4, 6, a 7. Nid ydym yn anghytuno â'r bwriad polisi o gwbl, ond byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r camau gweithredu hyn er mwyn darparu adborth a mewnbwn mwy ystyrion.

Mae'r polisi drafft yn glir iawn mai ffocws y ddogfen yw trosglwyddo iaith yn y cartref, ac er bod materion eraill fel addysg a defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn hynod berthnasol, mai nid dyma yw ffocws y polisi penodol hwn. Er hyn, mae'n bosib iawn bod rhai o'r meysydd polisi eraill hyn yn fwy arwyddocaol yng nghydestun cyflawni amcanion y polisi hwn.

Fel y mae ymchwil ar drosglwyddo iaith yn y cartref yn ei bwysleisio, nid yw newid arferion iaith unigolion a theuluoedd yn rhywbeth sy'n hawdd dylanwadu arno drwy bolisïau a strategaethau cenedlaethol. Gan amlaf mae pa iaith sy'n cael ei defnyddio yn y cartref yn benderfyniad (neu yn arferiad) anymwybodol, ac yn un sydd yn ganlyniad i brofiad a sefyllfa bersonol a chymdeithasol yr unigolyn. Mae'r ffactorau

sy'n dylanwadu ar hyn yn niferus, ac yn cynnwys ffactorau megis iaith magwraeth yr oedolyn, profiadau'r oedolyn gyda'r iaith, yr iaith a siaredir â chyfeillion, ynghyd â'r rhwydweithiau cymunedol sydd o'u cwmpas. Golyga hyn nad yw'n debygol bod modd dylanwadu ar ddewisiadau ac arferion iaith yn y cartref drwy ymyrraeth unigol, ac mae'n

gofyn am ystod o ymyraethau fyddai'n effeithio ar brofiad holistaidd unigolyn dros gyfnod hwy o amser. O'r safbwynt hwn gellir dadlau bod cynyddu cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref yn ganlyniad neu yn adlewyrchiad o lwyddiant polisiâu ehangach y Llywodraeth mewn meysydd fel gofal plant ac addysg, y Gymraeg yn y gweithle, cyrsiau Cymraeg i oedolion, a defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, heb sôn am lwyddiant polisiâu ehangach megis rhai economaidd sydd y tu hwnt i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn. Hynny yw, mae'n bosib bod polisiâu yn y meysydd hyn yn fwy arwyddocaol o ran cynyddu cyfraddau trosglwyddo'r iaith yn y cartref na'r polisiâu sy'n canolbwyntio'n benodol ar drosglwyddo iaith yn y cartref (sef ffocws y polisi dan sylw). Ochr arall hyn wrth gwrs, yw y gall penderfyniadau polisi ehangach danseilio'n llwyr amcanion y polisi drafft hwn (er enghraifft petai torri ar gyllid neu ddiidymu strategaethau mewn meysydd fel gofal plant, addysg bellach ac uwch, Cymraeg yn y gwaith ac yn y blaen), ac felly mae'n hollbwysig fod y polisi hwn yn ystyried ac yn trafod y materion ehangach hyn yn fanwl. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu nad oes angen polisi cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar drosglwyddo iaith yn y cartref, ac mae'n amlwg y gall y meysydd polisi uchod gefnogi ei gilydd. Er hyn, byddem yn dymuno trafodaeth a chydabyddiaeth fwy amlwg o berthnasedd y meysydd polisi ehangach o ran cyflawni amcanion y polisi penodol hwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhyw fath o restr o gamau gweithredu neu ddangosyddion ehangach sy'n arwyddocaol o ran cyflawni amcanion y polisi trosglwyddo iaith hwn.

Although there are several specific action points, the vast majority of the actions are fairly ambiguous and they do not include much detail about what exactly the Government will be doing. For example, action 2 notes that the Government will 'create new initiatives building on our existing work to support Welsh language transmission in families. They'll use the latest scientific developments to change behaviours.' Although this appears to be positive, it is difficult to provide comments on such actions, as there is no detail regarding what exactly these projects will be and how behaviour is intended to be changed. The same is largely true for actions 3, 4, 6 and 7. We do not disagree with the policy intention, but it would be useful to have more information regarding these actions in order to provide meaningful feedback and input.

The draft policy is very clear that the focus of the document is language transmission at home, and although other matters such as education and social use of Welsh are extremely relevant, this is not the focus of this specific policy. However, it is very possible that some of these other policy areas are more significant in the context of achieving the objectives of this policy.

As research on language transmission at home emphasises, changing the language practices of individuals and families is not something which is easy to influence through national policies and strategies. Usually, the language used at home is an unconscious decision (or practice), and one which is a result of the individual's experience and personal and social situation. There are numerous factors influencing this, including the adult's language of upbringing, the adult's experiences with the language, the language spoken with friends, as well as the community networks surrounding them. This means that it is difficult to influence language

decisions and practices at home through individual intervention, and it requires a range of interventions which would impact an individual's holistic experience over a longer period of time. From this perspective, it can be argued that increasing Welsh transmission rates at home is a result or a reflection of the success of the Government's wider policies in areas such as childcare and education, Welsh in the workplace, Welsh courses for adults and social use of Welsh. These will in turn, of course, be influenced by the wider economic policies and strategies of the Government. It is possible that policies in these areas are more significant in terms of increasing language transmission rates at home than the policies which focus specifically on language transmission at home (namely the focus of the policy in question). The other side of this of course is that wider policy decisions can completely undermine the objectives of this draft policy (for example if funding were cut or strategies dropped in areas such as child care, further and higher education, Welsh in the workplace and so on), and therefore it is vital that this policy considers and discusses these wider matters in detail.

Of course, this does not mean that there is no need for a national policy which focuses on language transmission at home, and it is clear that the above policy areas can complement each other. However, we would wish to have a clearer discussion and acknowledgement regarding the relevance of the wider policy areas in terms of achieving the objectives of this specific policy. It may be useful to include some kind of list of actions or wider indicators which are significant in terms of achieving the objectives of this language transmission policy.

### **Ymatebydd 38 / Respondent 38**

Mae'r camau gweithredu i'w croesawu fel cyfraniad tuag at gyflawni amcanion Cymraeg 2050.

Yn benodol i Fôn, hoffwn:

- Groesawu prosiectau peilot i Fôn ee adduned defnydd iaith yng Ngham Gweithredu 1, Prosiectau Rhwydweithio Rhieni a Gofalwyr yng Ngham Gweithredu 10, Cyrsiau Cymraeg i oedolion yng Ngham Gweithredu 11, y dechnoleg i helpu plant i chwarae yn y Gymraeg yng Ngham Gweithredu 12.
- Ategu cefnogaeth y Bartneriaeth / drwy Fforwm Iaith Môn hefyd i gydweithio â'r Bwrdd Rhaglen gan sicrhau llais i Fôn ar y Bwrdd Rhaglen. Yn ogystal, apelio am lais i bartneriaid sy'n strategol i wireddu Cymraeg i Deuluoedd ee Byrddau Iechyd.
- Gynnig mewnbwn lleol i'r cyngor ar roddir yn y Camau Gweithredu 3 & 4.

### **Ymatebydd 39 / Respondent 39**

Mae'r Camau Gweithredu i'w croesawu ac am fod yn gyfraniad pwysig at gyflawni amcanion y polisi. Gweler sylwadau isod am gamau penodol ac awgrymiadau eraill all fod o gymorth pellach.

### **Ymatebydd 40 / Respondent 40**

Byddant.

Mi fydd yn bwysig iawn ystyried maint y potensial sydd mewn siaradwyr newydd ac os oes modd cynllunio ar gyfer y garfan o rieni sydd yn dewis addysg Gymraeg i'w plant ond ddim ar hyn o bryd yn dewis dysgu'r iaith eu hunain. Sut y mae hyn yn effeithio ar y trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf? Er nad yw'r polisi hwn yn ystyried yr elfen hyrwyddo addysg, efallai bod yna gyfle i greu prosiectau caffael, cynyddu hyder a hwyluso iaith ar y cyd gyda'r maes addysg er mwyn cefnogi rhieni sydd yn dewis addysg Gymraeg i'w plant sydd ddim yn dysgu'r iaith eu hunain

Mae edrych ar safle'r Gymraeg ochr yn ochr ag ieithoedd eraill y cartref yn bwysig iawn hefyd gan ei wneud yn normal i fod yn gartref amlieithog a bod defnydd y Gymraeg yn ddiogel yn y genhedlaeth nesaf

#### **Ymatebydd 41 / Respondent 41**

Yn gyffredinol, rydym fel Mentrau Iaith yn hapus gyda'r camau gweithredu a nodir yn y polisi drafft hwn. Maent yn bwrpasol ac yn rhai sydd yn gosod sail gadarn i egin-brosiectau a gweithredu cadarnhaol mewn meysydd eang i geisio cynyddu'r trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd.

Cydnabyddwn bod y maes hwn yn gymhleth a bod yr amrywiaeth a chyfuniad y ffactorau sy'n cyfrannu at ddefnydd iaith o fewn y teulu'n amhosibl i'w rhagweld a'u mesur. Ac felly mae angen, mewn polisi o'r math hwn sail sydd yn medru mynd i'r afael ag unrhyw gyfuniad o'r newidynnau hyn.

Fel Mentrau Iaith, y mae cyfle gwirioneddol gyda ni yma i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol eraill, gyda'r gwaith o roi'r cig ar yr asgwrn i weithredu'r polisi hwn. Mae gennym ddealltwriaeth ddofn o natur ieithyddol amrywiol cymhleth ein teuluoedd o fewn ein cymunedau, lle y gwelwn amrywiaeth eang o gyfuniadau ieithyddol.

Deallwn hefyd bod y dylanwadau ar drosglwyddo iaith yn newid o aelod i aelod, o deulu i deulu ac o genhedlaeth i genhedlaeth ac mae bod yn graff i addasu er mwyn ystyried hynny'n bwysig iawn. Ac felly mae cynyddu gallu ein cynllunwyr iaith cymunedol drwy hyfforddiant cyson a phwrpasol yn hanfodol os ydym am i'r polisi hwn weithio.

Atodwn gyda'n hymateb sampl bychan o holiaduron a gawsom wrth drefnu'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn i ddangos yr ystod eang o gyfuniadau ieithyddol sydd o fewn ein teuluoedd ar draws Cymru.

Y mae angen i'r polisi weithio a bod yn eglur ar sut gellir ei weithredu ar lefel lleol yn ogystal a chenedlaethol yn hytrach na pholisi 'one size fits all'. Bydd angen i'r prosiectau a ddaw o ganlyniad i'r polisi hwn fod yn hyblyg ac â golwg tymor canol a hirdymor ar drosglwyddiad iaith o fewn y teulu fel bod modd addasu wrth werthuso ac addasu yn ôl amgylchiadau lefel lleol.

Isod rhoddwn sylwad i bob cynnig a cham gweithredu'n unigol:



1. Syniad da yw rannu arferion sy'n gweithio, dysgu gan a chydweithio gydag endidau a phrosiectau ynghlwm a ieithoedd lleiafrifol eraill. Mar enghreifftiau o brosiectau y mae'r Mentrau ynghlwm a nhw, megis Shwmae Su'mai a Ras yr Iaith, sydd wedi dysgu o arferion rhyngwladol a bellach wedi tyfu gwreiddiau ac wedi creu bywyd ei hunan yma'n Nghymru. Byddwn yn hapus i gefnogi hyn. Rydym yn hoff o'r syniad o addewid ac yn awgrymu gellir ymestyn ar y syniad dros y blynyddoedd nesaf i gynnwys addewidion gan fudiadau, megis clybiau chwaraeon a chynghorau cymuned ayyb, i ddefnyddio'r Gymraeg, credwn byddai'r math hyn o addewid yn creu seilwaith i ddefnyddio'r iaith yn gymunedol, ac eto'n dilyn arferion da gwelir yng Ngwlad y Basg,

2. Croesawn hyn yn fawr iawn. Yn y broses o edrych ar gynllunio prosiectau newydd dylid cymryd i ystyriaeth ac adolygu prosiectau hanesyddol yn ogystal â rhai sydd eisoes yn digwydd. Dylid bwrw golwg 360 gradd ar yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn barod e.e. Carreg Llamu , Cymraeg yn y bag, Cymraeg i'r Teulu, Twf ac yn y blaen. Pwysleisiwn yr angen i sicrhau bod adnoddau digonol mewn termau cyllid a hyfforddiant i ddatblygu'r rhain, eu haddasu a rhoi amser iddynt wreiddio a'u gwireddu. Pwysleisiwn bod angen edrych ar dermau 10 mlynedd sef cyfnod y polisi. Yn hytrach na chreu rhywbeth newydd eto, byddai'n dda addasu a rhoi digon o adnoddau y tu ôl i brosiectau i sicrhau eu bod yn llwyddo. Awgrymwn gynnal math o "roadshow" prosiectau lle gall bartneriaid gynnig eu prosiectau hanesyddol a chael grwpiau l'w datblygu ymhellach.

3. Cefnogwn hyn yn fawr gan bwysleisio nad yw 'adnodd' papur neu ar-lein yn ddigonol ar ben ei hun, mae angen yr elfen cyswllt personol hefyd. Mae cael rhywun i siarad â nhw, ynghyd ag adnoddau, yn bwysig tu hwnt. Mae llawer o adnoddau allan yno'n barod- Llyfryn Twf '8 rheswm da i gyflwyno'r Gymraeg o'r crud', Cymraeg babis ayyb, a llawer o brosiectau'r Mentrau fel Magi Ann (dros 200,000 o lawr lwythiadau) , Selog a Bys a Bawd. Fel nodwyd ym mhwynt 2 mae angen hyrwyddo, ymestyn ar a chydweithio ar beth sy'n bodoli eisoes, a rhoi'r amser i bethau dyfu gwreiddiau a rhoi cyllid digonol iddynt lwyddo, yn hytrach na ail greu o'r newydd o hyd. Byddai elfen hyfforddi'r hyfforddwr yn allweddol yma.

4. Tra bod sylw'n cael ei roi i siaradwyr Cymraeg ac i siaradwyr newydd, teimlwn nad oes digon o bwyslais yn cael ei roi i deuluoedd sydd wedi derbyn addysg Gymraeg ond yn ddihyder i fagu plant yn Gymraeg. Bellach gwelwn genedlaethau o rai teuluoedd yn dewis addysg Gymraeg, ond ddim yn ei defnyddio gartref, rhaid ystyried y garfan yma'n benodol yn y polisi. Pwysleisiwn yr angen i ystyried lle mae pobl yn chwilio am wybodaeth rhianta, megis y Gwasanaeth Gwybodaeth i deuluoedd ar lefel Awdurdodau Lleol, a bod y wybodaeth sy'n bodoli ar y safleoedd hyn yn crybwyll **defnydd iaith** ac nid addysg yn unig.

5. Ystyriwn y broses hon o ddadansoddi'r cyfathrebu yn un allweddol iawn. Mae angen i negeseuon fod yn gyfredol, perthnasol a phwerus i adlewyrchu gwahanol sefyllfaoedd. Efallai yn y gorffennol, mae diffyg negeseuon cyson wedi bod o amrywiaeth o gyfeiriadau. Nid yw ymgyrchoedd **ynglŷn â** defnydd wedi digwydd yn y gorffennol, ac angen bod y gwahaniaeth rhwng dewis addysg a defnydd iaith fod yn glir mewn negeseuon. Mae cyfathrebu rhagorol ac effeithiol yn holl bwysig i bwysleisio'r neges trosglwyddo iaith ac felly mae cydweithio rhwng y llywodraeth a partneriaid allweddol, a rhwng y partneriaid a'i

gilydd, yn hanfodol. Yn amlwg, mae'r Gymraeg yn fwy na brand ond dylid ystyried dulliau cyfathrebu brandio effeithiol, megis cysondeb neges, amllder neges, safon y neges. Gwelwn gyfle wrth sefydlu Prosiect Cymraeg 2050 i greu delwedd sydd ddim yn gorfforaethol, sy'n denu sylw teuluoedd, sy'n groesawgar ac yn eglur. Rhaid i'r negeseuon ddod gan Prosiect 2050 a'r gwahanol endidau, nid o du'r Llywodraeth. Yn ogystal â chydweithio a'r negeseuon mae angen cyd-gyfeirio ein gwaith yn gliriach. Dylid cynllunio ar gyfer osgoi endidau yn gweithio'n annibynnol yn hytrach na gweithio ar y cyd ac yn gwneud mwyaf o gryfderau'r holl endidau. Y mae pryderon parhaus am barhad cyllid yn fwy blaenllaw nag erioed yn sgil covid-19, ond drwy gydweithio ar yr agwedd yma mae modd cryfhau'r gwaith wnawn er mwyn cyrraedd y deilliannau a ddymunwn. Rhaid cofio, gyda siaradwyr newydd, bod eu dylanwadau a'u tueddiadau cyn dysgu Cymraeg angen eu dadansoddi a'u hystyried i greu'r negeseuon cryfaf posib iddynt fynd at i ddefnyddio'r iaith. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried ymchwil ar *Mudes y Gatalaneg* ac o bosibl papur Joan Pujolar & Isaac González (2013) *Linguistic 'mudes' and the de-ethnicization of language choice in Catalonia*, *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16:2, 138-152, lle mae yna newid yn digwydd wrth i ni symud drwy adegau penodol mewn bywyd gan gynllunio'r cyfathrebu yma i dargedu'r amseroedd hyn, ond hefyd yn barhaus i adlewyrchu cynlluniau hyrwyddo addysg Gymraeg.

6. Cefnogwn y pwynt hwn. Gwelwn yr angen i ddysgu o ymgyrchoedd sydd wedi llwyddo i newid ymddygiad mewn meysydd eraill, megis llai o ddefnydd o fapiau plastig a "5 y dydd" (bwyta'n iach). Cefnogwn bod mwy o ymchwil yn cael ei wneud i bethau sydd wedi gweithio a pam hynny, a bydd angen sicrhau fod pob endid o fewn y maes yn rhan o'r ymchwilio negeseuon i gael undod yn y negeseuon wrth i ni wedyn fynd ati i'w gweithredu. Cyfeiriwn yn ôl at pwynt 1 a bod angen dysgu o wledydd eraill yn ogystal ac o feysydd eraill. Byddai'n dda medru ymchwilio i beth yw'r cymhelliant y rhai sydd yn trosglwyddo, rhaid dangos bod y person sy'n gwneud y newid yn cael budd allan o wneud y newid, ac ar yr ochr arall bod colled drwy beidio gwneud rhywbeth. Bydd darparu hyfforddiant i weithwyr yn y maes iaith i ddysgu am negeseuon a theorïau newydd yn holl bwysig.

7. Eto, mae angen sicrhau bod ysgolion yn dangos bod yr iaith yn bodoli tu hwnt i'r ysgol, bod yna gyd-destun cymunedol a bywyd bob dydd i'r iaith. Mae angen cryfhau'r Siarter Iaith drwy roi'r gefnogaeth addas iddo lwyddo ymhob ysgol. Ar hyn o bryd mae gwahaniaethau mawr o ysgol i ysgol. Dylid hefyd weld cyswllt amlycach rhwng y Siarter Iaith a Cymraeg Campus yn ogystal gyda llwybr amlwg i gynlluniau tebyg yn yr uwchradd a'r colegau addysg bellach gan gydweithio gyda phartneriaid i gynnig yr ystod llawn. Pwysleisiwn bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth yr iaith i holl staff addysg i gyd, yn ogystal â'u hyfforddi a'u harfogi gyda'r adnoddau a chefnogaeth endidau allanol, fel y Mentrau, i wneud i'r siarter weithio i'w lawn botensial. Nid dim ond ymarferwyr addysg sydd angen eu hyfforddi, addysgu a'u harfogi ond hefyd y rhai sydd yn ymwneud ag addysg yn gyffredinol, megis awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru ac asiantaethau eraill sydd yn cefnogi ysgolion. Mae'n bwysig fod ysgolion yn cysylltu iaith a diwylliant a hefyd iaith ac economi mewn negeseuon. Eto yma, mae'r cyfle i edrych ar brosiectau hanesyddol, nid ond rhai cyfredol, a phwysleisiwn fod angen amser i brosiectau wreiddio, ac angen cydweithio, i brosiectau lwyddo.

8. Cytunwn eto, ond fel soniwyd ym mhwt 7 rhaid cyplysu hyn gyda negeseuon i weithlu'r dyfodol, tra'n ddisgyblion ysgol, a chychwyn yn ifanc. Mae hyn yn hanfodol. Yn bendant mae dylanwad y gweithle yn gallu gorlifo i mewn, ond mae dylanwad gan feysydd eraill hefyd sydd cyn-bwysiced e.e. cymuned/ creu amgylchedd gadarnhaol i ddefnyddio a throsglwyddo.

9. Yng ngoleuni cyfnod Covid-19 mae hyn yn hanfodol. Mae angen yma ystyried y newid sydd wedi bod mewn sefyllfa cartref a'r ffordd mae teuluoedd yn gweithredu. Dylid canolbwyntio blaenoriaethau ar yr agwedd ddigidol gan sicrhau bod ymgyrchoedd yn ymddangos yn draws-gyfyngol e.e. podlediadau, gwefan, apiau ayyb

10. Mae'n bwysig cynnwys rhieni yn y gwaith rhwydweithio hyn. Maent yn ddylanwadol iawn ac yn gwthio'r materion yn lleol a thu hwnt. Bydd yn bwysig iawn gwahaniaethu yn ôl yr ardaloedd, gan edrych ar rieni sy'n gallu siarad Cymraeg ond ddim yn siŵr sut i drosglwyddo'r iaith. Mae prosiectau megis 'Cymraeg yn y cartref' wedi bod yn cael eu cynnal lle rhoddir gymorth ieithyddol uniongyrchol i rieni ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd. Mae'r grwpiau cymhreiriaid hyn megis y dosbarth colli pwysau lleol neu NCT er yn rhan o frand byd eang, yn cynnig agwedd o gefnogaeth lleol. Mae angen efelychu'r rhain. O'r pwynt yma wedyn mae modd camu ymlaen i weithgareddau eraill cyfrwng Cymraeg megis cynllun Hyder. Mae angen canfod ffordd o harnessu'r dylanwadwyr anffurfiol sydd yn rhieni, boed wrth giât yr ysgol neu ar dudalen Facebook a hynny'n gadarnhaol ac anogol.

11. Mae datblygiad maes Cymraeg i oedolion wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i allu rhieni i gaffael yr iaith. Ond mae angen edrych ar y cam nesaf o gymathu'r iaith o'r dosbarth i'r bwrdd bwyd. Roedd cynllun Cymraeg o'r Crud yn gwrs ardderchog oedd eto yn dysgu iaith i ymarferwyr ond mae angen datblygu hyn ymhellach a chynnwys yr elfennau siarad babi a throsglwyddo'r elfennau greddf. Mae Clwb Cwtsh yn enghraifft arall dda ac erbyn hyn wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r digidol hefyd. Felly gan gyfeirio'n ôl at bwntiau blaenorol o adolygu prosiectau, pwysig yw edrych lle mae'r bylchau yn darpariaethau presennol.

12. Cytunwn bod defnyddio gwybodaeth a data i dargedu yn bwysig iawn. Erbyn hyn y mae yna ymwybyddiaeth gynyddol o dechnolegau modern megis hysbysebu wedi'i dargedu a phostiau wedi eu hyrwyddo (promoted posts). A fyddai cyfle i wneud hyn efallai yn ystod ymgyrchoedd y dyfodol? Efallai y dylid adolygu'r nod amcan polisi hwn gan ei newid i gynnig pob oedran. Mae'r Mentrau Iaith wedi datblygu sesiynau gemau fideo gyda phobl ifanc o bob oed ac yn cynnal clybiau gemau fideo i gynyddu defnydd o'r iaith a chyfathrebu drwyddi. Mae modd hefyd datblygu economi leol drwy gydweithio gyda chwmnïau technoleg lleol e.e. bu Menter Caerffili 'n cydweithio gyda datblygwr gêm gyfrifiadurol gan greu gêm newydd yn y Gymraeg. Mae gwerth mawr hefyd yn y gemau 'di-iaith' fel Minecraft. Eto efallai y byddai'n syniad tynnu'r ddelwedd gorfforaethol o'r deunyddiau hyn fel Logo Llywodraeth Cymru gan ei fod yn rhy ffurfiol. Os oes cyfle i greu logo ym mrandio Cymraeg 2050 sydd ddim yn or-gorfforaethol ac yn atyniadol i bob oedran, byddai hynny'n

well. Unwaith eto, ni allwn bwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd prosiectau digidol ddigon ac efallai dylid ystyried pwysigrwydd llysgenhadon i hyrwyddo yn y cyswllt hyn.

13. Cytunwn ei bod yn bwysig i ddysgu gwersi, gan edrych yn ôl ar brosiectau megis Twf a'r pethau oedd yn gweithio a'n cydweddu gyda'r polisi hwn. Nodwn hefyd bod yna lyfrau diddorol a defnyddiol wedi eu cyhoeddi dro yn ôl megis Llyfr Ti a Fi, Ann Brook a fyddai efallai 'n addas i'w haddasu a'u hatgynhyrchu.

14. Cytuno

15. Mae'n bwysig cofio dylanwad ieithoedd eraill, a hefyd dylanwadau ieithoedd y gymuned. Gwelir yn amlwg yn yr atodiad yr enghreifftiau gwahanol o'r holiadur. Gwerthfawrogwn ehangder cyfansoddiad ieithyddol aelwydydd. Gellid defnyddio'r enghreifftiau yma i wirio a mesur anghenion pob un o'r pwyntiau polisi gan holi sut fydd y polisi hwn yn helpu'r teulu hwn? Mae hefyd yn bwysig iawn hefyd ystyried plant sy'n cael eu maethu neu eu mabwysiadu. Pan fydd y polisi hwn yn cael ei weithredu hyderwn y bydd hyn wedi ei gynnwys yma.

16. Mae hyn yn hanfodol bwysig ac fe groesawn yr agwedd hon â breichiau agored. Mae'n hanfodol ein bod yn cymryd i ystyriaeth erthygl 30 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sydd yn rhoi'r hawl i blant yr hawl i ddefnyddio ei iaith ei hun. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ystyried sut brofiad yw e i ddysgu iaith sydd ddim yn iaith yn y cartref i'r plentyn a pha adnoddau a chymorth ychwanegol sydd ei angen ar y plentyn wrth i'r broses hon fynd rhagddi. Mae'r erthygl hon sy'n edrych ar rhywbeth tebyg gyda'r Aeleg yn yr Alban yn codi pwyntiau diddorol o berspectif profiad y plentyn:

<https://bellacaledonia.org.uk/2020/07/07/a-child-eyes-view-of-language-revitalisation-hope-and-opportunity-for-the-future-of-gaelic-in-scotland/>

17. Cytunwn â hyn, ond i gadw mewn cof bod Cymru yn unigryw a'r sefyllfa ieithyddol yn amrywiol.

18. Cytunwn yn llwyr â hyn ac atgyfnerthwn yma'r pwynt am bwysigrwydd cydnabod a gweithredu o blaid amlieithrwydd, heb gyfyngu i'r Gymraeg a'r Saesneg. Gan fod ieithoedd eraill ar yr aelwyd yng nghartrefi plant Cymru, mae angen i ni hefyd ystyried lle mae'r Gymraeg yn eistedd mewn cyd-destun â ieithoedd eraill ein cymunedau ni yng Nghymru ac yn y byd.

19. Cytunwn gyda hyn

20. Cytunwn. Rhaid gweithio'n draws adrannol i allu creu'r amgylchiadau mwyaf ffafriol posibl.

21. Cytunwn â hyn ac rydym yn barod i gyfrannu fel arfer. Awgrymwn cynrychiolaeth o'r Mentrau Iaith, Cymraeg i Oedolion, grwpiau rhanddeiliaid a defnyddwyr perthnasol yn cynnwys rhieni, byrddau iechyd yn cynnwys bydragedd ac ymwelwyr iechyd. Mae

hwrwyddo addysg lleol wedi gwneud cyswllt pwysig gyda'r byrddau iechyd lleol ac felly dylid efelychu hyn gyda'r maes polisi hwn hefyd. Mae'r angen wneud cyswllt rhwng iechyd a iaith yn bwysicach nag erioed. Bydd yn bwysig yma hefyd fod monitro'r gwaith y bwrdd hwn yn bwysig hefyd.

22. Cytunwn bod rhannu arfer dda gyda chydweithwyr rhyngwladol yn bwysig fel bod Cymru'n parhau i gael ei chydabod fel gwlad flaengar yn y maes hwn. Y mae yna hefyd botensial anferthol i ddysgu wrth ein gilydd a rhannu arferion da o fewn meysydd ac oeddrannau gwahanol (e.e. chwarae a theganau ieithyddol)

## **Ymatebydd 42 / Respondent 42**

Mae'r Ymatebydd hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd gan Grŵp Addysg ac Is-grŵp Iechyd Cymdeithas y Iaith.

Tra rydym yn croesawu'r polisi cenedlaethol, hir-ddisgwyliedig hwn ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, mae gennym bryderon am fframwaith y polisi a'r camau gweithredu.

### **Fframwaith y polisi**

Credwn fod angen datblygu ac ehangu'r fframwaith polisi sy'n gyrru'r ddogfen, gan symud i ffwrdd o'r ffocws presennol ar ymddygiad unigolion er mwyn ystyried a mynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol a chymdeithasol sy'n bwysicach o ran trosglwyddiad iaith, ac sydd wir yn gyrru'r ymddygiad unigol hwnnw.

Credwn fod y polisi yn canolbwyntio'n ormodol ar ymddygiad unigolion o fewn teuluoedd, ac heblaw i ambell gyfeiriad, mae'n trin y teulu fel uned ar wahân i'r gymdeithas ehangach. Mae teuluoedd unigol yn byw o fewn rhwydweithiau teuluol a chymunedau ehangach, maent yn dod mewn i gyswllt dyddiol â gweithleoedd, gwasanaethau a gofodau cyhoeddus sy'n dylanwadu ar eu profiadau.

Mae'r polisi hefyd i weld wedi'i seilio ar wrthgyferbyniad ffals rhwng 'dewis' unigolion a 'gorfodi' pobl i siarad Cymraeg, fel amlygir sylwadau'r Gweinidog yn y rhagair '*mae'n amlwg i mi fod llwyddiant yn fwy tebygol drwy ddulliau gwirfoddol yn hytrach na gorfodol*' a'r datganiad '[f]e wnaethon ni nodi yn Cymraeg 2050 na fyddai llywodraeth am reoli ymddygiad pobl yn eu cartrefi, neu orfodi rhieni/gofalwyr i siarad Cymraeg gyda'u plant'

Mae hyn yn amlygu camddealltwriaeth o 'ddewis' a 'gorfodaeth' o fewn polisi cyhoeddus, ac yn creu'r argraff anghywir mai dyma'r unig opsiynau o ran polisi cyhoeddus.

Nid yw dewis unrhyw unigolyn yn digwydd mewn gwacter, a gwyddwn o ddegawdau o ymchwil a pholisi cyhoeddus, er bod gan bob un ohonom ryddid a grym i raddau gwahanol i wneud penderfyniadau, mae ffactorau strwythurol yn gyrru'r penderfyniadau hynny. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys ffactorau cymdeithasol, economaidd a rhyngbersonol.

Yn achos trosglwyddo, rhoddi neu ddefnyddio iaith o fewn teuluoedd, y ffactorau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar benderfyniadau teuluoedd ydy pethau fel incwm; cost ac argaeledd gofal plant; lleoliad a chyfrwng ysgolion a meithrinfeydd yn eu hardal; straen bywyd bob dydd; rhwydwaith gefnogaeth teuluol a chymunedol; iaith feunyddiol y gymuned bh leol; iaith eu gweithleoedd a statws iaith o fewn cymdeithas a bywyd cyhoeddus.

Er enghraifft, bydd teulu yn llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant os ydyn nhw'n gorfod gadael cymuned lle mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg oherwydd nad ydynt yn gallu fforddio costau tai yn yr ardal hynny. Bydd teulu arall yn llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg os nad oes ysgol gynradd Gymraeg leol yn eu cymuned.

Siomedig ydy'r diffyg sylw a roddir yn y ddogfen i'r ffactorau strwythurol hyn sy'n gyrru trosglwyddiad a defnydd iaith heblaw ambell i gyfeiriad amhenodol. Wrth gwrs, ni all un ddogfen ddarparu ymatebion cynhwysfawr i'r holl faterion hyn, ond anghyflawn yn ein barn ni ydy'r polisi heb iddo gynnwys strategaeth i ymateb i rai o'r ffactorau strwythurol hyn trwy weithio ar draws meysydd polisi ac adrannau'r Llywodraeth.

Credwn felly bod angen ymrwymiad cadarn yn y polisi i ddatblygu strategaeth drawslywodraethol ar drosglwyddiad a defnydd y Gymraeg o fewn teuluoedd. Rydym wedi cynnig polisiau a chamau gweithredu gall fod yn rhan o'r fath strategaeth i fynd i'r afael â'r materion strwythurol rydym wedi amlinellu yn ein dogfen weledigaeth *Mwy na Miliwn – Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb.*

## **Camau gweithredu**

Ar y cyfan, mae'r camau gweithredu a amlinellir yn y ddogfen yn ymddangos yn amwys a gwan. Rydym yn gryf o'r farn y dylid gwella'r cynlluniau er mwyn dangos sut y gellid defnyddio'r ystadegau a'r dystiolaeth ymchwil i ddatblygu rhaglen waith benodol a chynhwysfawr gyda strategaeth draws-adrannol o fewn y Llywodraeth; amserlenni pendant; pwyntiau gweithredu manwl; cyllideb a meincnodau / targedau cyrhaeddiad y gellir eu monitro'n effeithiol.

Mae diffyg sylw hefyd i wahanol fathau o deuluoedd a chamau gweithredu i ddatblygu dealltwriaeth o'u profiadau a'u cefnogi. Er gwaetha'r gydnabyddiaeth bod gwahanol fathau o deuluoedd yn bodoli, nid oes camau gweithredu pendant i gefnogi teuluoedd rhiant sengl, teuluoedd croenliw, teuluoedd ar incwm isel na theuluoedd sydd ddim yn siarad y Gymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. Byddai strategaeth llwyddiannus yn cynnwys gwaith penodol i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu'r teuluoedd hyn a rhoi mesurau yn eu lle i'w galluogi i ddysgu, defnyddio, rhoddi a throsglwyddo'r Gymraeg.

Man gwan amlwg yn y polisi ydy'r diffyg ystyriaeth o deuluoedd lle nad oes rhiant neu ofalwr yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd, a'r gwrthgyferbyniad ffug rhwng 'trosglwyddo' a 'rhoddi' iaith. Nid ydym yn cytuno gyda diystyrru'r teuluoedd hyn fel pwynt lle gellir rhoddi a/neu drosglwyddo iaith i genhedlaeth newydd a'i defnyddio bob dydd. Yn wir, gyda'r nod cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hanfodol bod y

polisi yn cynnwys y teuluoedd hyn, a datblygu camau gweithredu er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr i ddysgu Cymraeg gyda'u plant.

<p><b>1b. A oes camau gweithredu ar goll o'r polisi drafft?</b> <b>1b. Are there any actions missing from the draft policy?</b></p>
---

**Ymatebydd 2 / Respondent 2**

Yn ogystal a ymarferwyr addysg mae gweithwyr cymunedol megis arweinyddion clybiau ieuenctid angen cefnogaeth, y sgiliau a'r adnoddau dysgu i'w helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'r plant ac hefyd i annog y plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'i gilydd. Mae hyn yn ran annatod o'r broses o 'normaleiddio'r defnydd' o'r Gymraeg tu allan i furiau byd addysg.

Fel ymarferwyr yn y maes cynllunio iaith, rydym yn reolaidd yn dod ar draws neiniau a theidiau (sydd yn warchodwyr) sydd yn rhugl yn y Gymraeg ond am ba bynnag resymau yn dewis peidio siarad y Gymraeg gyda'i wyrion a'u wyresau felly awgrymwn fod cam gweithredu yn cael ei ychwanegu sydd yn rhoi sylw at rôl holl bwysig y teulu estynedig megis neiniau a theidiau (yn enwedig oherwydd eu gwaith yn magu eu hwyrion pan fo rhieni'n gweithio).

Nodwn hefyd bwysigrwydd ystyried y gweithlu blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ymarferwyr mewn lleoliadau gofal a chwarae a gofalwyr plant, a'u rôl mewn cefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg ac adeiladu ar ei ddefnydd yn y cartref.

Cydnabyddir yn y ddogfen ymgynghorol rôl holl bwysig y sector iechyd (yn benodol Bydwagedd ag Ymwelwyr Iechyd) wrth rannu gwybodaeth gyda rhieni am fuddion dwyieithrwydd a phwysigrwydd trosglwyddo'r iaith yn gynnar. Awgrymwn eu bod hwythau hefyd fel yr ymarferwyr addysg yng ngham gweithredu 7 yn derbyn adnoddau dysgu i'w cynorthwyo i rannu'r negeseuon hyn.

Mae Mudiad Meithrin yn awyddus i fod yn bartner allweddol wrth weithredu'r polisi hwn oherwydd traweffaith a chyrhaeddiad ein gwaith.

**Ymatebydd 3 / Respondent 3**

Ymddengys bod y camau gweithredol yn gynhwysfawr. Mae agwedd hyblyg tuag at arbrofi a newid dulliau yn amlwg drwy'r ddogfen. Oherwydd hynny, dylai fod yn bosib i fireinio neu ychwanegu camau gweithredu yn ôl y galw mewn modd buddiol ac amserol.

The actions appear to be comprehensive. A flexible attitude towards experimentation and changing methods is evident throughout the document. As a result, it should be possible to refine or add actions where necessary in a beneficial and timely manner.

### **Ymatebydd 5 / Respondent 5**

Choice

### **Ymatebydd 6 / Respondent 6**

Increase welsh speaking childminders, in my community there are Welsh creches but only English speaking childminders. As a school governor and parent I've witnessed first hand 3-4 year olds with 100% Welsh at home, come to reception and nursery with overwhelming preference to English because of the established language use habits. They then create language habits with peer in English, this is extremely hard to change once established no matter how much Welsh is used/taught in the school.

### **Ymatebydd 7 / Respondent 7**

Work with midwives, health visitors, and the deliverers of parent and baby/toddler/child groups to use Welsh more. I was fortunate enough to be asked by my partner to be involved in every midwife appointment or visit from the health visitor, and I have had the flexibility from work to attend those and be able to go to many playgroups with my son. The use of Welsh throughout has been virtually non-existent. Despite my partner being a Welsh speaker, there was no option to use Welsh (in full or in part) by statutory services - the question was simply not asked! Likewise, we were not given any information of Welsh language support such as the various schemes mentioned in this consultation.

We were eventually given a Welsh book, via Bookstart, and our local library does have some Welsh in its song and rhyme sessions and one other group. However, overall the provision to new families is limited and should definitely be a focus of any ambitions to increase Welsh language use and transmission.

### **Ymatebydd 8 / Respondent 8**

Ensure all signs in Welsh be bi lingual/

### **Ymatebydd 9 / Respondent 9**

Yes. All actions relating to the complete and total reversal of your ridiculous strategy to increase the numbers of Welsh learners. You are wasting taxpayers' money for naught.

### **Ymatebydd 10 / Respondent 10**

I feel more marketing is required and more social events/ activities to engage and celebrate the welsh language.



## **Ymatebydd 11 / Respondent 11**

- Tybiwn bod angen cam ychwanegol sy'n ymwneud gyda throsglwyddo negeseuon i'r cyhoedd.

1. Ydy rhieni'n deall gymaint yn haws byddai'r Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng i'w plant os oedden nhw'n cael y Gymraeg gartref hefyd? Yn amlwg mae 'na gydbwysedd i fwrw rhwng peidio gwneud i bobl sydd methu siarad Cymraeg gartref i feddwl na fydd eu plant nhw'n dod yn gwbl ddwyieithog heb Gymraeg gartref, ond mae angen rywffordd trosglwyddo'r wybodaeth sy'n unigryw i iaith leiafrifol, sef po fwyaf o beuoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio gan rywun, y cadarnaf bydd eu sgiliau Cymraeg. Efallai mae'r neges sydd angen trosglwyddo yn syml yw 'defnyddiwch pa bynnag faint o Gymraeg sydd gyda chi yn y cartref achos bydd hyn yn atgyfnerthu eu sgiliau...'

2. Ydy rhieni'n deall fod angen dyfalbarhau gyda chyfrwng cyfathrebu - ei fod yn sgil sydd angen cael ei gryfhau a'i atgyfnerthu drwy ei ddefnyddio am byth? Mae nifer yn meddwl eu bod yn gwneud digon yn siarad Cymraeg gyda'r plant tra'u bod yn fach ac yna wrth iddyn nhw ddod i'w harddegau a cholli diddordeb yn y Gymraeg, ei fod yn iawn i ddechrau siarad Saesneg gartref bryd hynny. Y neges yn syml fyddai 'fod angen dyfalbarhau - fe fydd y person ifanc yn diolch i chi pan fyddan nhw'n unigolyn dwyieithog, hyderus yn y dyfodol'.

3. Bod y Gymraeg yn ran o dy hunaniaith a nad oes angen ei hepgor wrth gwrdd gyda rhywun sydd ddim yn siarad Cymraeg?

## **Ymatebydd 12 / Respondent 12**

Nid oes camau gweithredu amlwg ar goll.

## **Ymatebydd 13 / Respondent 13**

Fel yr awgrymwyd uchod yn ein hymateb i gwestiwn 1b), lledaenu neges gadarnhaol ac argyhoeddiadol yw hanfod a blaenoriaeth y gwaith hwn. Mae'r polisi drafft yn cydnabod y bydd yr anghenion, y negeseuon a'r gofynion yn amrywio o ardal i ardal. Er ein bod yn deall bod y gwaith yn gymhleth a bod angen cyfyngu cwmpas y polisi, eto, pwysleisiwn fod rhaid i'r negeseuon creiddiol gydbblethu'n agos â fframwaith ehangach Cymraeg 2050. Yn syml iawn, rhaid ystyried ffactorau sy'n debygol o wneud y Gymraeg yn atyniadol, boed hynny'n gyfleoedd gwaith neu hyrwyddo gweithgareddau hamdden neu chwarae difyr ac apelgar.

Gan fod hwn yn waith cymhleth a hirdymor, mae'n rhaid cael rheolaeth gadarn a rhaglen gynhwysol. Nodwn y bwriad o sefydlu Bwrdd Rhaglen i reoli'r gwaith, a byddwn yn dadlau mai sefydlu Bwrdd gyda chynrychiolaeth addas o arbenigedd a phrofiad fyddo'r cam cyntaf. Tybiwn fod y ddogfen drafft yn cynnig trosolwg gwerthfawr o'r anghenion a'r meysydd gwaith, a thasg gyntaf y Bwrdd Rhaglen fyddai gosod cyfeiriad strategol, amserlen a chynlluniau penodol er mwyn eu gwireddu.

Nodwn fod y ddogfen ddrafft yn cydnabod pwysigrwydd annog brwdfrydedd plant tuag at y Gymraeg, a'r angen i ddatblygu gemau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar dechnoleg. Yn ystod y blynyddoedd cynnar, byddai rhaglenni o'r math yn gyfrwng rhwydd i annog rhieni neu ofalwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae'n bwysig, felly, caniatáu amserlen ddigonol i ddatblygu'r rhaglenni hyn fel eu bod ar gael cyn gynted â phosib.

Credwn fod cyfnod o 10 mlynedd yn addas er mwyn sicrhau ymatebydd strategol i'r gofynion. Ond, yn amlwg, bydd angen pennu cerrig milltir ar gyfer y cyfnod hwn yn ogystal â monitro, asesu ac adolygu rheolaidd

#### **Ymatebydd 14 / Respondent 14**

- Tybed a oes lle digon canolog i Lais y plentyn o fewn y camau gweithredu?
- A yw'r angen i ystyried sampl sydd yn eang ac amrywiol ei wead yn ddigon clir os am gael data cyfoethog i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd?

#### **Ymatebydd 15 / Respondent 15**

Early Years Wales would like to reinforce the importance of the role played by the early years sector in the successful implementation of the policy by developing Welsh language skills with children from birth and supporting parents through various strategies providing support to them to use the language at home.

Studies have shown it can be difficult to switch to using a new language with a person you have already spoken to i.e. if person A spoke to person B in English and they always communicated in English then it would be difficult to break the rules of their communication and speak Welsh to each other so therefore, it is vital that support is given or offered at the earliest opportunity, for example, to expectant parents promoting the language and the benefits of them learning Welsh so they will be able to use the language with their child from birth.

#### **Ymatebydd 16 / Respondent 16**

Yn ogystal a ymarferwyr addysg mae gweithwyr cymunedol megis arweinyddion clybiau ieuenctid angen cefnogaeth, y sgiliau a'r adnoddau dysgu i'w helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'r plant ac hefyd i annog y plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'i gilydd. Mae hyn yn ran annatod o'r broses o 'normaleiddio'r defnydd' o'r Gymraeg tu allan i furiau byd addysg.

Fel ymarferwyr yn y maes cynllunio iaith, rydym yn reolaidd yn dod ar draws neiniau a theidiau (sydd yn warchodwyr) sydd yn rhugl yn y Gymraeg ond am ba bynnag resymau yn dewis peidio siarad y Gymraeg gyda'i wyrion a'u wyresau felly awgrymwn fod cam gweithredu yn cael ei ychwanegu sydd yn rhoi sylw at rôl holl bwysig y teulu estynedig megis neiniau a theidiau (yn enwedig oherwydd eu gwaith yn magu eu hwyron pan fo rhieni'n gweithio).

Nodwn hefyd bwysigrwydd ystyried y gweithlu blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ymarferwyr mewn lleoliadau gofal a chwarae a gofalwyr plant, a'u rôl mewn cefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg ac adeiladu ar ei ddefnydd yn y cartref. Mae cynlluniau sydd yn derbyn nawdd cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru fel CAMAU yn cynnig cyfle pellach i wneud hyn. Tybiwn bod llawer o gyfleoedd eraill cyffelyb a fyddai yn gallu cael eu cynnwys fel cyfleoedd i gyfathrebu negeseuon cadarnhaol i bobl ifanc ag oedolion ynglŷn a throsglwyddo yr iaith Gymraeg. Mae yna gyfle amlwg arall i drafod iaith y cartref gyda myfyrwyr ymarfer dysgu, maes sydd yn denu niferoedd o siaradwyr Cymraeg o gartrefi di-Gymraeg. Ceir enghreifftiau niferus bellach o bobl yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond yn magu eu plant yn Saesneg.

Cydnabyddir yn y ddogfen ymgynghorol rôl holl bwysig y sector iechyd (yn benodol Bydwagedd ag Ymwelwyr Iechyd) wrth rannu gwybodaeth gyda rhieni am fuddion dwyieithrwydd a phwysigrwydd trosglwyddo'r iaith yn gynnar. Awgrymwn eu bod hwythau hefyd fel yr ymarferwyr addysg yng ngham gweithredu 7 yn derbyn adnoddau dysgu i'w cynorthwyo i rannu'r negeseuon hyn.

Nid oes sylw digonol wedi ei roi yn y ddogfen hon i dargedu a defnyddio lleisiau plant a phobl ifanc yn uniongyrchol. Rhaid ymrymuso pobl ifanc a phlant i deimlo balchder a dealltwriaeth o'r treftadaeth ieithyddol. Gresynwn weld cyn lleied o sylw i gynnwys darpariaeth addysgol teilwng am Cymru a'r Gymraeg. Deallwn mae o fewn polisïau a chwricwlwm addysg dylai hyn fod, ond annigonol yw'r canllawiau hyn o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae bodolaeth a datblygiad addysg sydd yn sicrhau fod plant Cymru yn deall eu hanes a'u hiaith yn hanfodol wrth ystyried creu'r awydd mewn plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'w throsglwyddo.

Mae Mudiad Meithrin yn awyddus i fod yn bartner allweddol wrth weithredu'r polisi hwn oherwydd traweffaith a chyrhaeddiad ein gwaith.

## **Ymatebydd 17 / Respondent 17**

Dylai'r polisi drafft wneud cysylltiadau cliriach â pholisïau presennol a allai gefnogi'r nod cyffredinol.

Er enghraifft, mae gweithred 7 yn sôn am staff addysgu heb unrhyw gysylltiadau cymalog â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs), neu ymrwymadau o fewn cynllun gweithlu 10 mlynedd Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Byddai gwneud cysylltiadau cliriach â'r cynlluniau uchod yn alinio nodau'r polisi hwn â dewisiadau Cymraeg mewn darpariaeth gofal plant ac addysg. Byddai hyn yn cefnogi gallu iaith y gweithlu, yn cefnogi rhieni sy'n dysgu mewn gwaith a phlant yn y feithrinfa ac ati. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at brosiect Camau sy'n cefnogi gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n dysgu Cymraeg, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y camau gweithredu arfaethedig.

Gellid cryfhau gweithredoedd 2, 3 a 4 trwy egluro sut y gallai rhaglenni presennol fel Dechrau'n Deg a 1,000 Diwrnod Cyntaf gefnogi gwaith mewn perthynas â gofal

cynnedigol. Mae'r polisi drafft yn colli'r cyfle i ddefnyddio a chysylltu â gwasanaethau iechyd. Nid oes unrhyw beth chwaith am drochi iaith nac ystyriaethau cyn genedigaeth. Ar gyfer egwyddor iv, mae angen mwy o ffocws ar waith rhwng cenedlaethau yn y teulu a thu allan yn y gymuned ehangach, er enghraifft; cysylltiadau â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

The draft policy should make clearer links to existing policies which could support the overall aim.

For example, action 7 talks about teaching staff with no articulated links to Welsh in Education Strategic Plans (WESPs), or commitments within Welsh Government's Childcare, Play and Early Years 10-year workforce plan.

Making clearer links to the above plans would align aims in this policy to Welsh language choices in childcare provision and education. This would support workforce language ability, support parents learning in work and children in nursery etc.

The document refers to the Camau project which supports early years and childcare workers learning Welsh, but this isn't reflected in the proposed actions.

Actions 2, 3 and 4 could be strengthened by explaining how existing programmes such as Flying Start and First 1000 days could support work in relation to antenatal care. The draft policy misses the opportunity to utilise and link in with health services. There is also nothing about language immersion or pre-birth considerations.

For principle iv, more focus is needed on intergenerational work in the family and outside in the wider community, for example; links with health and social care settings.

### **Ymatebydd 18 / Respondent 18**

Is there an opportunity to include specific actions that relate to encouraging Welsh speaking grandparents,/extended family members to use Welsh with their grandchildren, particularly if they did not use Welsh with their own children?

There is some evidence that one or more grandparents often had Welsh speaking background that was subsequently lost in their children's generation. The grandparent's Welsh speaking ability could be utilized to encourage their grandchildren to speak Welsh in the home/family gatherings. Also the wider network of uncles and aunts etc.

The role of Adult Welsh language classes is a stated aim. We welcome this holistic whole family approach and feel that further consideration should be given to how this could be utilized as it encourages new and returning adult Welsh language speakers to learn with their families. This in turn could link with professional learning opportunities provided to the workforce within the education sector; which would also contribute to this holistic approach.

### **Ymatebydd 19 / Respondent 19**

Maybe.

However, from my humble point of view, the strength of the document (of the proposed FLP) does not lie in whether this or that action will be the perfect one, but the method proposed. If there are any action that miss, it will be the opportunity to propose it later.

## Ymatebydd 20 / Respondent 20

Credir mai lleihau a mireinio'r camau sydd eu hangen yn hytrach nag ychwanegu. Nodwyd eisoes bod angen blaenoriaethu gwaith ymchwil sydd yn defnyddio sampl fwy eang ac amrywiol na'r hyn a ddefnyddiwyd hyd yma – neu darnau o waith ymchwil sydd yn edrych yn fanylach ar garfannau penodol, e.e. teuluoedd lle mae dau riant yn siarad Cymraeg ond yn dewis peidio trosglwyddo, er mwyn cael data fwy cyfoethog ac o ansawdd.

Dylid ystyried sut y mae ymgysylltu a phartneriaid allweddol yn cael eu cynnwys fel rhan o unrhyw ddadansoddiad am ddulliau cyfathrebu. Nid yw rôl partneriaid allweddol (*ac yn benodol felly y partneriaid hynny sydd yn cael eu hariannu gan Grant Hybu a Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg*) yn cael ei nodi yn glir. Dylai unrhyw ddogfen bolisi gan y Llywodraeth nodi yn glir sut y maent yn disgwyl i'r partneriaid hyn gydweithio a chyfrannu at y weledigaeth gyffredinol. Heb hynny, mae cael cytundeb a chydabyddiaeth o'r angen i gydweithio a chyd-gynllunio ar lefel leol yn gallu bod yn anodd.

## Ymatebydd 21 / Respondent 21

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs believes that there should be more focus within the draft policy for older children, particularly those aged 8 – 14 years old. There needs to be much more focus on technology and social media to engage with this age range to become confident Welsh speakers.

## Ymatebydd 22 / Respondent 22

Fel y nodwyd uchod, gwelwn gyfleoedd i gydweithio ar draws gwahanol gyrff a sectorau (o ymchwilwyr academaidd i ymarferwyr mewn gwahanol sectorau) yn y polisi drafft a chyda hynny mewn cof, dyma awgrymu rhai meysydd pellach y gellid eu hystyried:

- Pwyslais ar fuddsoddi mewn adnoddau digidol preifat/gan fentrau amgen e.e. gemau/adnoddau i rieni a phlant sydd ar gael am ddim ar ffonau a dyfeisiau.
- Defnyddio lleoliadau amgen e.e. amgueddfeydd a lleoliadau nad ydynt yn rhai addysg traddodiadol ond sydd â sgiliau a chapasiti addysgol
- Sonrir yng Ngham Gweithredu 16 am gynllunio o safbwynt y plentyn. At hynny, nodwn yr angen i roi hawliau'r plentyn wrth wraidd y gwaith, boed y rheini'n hawliau at ddiwylliant ac yn y blaen <[https://www.unicef.org.uk/child-rights-partners/wp-content/uploads/sites/3/2016/08/CRC\\_summary\\_leaflet\\_Child\\_Rights\\_Partners\\_web\\_final.pdf](https://www.unicef.org.uk/child-rights-partners/wp-content/uploads/sites/3/2016/08/CRC_summary_leaflet_Child_Rights_Partners_web_final.pdf)> neu yn hawliau ieithyddol a ddiogelir trwy'r Safonau Iaith Gymraeg.
- Yn ein profiad ni hefyd, gwelwn yr angen i wahaniaethu rhwng cynnyrch Cymraeg, cynnyrch Saesneg a chynnyrch dwyieithog fel categorïau ar wahân. Tueddir yn draddodiadol i greu cynnyrch Cymraeg a Saesneg, ond tybiwn fod angen ychwanegu categori cynnyrch dwyieithog penodol, a hyd yn oed o fewn y categori hwnnw, categorïau pellach e.e. cynnyrch dwyieithog sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg, cynnyrch penodol i rieni di-Gymraeg sydd â phlant mewn ysgolion Cymraeg, teuluoedd lle mae un riant yn siarad Cymraeg, grwpiau rhyng-genhedlaeth, ac yn y blaen. Gall y categorïau hyn fod yn

berthnasol nid yn unig ym maes cynnyrch wedi'i argraffu, ond hefyd meysydd technoleg a chyfryngau eraill.

- At y pwynt uchod gellid ychwanegu'r angen am wahaniaethu pellach ar sail daearyddiaeth a demograffeg a lleoleiddio cynnwys hefyd.

- Defnyddio fframweithiau a chynlluniau sydd eisoes yn eu lle e.e. trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Ymatebydd 25 / Respondent 25**

I don't want you to do this

### **Ymatebydd 26 / Respondent 26**

Don't know

### **Ymatebydd 27 / Respondent 27**

Awgrymwn fod y polisi yn rhoi ystyriaeth lawn i'r angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant ac adnoddau addas i'w gweithredu – nid yn unig o ran ymarferwyr addysg ond o ran y gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, rhieni, llywodraethwyr ysgolion a'r gymuned ehangach.

Awgrymwn y dylai'r polisi gynnwys camau gweithredu sy'n amlinellu sut caiff negeseuon am drosglwyddo iaith eu rhannu nid yn unig gyda rhieni/gofalwyr ond ar draws cymuned gyfan gan gynnwys defnydd o'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol. Mae rhannu'r neges yn eang yn caniatáu i bob aelod o gymdeithas atgyfnerthu'r neges am bwysigrwydd trosglwyddo iaith. Hynny yw, un neges genedlaethol gydag adnoddau gweledol, lle gellid rhannu'r un neges yn eang ymhob ardal ar draws Cymru.

Awgrymir fod angen cynnwys cam gweithredu sydd yn amlinellu gwaith gyda bydwagedd, ymwelwyr iechyd a'r Gwasanaethau Iechyd i dargedu teuluoedd cyn geni. Roedd prosiect TWF yn llwyddo i wneud hyn, mae angen ail ymweld a rhai o ddeilliannau y prosiect yma. Mae'n arferol i rieni drafod defnydd iaith, yn ystod cyfnod beichiogrwydd, ac felly mae angen targedu'n gynnar. At hyn, beth am dargedu gwasanaeth cofrestru babanod.

### **Ymatebydd 28 / Respondent 28**

Yes. My daughter is English and stayed in Wales after coming to University . Her husband is a Native Welsh speaker from North Wales. He spoke English to his mum but Welsh to his dad and critically went to a Welsh language school. When they had their little girl (now four) and the father really wanted to send his daughter to a Welsh language school. Unfortunately the local school (in Caerleon) is English only and after much heart searching they opted to send her to the local school because they wanted her to live close to her friends which would not be possible if she had to travel to school.

Both of my daughters live in Caerleon and I have other grandchildren a boy aged four and

a girl six with English speaking parents.

At the local school there was a Clwb Cymraeg which the older girl went to and was making great progress (kept correcting my pronunciation) with the Welsh speaking teacher. Now she has moved up a class this option is not available any more. If optional Welsh lessons were available from infants level and then on it would help dramatically. The cousins and their friends could speak to each other as well as the Welsh speaking parents/uncle. The child with a Welsh speaking Dad could also speak to her Welsh speaking family in North Wales and most importantly when she is playing with her Welsh speaking cousins who are her she.

My wife and I have both moved to Caerleon and have both started to learn Welsh. Our first introduction was with a toddler group learning a few words and we were both inspired to learn Welsh and to become fluent. We have both being doing an hour a day on duo Lingo as travelling into Newport did not appeal and it is expensive and we are pretty tied up looking after the children (or were before covid)). We have been going about eighteen months and my wife is pretty fluent now. My memory is not what it was (I am 74) but I notice I am getting better . I think about another eighteen months should do it.

So the extra things I would suggest are

- 1) encourage the whole family not just the parents
- 2) help English speaking schools and nurseries with Welsh lessons for those who want them
- 3) offer catch-up for SC4 and put more Welsh subtitles on English language programmes broadcast in Wales
- 4) teach yourself Welsh on TV would be great (they did it for French and Italian)
- 5) more phone based learning - duo Lingo is great but could always be improved
- 6) the only beginners Welsh discussion groups from Duo Lingo are in Cardiff . One in Caerleon would be good.

### **Ymatebydd 29 / Respondent 29**

Representation by non- welsh speakers to counteract the dogma in the WELSH ASSEMBLY.

### **Ymatebydd 30 / Respondent 30**

Mae angen i bob ysgol a Cylch Meithrin fod yn dysgu / gwarchod plant trwy yr Iaith Gygaeg

### **Ymatebydd 31 / Respondent 31**

Yes

### **Ymatebydd 32 / Respondent 32**

Scrapping the lot and saving the taxpayer some money would be a good start.

### **Ymatebydd 33 / Respondent 33**

Not that I can see

### **Ymatebydd 34 / Respondent 34**

In point 9 I would give even more importance to organizing short courses oriented to learn useful Cymraeg in order to interact with children, as well as "empowering courses" to encourage shy/not-confident Cymraeg speaking parents (inspired in the TELP-liked courses from Catalunya ([https://eu.wikipedia.org/wiki/Gemma\\_Sangin%C3%A9s](https://eu.wikipedia.org/wiki/Gemma_Sangin%C3%A9s) --> activate Google Translate). I know this has been mentioned in points 3 and 4, but just in case.

Perhaps I did not read it that carefully, but I think research/assessment should be fundamental in this initiative. It looks crucial for me to analyze the evolution of language use data and language attitudes throughout the whole process, and if possible, after the plan is finished.

### **Ymatebydd 35 / Respondent 35**

I do not believe so.

### **Ymatebydd 36 / Respondent 36**

Focus groups with families across the country to identify what the barriers are to welsh transmission in families.

Clear guidance on how to ensure that the Welsh language being transmitted as an appropriate model and provided by a proficient and confident speaker, otherwise, there could be detrimental effect on language development as a whole (children who speak none of the languages proficiently).

### **Ymatebydd 37 / Respondent 37**

#### **Diffyg camau gweithredu ynglŷn â rôl bydwragedd ac ymwelwyr ieched yn annog teuluoedd i siarad Cymraeg a'u plant**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi fod y Llywodraeth eisoes yn gweithio gyda bydwragedd ac ymwelwyr ieched GIG Cymru er mwyn helpu pobl i ddeall yn well drosglwyddo'r Gymraeg yn gynnar ym mywyd eu plant. Mae rhaglen waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017-21 yn cynnwys yr ymrwymiad i 'weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwragedd, ymwelwyr ieched a phartneriaid eraill yn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt'.



Er hyn, nid yw'r camau gweithredu ar gyfer y polisi drafft yn cyfeirio at hyn. Er bod yr ymrwymiad i barhau i gydweithio a'r GIG eisoes yn rhaglen waith *Cymraeg 2050*, nid yw hyn yn golygu na ddylai gael ei gynnwys fel un o gamau gweithredu creiddiol y polisi dan sylw. At hyn, fe ddylid egluro sut gellir cyflawni rhai o'r camau gweithredu eraill yn fwy effeithiol drwy gydweithio gyda'r GIG a bydwagedd (yn enwedig y camau gweithredu sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth a chyfathrebu â rhieni). Nid yw'n glir ni pam fod y polisi hwn yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n eistedd ochr yn ochr â'r gwaith yn ymwneud â'r GIG a *Cymraeg i Blant*, yn hytrach na bod y polisi hwn yn eistedd uwchben y rhaglenni gwaith hyn.

Enghraifft ddiweddar sydd wedi dod i'n sylw drwy ymholiad gan aelod o'r cyhoedd yw'r sylw a roddir ar dudalennau Facebook Dechrau'n Deg i adnoddau digidol datblygu lleferydd 'Tiny Happy People' a ddatblygwyd gan y BBC. Yn anffodus mae mwyafrif helaeth yr adnoddau hyn ar gael yn Saesneg yn unig gan gynnwys adnoddau yn enghreifftio sut dylai rhieni gyfathrebu gyda'u plant er mwyn datblygu eu lleferydd a'u hiaith. Er ein bod yn deall nad cyfrifoldeb y Llywodraeth yw hyn (gan mai adnodd sydd wedi ei greu gan y BBC ar lefel y Deyrnas Unedig yw'r gyfres) ac nad oedd hyn yn fethiant mewn cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg roedd *Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, 2020-21* Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at yr adnodd fel un o gamau gweithredu allweddol y cynllun drafft<sup>1</sup>. Er mwyn gwireddu amcanion yr ymgynghoriad hwn ar drosglwyddo'r Gymraeg mae'n angenrheidiol bod cysondeb rhwng ymgyrchoedd a negeseuon y Llywodraeth ar gyfer teuluoedd a bod materion yn ymwneud a throsglwyddo'r Gymraeg yn cael eu normaleiddio fel rhan o arlwy arferol bydwagedd ac ymwelwyr iechyd. Yn yr achos hwn o ystyried bwriad y Llywodraeth ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd fe fyddai'n gam cadarnhaol pe bai'r Llywodraeth yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod adnoddau o'r fath ar gael y Gymraeg. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod mwy o'r adnoddau eu hunain ar gael yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, a hefyd bod adnoddau penodol ar gyfer defnyddio a throsglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd.

### **Diffyg camau gweithredu ynglŷn â chynnal a datblygu prosiectau Cymraeg i Blant, Camau, a gwaith y Mudiad Meithrin yn gyffredinol**

Mae adran yn y polisi drafft sy'n trafod yr hyn mae'r Llywodraeth wedi'i wneud yn barod. Yma ceir trafodaeth am brosiect blaenorol y Llywodraeth *Twf*, yn ogystal â phrosiectau cyfredol *Cymraeg i Blant* a *Camau*. Mae rhaglen waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017-21 yn cynnwys yr ymrwymiad i 'adolygu a mireinio rhaglen *Cymraeg i Blant* i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref'. Mae'r rhaglen waith hefyd yn nodi y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y rhaglen *Cymraeg i Blant* yn adlewyrchu nodau'r polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd.

Unwaith eto, nid yw'n glir pam nad yw'r ymrwymadau hyn yn cael eu cynnwys fel rhan greiddiol o gamau gweithredu'r polisi dan sylw. Er bod rhaglen *Cymraeg i Blant* yn canolbwyntio ar annog rhieni i ystyried addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, mae hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at gynyddu defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd. Byddem wedi disgwyl gweld ymrwymiad i gynnal a datblygu'r rhaglen prosiect hon fel cam gweithredu, yn

ogystal â thrafodaeth am sut mae'r rhaglen sylweddol hon yn plethu ac yn cyfrannu at gyflawni rhai o gamau gweithredu eraill y polisi dan sylw.

Fel mae'r ddogfen ymgynghori yn ei nodi, er nad yw'r prosiect *Camau'n* canolbwyntio ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd, mae'n cyfrannu'n sylweddol at amcanion y polisi drafft. Mae'r ystadegau am ddefnydd yr iaith Gymraeg yn pwysleisio fod dysgu'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf o fewn y gyfundrefn addysg yn allweddol er mwyn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl sydd am ddefnyddio'r iaith ac o bosibl ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mae cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu cynnig gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig yng nghyd-destun amcanion y polisi drafft hwn. Er hyn, ni cheir unrhyw gyfeirio at hyn yn y camau gweithredu.

Yn gysylltiedig â'r uchod, nid yw'r camau gweithredu yn cyfeirio yn benodol at waith cyffredinol y Mudiad Meithrin, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni fel *Ti a Fi a Clwb Cwtsh*. Mae nifer o brosiectau eisoes yn bodoli sy'n berthnasol i amcanion y polisi hwn, a byddai'n ddefnyddiol derbyn rhagor o wybodaeth ynglŷn a bwriad y Llywodraeth i ehangu a chynyddu cyllid ar gyfer y prosiectau hyn. Nid yn unig mae'r rhaglenni hyn yn cyfrannu yn uniongyrchol at amcanion y polisi drafft hwn, ond mae'n bosib eu bod yn gyfrwng ar gyfer cyfrannu at gyflawni amryw o'r camau gweithredu eraill sydd wedi eu cynnwys yn y polisi drafft. Er enghraifft, mae'r rhaglenni hyn yn ffordd effeithiol o rannu negeseuon a chyfathrebu â rhieni newydd, a hefyd eu hannog i ystyried defnyddio'r Gymraeg yn y cartref.

Mae ein hymateb i ddau gwestiwn cyntaf yr ymgynghoriad hwn yn amlygu bod diffyg croesgyfeirio digonol at wahanol bolisiâu, strategaethau a ffrydiau gwaith perthnasol y Llywodraeth. Credwn fod hyn tanseilio rhywfaint ar lwyddiant y polisi hwn i gydlynu'r ymyraethau amrywiol sy'n cyfrannu at drosglwyddo iaith yn y cartref, a hynny mewn un fframwaith cynhwysfawr, cydlynol ac unedig.

### **Yr angen i ystyried ymhellach gamau gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar gyfleoedd anffurfiol i annog a rhannu negeseuon ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y cartref**

Mae cam gweithredu 10 ynglŷn â chreu prosiectau i ddefnyddio rhwydweithiau rhieni/gofalwyr o amgylch ysgolion yn un diddorol, a byddem yn dymuno mwy o fanylder, neu fwy o gamau gweithredu o'r fath. Byddai'n ddiddorol ystyried mewn mwy o fanylder y gwahanol sefyllfaoedd lle mae rhieni a phlant yn dod at ei gilydd yn anffurfiol, er enghraifft mewn partion, mewn gwersi a digwyddiadau chwaraeon, ac mewn gweithgareddau amrywiol sy'n digwydd mewn cysylltiad â'r ysgol (eisteddfodau, tripiâu ysgol ac ati). Rydym yn derbyn nad yw'n hawdd creu polisiâu cenedlaethol i fynd i'r afael â materion fel hyn, ond mae digwyddiadau lle mae rhieni a phlant yn dod at ei gilydd â photensial arwyddocaol o ran rhannu negeseuon, cynnig cyfleoedd i fagu hyder, ac i newid arferion ieithyddol. Mae digwyddiadau fel hyn yn eistedd rhywle yn y canol rhwng cyfleoedd ffurfiol i ddefnyddio'r iaith (yn yr ysgol, yn y gwaith, mewn dosbarthiadau) a defnydd yr iaith yn y cartref. Ceir enghreifftiau o brosiectau o'r math hwn yng Ngwlad y Basg ar raddfa leol iawn, megis rhaglen Parketarrak2 sy'n cynnig gweithgareddau chwarae mewn Basgeg ym mharciau chwarae cyhoeddus Donosti (San Sebastián). Dylid ystyried yn ogystal y rôl y gallasai clybiau chwaraeon lleol eu cael ar iaith fel manau lle mae pobl yn ymgynnull ac yn cymdeithasu a lle mae modelau rôl dylanwadol. Mae'r Comisiynydd er enghraifft wedi

gweithio i annog y Gymraeg mewn clybiau chwaraeon drwy ymgyrch Amdani!<sup>3</sup> Ceir prosiect tebyg yn Donosti gyda chlybiau chwaraeon y dref. Gweler cynllun hyrwyddo'r Fasgeg yn San Sebastián 2015-194 am ragor o wybodaeth.

Yn gysylltiedig â hyn, efallai bod angen ystyried mewn mwy o fanylder rôl rhieni/gofalwyr sydd yn siarad Cymraeg yn y cartref er mwyn darbwyllo a chefnogi teuluoedd eraill. Mae cam gweithredu 5 a 10 yn crybwyll y bwriad i ystyried sut all y rheini/gofalwyr gefnogi ei gilydd, ond ni cheir manylder yn hyn o beth. Byddai'n ddefnyddiol egluro sut y gellir arfogi siaradwyr Cymraeg i gefnogi eraill, ac efallai bod angen ystyried camau gweithredu sy'n anelu at gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth siaradwyr Cymraeg ynglŷn â'u rôl yn y cyd-destun hwn. Eto yn hyn o beth gellid ystyried edrych ar weithdai hyrwyddo *Zerkatik ez?* (Pam lai?)<sup>5</sup> yn Donosti ar gyfer siaradwyr Basgeg, dysgwyr, grwpiau a chlybiau amrywiol. Enghraifft ddiddorol arall yno yw prosiect a wnaed yno yn ystyried dylanwad unigolion sy'n rhan o grwpiau ffrindiau estynedig (cuadrillas) ar iaith y grwpiau hynny.

### **Rôl sefydliadau ac arweinwyr cymdeithasol**

Mae'r pwynt blaenorol yn awgrymu'r angen i gynllunio yn fwy lleol ac mewn ffordd fwy anffurfiol, ac yn y cyd-destun hwn dylid ystyried rôl sefydliadau ac arweinwyr cymdeithasol gwahanol. Mae gan sefydliadau fel Mentrau Iaith a'r Urdd botensial amlwg o ran cyfrannu at gyflawni amcanion y polisi drafft hwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhyw fath o waith mapio i adnabod yr holl sefydliadau a grwpiau cymdeithasol all gyfrannu at amcanion y polisi, ynghyd â strategaeth ar gyfer cydlynu'r gwaith hwn o safbwynt annog teuluoedd i siarad Cymraeg.

### **Technoleg, y cyfryngau a modelau rôl enwog**

Mae'r polisi drafft yn pwysleisio pwysigrwydd technoleg i rannu negeseuon a dylanwadu ar deuluoedd. Mae cam gweithredu 12 yn nodi'n benodol y bwriad i ymchwilio i'r cyfleoedd i ddefnyddio technoleg er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n ddefnyddiol ystyried rôl y cyfryngau, a'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol, yn rhannu negeseuon. Unwaith eto, rydym yn derbyn nad yw'n fater syml defnyddio'r cyfryngau i ledaenu negeseuon penodol, ond mae'n amlwg fod gan y cyfryngau botensial hynod arwyddocaol yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, mae tystiolaeth anecdotaidd eithaf cryf yn bodoli o ran rôl ddylanwadol tîm pêl-droed Cymru, a'r sylw cysylltiedig yn y cyfryngau, ar ymdeimlad cenedlaethol ac o bosib agweddau tuag at yr iaith. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi ar dudalen 65 mai 'prin yw'r ymdriniaeth â bywyd a chymdeithas Cymru – gan gynnwys y diwylliant Cymraeg – ym mhapurau newydd y DU ac ar wasanaethau darlledu y DU, sef prif allbynnau'r cyfryngau yng Nghymru. Mae angen i'r ddelwedd o Gymru sy'n cael ei chyfleu yng nghyfryngau'r DU adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a chyfoeth ein gwlad yn well ac mae hyn yn camau gweithredu sy'n ymwneud â sut y mae'r Gymraeg yn cael ei phortreadu yng nghyfryngau Saesneg eu hiaith Cymru yn un cam arall tuag at sicrhau agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Gweler yn hyn o beth ein sylw ar Tiny Happy People uchod.

### **Camau gweithredu sy'n targedu rôl plant a phobl ifanc yn benodol**

Un o'r egwyddorion sy'n sail i'r polisi drafft yw'r ffaith fod plant yn unigolion sydd yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae plant yn fwy na derbynwyr goddefol iaith gan

rieni/gofalwyr, ac felly mae ganddynt y gallu i ddylanwadu ar arferion ieithyddol eu rhieni a'r teulu. Er bod cam gweithredu 7 yn ymwneud â chynyddu defnydd plant o'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'u teulu, nid oes camau gweithredu yn canolbwyntio yn benodol ar rôl plant a phobl ifanc fel asiantau cymdeithasol sydd â'r potensial i newid arferion ieithyddol eu teulu. Efallai y gellid ystyried datblygu rhaglen llysgenhadon lle byddai'r plant eu hunain yn cael eu harfogi i arwain ar gynyddu defnydd y Gymraeg yn y cartref. Mae'n bosib y gellid ystyried hyn yng nghyd-destun cam gweithredu cyntaf y polisi drafft, sef i dreialu rhaglen adduned defnydd iaith wedi'i haddasu o brosiect Euskalaradia yn Ngwlad y Basg.

### **Lack of actions regarding the role of midwives and health visitors in encouraging families to speak Welsh to their children**

The consultation document notes that the Government is already working with NHS Wales midwives and health visitors to help build a better understanding of early language transmission. The *Cymraeg 2050* work programme for 2017-21 includes the commitment to 'work with NHS Wales to ensure that midwives, health visitors and other partners share information about the benefits of language transmission as early as possible, and that new and prospective parents understand what support is available to them'.

However, the actions for the draft policy do not refer to this. Although the commitment to continue to work with the NHS is already a part of the *Cymraeg 2050* work programme, this does not mean that it should not be included as one of the core actions of the policy in question. It should also be explained how some of the other actions can be achieved more effectively by working with the NHS and midwives (especially the actions regarding sharing information and communicating with parents). It is unclear to us why this policy is considered as something which sits side by side with the work regarding the NHS and *Cymraeg for Kids*, rather than this policy being placed above these work programmes. A recent example that was brought to our attention by a member of the public is the references made on Flying Start's Facebook pages to the BBC's 'Tiny Happy People' digital resource. Unfortunately the majority of the resources are available in English only, including those resources which provide guidance on how parents should communicate with their children in order to develop their speech and language skills. Whilst we understand that this is not the Government's responsibility (as it is a resource developed by the BBC at an UK level) and there is no failure of compliance from a Welsh language standards perspective, the Welsh Government's *'Talk with me: Speech, Language and Communication Delivery Plan (2020-21)'* did refer to the resource as one of the key action points of the strategy.<sup>1</sup> In order to achieve the objectives of this strategy relating to language transmission, it is essential that there is consistency in the Government's messaging and campaigns, and that issues relating to Welsh language transmission becomes a normalised aspect of the work of midwives and health visitors. Towards this end, it would be a positive step in the right direction if the Government could use all available means to ensure that such resources are available in Welsh as well as English, and that specific resources are developed which deal with issues of Welsh language transmission at home.

### **A lack of actions regarding conducting and developing Cymraeg for Kids and Camau projects and the work of the Mudiad Meithrin in general**

There is a section in the draft policy which discusses what the Government has done already. Here there is a discussion of the Government's previous *Twf* project, as well as the current *Cymraeg for Kids* and *Camau* projects. The *Cymraeg 2050* work programme for 2017-21 includes the commitment to 'review and refine the *Cymraeg for Kids* Programme to ensure that it continues to provide parents/carers with the information and support they need to make an informed choice about introducing the Welsh language to their child in the home'. The work programme also notes that the Government will ensure that the *Cymraeg for Kids* programme reflects the aims of the policy on Welsh transmission in families. Once again, it is unclear why these commitments are not included as a core part of the actions of the policy in question. Although the *Cymraeg for Kids* programme focuses on encouraging parents to consider Welsh medium education for their children, it also contributes significantly to increasing use of the language within families. We would have expected to see a commitment to maintain and develop this project programme as an action, as well as a discussion on how this significant programme aligns and contributes to achieving some of the other actions of the policy in question.

As the consultation document notes, although the *Camau* project doesn't focus on Welsh language transmission in families, it does contribute significantly to the objectives of the draft policy. The statistics on Welsh language use emphasise that learning Welsh from the very start of the education system is essential in order to produce fluent Welsh speakers who want to use the language and possibly transfer it to the next generation. Increasing the number of practitioners who can offer child care and early years education through the medium of Welsh is vital in the context of the objectives of this draft policy. However, there is no reference to this in the actions.

In relation to the above, the actions do not refer specifically to the general work of the Mudiad Meithrin, especially in relation to programmes such as *Ti a Fi* and *Clwb Cwtsh*. Not only do these programmes contribute directly to the objectives of this draft policy, but it is possible that they are a medium to contribute to achieving some of the other actions which are included in the draft policy. For example, these programmes are an effective way of sharing messages and communicating with new parents, and also encouraging them to consider using Welsh at home.

Our Respondent to the first two questions of this consultation highlights that there is a lack of adequate cross-referencing to the Government's different policies, strategies and work streams. We believe that this somewhat undermines the success of this policy in coordinating the various interventions which contribute to language transmission at home, and doing so within one comprehensive, coherent and universal framework.

### **The need to consider further actions which focus more on informal opportunities to encourage and share messages regarding using Welsh at home**

Action 10 regarding creating projects to use parent/carer networks around schools is interesting, and we would like more detail, or more similar actions. It would be interesting to consider in more detail the different situations where parents and children come together informally, for example in parties, in sporting events, and in various activities which occur in connection with the school (eisteddfodau, school trips and so on). We accept that it is not easy to create national policies to address matters like this, but there are events where parents and children come together and there is significant potential in terms of sharing

messages, offering opportunities to develop confidence and to change linguistic practices. Events such as this are positioned somewhere between formal opportunities to use the language (at school, in work, in classes) and use of the language at home. There are examples of these kinds of projects in the Basque Country, albeit on a local scale. For example, the Parketarrak<sup>2</sup> programme offers play activities through the medium of Basque in Donosti's (San Sebastian) public parks. The role of local sports club as places where people congregate and socialise should be considered, especially in terms of providing opportunities to use the Welsh language socially and where Welsh speakers can offer support and encouragement to other families. The Commissioner, for example, launched the Amdani!<sup>3</sup> Campaign, which encouraged the use of Welsh in sport clubs across Wales. There is a similar project in Donosti focused on the town's sports clubs. See San Sebastian's 2015-19 Basque Promotion Strategy<sup>4</sup> for further information.

In relation to this, there may be a need to consider in more detail the role of parents/carers who speak Welsh at home in order to convince and support other families. Actions 5 and 10 mention the intention to consider how parents/carers can support each other, but there is no detail regarding this. It would be useful to explain how Welsh speakers can be equipped to support others, and maybe actions which aim to increase Welsh speakers' knowledge and understanding regarding their role in this context need to be considered. Once again, it might be worth considering examples from the Basque Country, where there exists promotion workshops named Zerkatik ez? (Why not?)<sup>5</sup> in Donosti which caters for Basque speakers, learners, and various groups and clubs. Another interesting example from the Basque country is a project which focuses on the influence of individuals who are part of a close network of friends (cuadrillas) on the language of those groups.

### **The role of social organisations and leaders**

The previous point suggests the need for more local planning and in a more informal way, and in this context the role of different social organisations and leaders should be considered. Organisations such as Mentrau Iaith and the Urdd have a clear potential in terms of contributing to the achievement of the objectives of this draft policy. It may be useful to include some kind of mapping work to identify all the social organisations and groups which can contribute to the objectives of the policy, as well as a strategy for coordinating this work in terms of encouraging families to speak Welsh.

### **Technology, the media and famous role models**

The draft policy emphasises the importance of technology in terms of sharing messages and influencing families. Action 12 notes specifically the intention to explore the opportunities technology offers to increase the use of Welsh in the household. In this context, it would be useful to consider the role of the media, and social media specifically, in sharing messages. Once again, we accept that it is not easy to use the media to share specific messages, but it is clear that the media has an extremely significant potential in this context. For example, fairly strong anecdotal evidence exists in terms of the influential role of the Wales football team, and the related attention in the media, on national feeling and possibly attitudes towards the language. The Government's Cymraeg 2050 strategy notes on page 65 that 'coverage of Welsh life and society – including the Welsh language culture – is sparse in UK newspapers and UK broadcasting Services, the main media

outputs in Wales. The image of Wales in the UK media needs to better reflect the rich and varied culture of our country, and this includes awareness of the Welsh language.' We therefore suggest that you consider ways of promoting positive attitudes towards the Welsh language by improving the way the Welsh language is portrayed in the English medium media in Wales. Our earlier comments regarding Tiny Happy People are relevant in this respect.

### **Actions which target the role of children and young people specifically**

One of the principles which are the basis of the draft policy is the fact that children are individuals and have their own sense of agency. They aren't just passive recipients of a language from parents/carers, and therefore they have the ability to influence the linguistic practices of their parents and family. Although action 7 relates to increasing children's use of Welsh with each other and their family, there are no actions which focus specifically on the role of children and young people as social agents who have the potential to change the linguistic practices of their family. Maybe developing an ambassador programme could be considered where the children themselves would be equipped to lead on increasing the use of Welsh at home. It is possible that this could be considered in the context of the first action of the draft policy, namely to trial a language use pledge programme adapted from the Euskalaradia programme in the Basque country.

### **Ymatebydd 38 / Respondent 38**

Gweler ateb 1a

### **Ymatebydd 39 / Respondent 39**

Er bod y Polisi yn cyfeirio yn fras at yr agweddau canlynol, cynigwn y dylid amlygu a ganlyn fel Camau Gweithredu penodol:

#### **1.b.1. Gwneud targedu darpar rieni yn ystod y cyfnod beichiogrwydd a mamolaeth/tadolaeth yn Gam Gweithredu ar wahân.**

Bydd hyn wedyn yn sylfaen i wireddu **Cam Gweithredu 1**. Mi fyddai hyn hefyd yn dilyn canfyddiad yn "Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd" 12/06/2017:

"Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ymyriadau sy'n ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg dargedu siaradwyr Cymraeg mewn modd effeithiol cyn geni'r plentyn a/neu ystod blynyddoedd cynnar y plentyn, ac adolygu'r dull mwyaf priodol o gyrraedd siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn."

Da o beth fyddai cael:

1.b.1.i:

**Mapio cadarn** o'r hyn sy'n digwydd yn gyfredol o ran cyflwyno ymwybyddiaeth trosglwyddo iaith i ddarpar rieni yn ystod y cyfnod mamolaeth. Y ffocws ar:

- Holiadur rhieni newydd o unrhyw gyngor a gawsant ar bwysigrwydd trosglwyddo'r

Gymraeg a'r dylanwadau o blaid ac yn erbyn dilyn y cyngor.

- **Hygrededd** y cyflwynydd a gawsant ym maes trosglwyddo iaith, ansawdd y sesiwn, ac effeithiolrwydd y neges.
- Casglu gwybodaeth ar drefniant pob bwrdd iechyd a'r personau cyfrifol.
- Rhestru nifer y darparwyr cyngor cyn-geini, megis Cymraeg i Blant ond hefyd y brithwaith o ddarparwyr eraill e.e.

**GIG Cymru** [https://111.wales.nhs.uk/livewell/pregnancy/antenatalclasses/?locale=cy](https://111.wales.nhs.uk/livewell/pregnancy/antenatalclasses/?locale=cy;);

**NCT** <https://www.nct.org.uk/courses-workshops>,

**Daisy Foundation** <https://thedaisyfoundation.com/teacher/laura-verga-birtles/>,

**Solihull** <https://inourplace.heiapply.com/online-learning/>, ayyb.

- Dehongli cynnwys yr hyfforddiant yng nghyd-destun trosglwyddo iaith a gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i rieni.
- Gwirio a oes dewis o gyrsgiau Cymraeg i ddarparu rieni ym mhob ardal gan y gall iaith trosglwyddo'r neges fod yn ddylanwadol hefyd.
- Cyfrifo nifer a chanran y rhieni sydd wedi derbyn sesiwn wyneb-yn-wyneb (efallai digidol) ar drosglwyddo iaith, gyda'r cyfle i holi a derbyn cyngor wedi ei deilwria i'w amgylchiadau ieithyddol a'r gwasanaethau cefnogaeth Cymraeg yn lleol.
- Cymharu'r nifer a gafodd sesiwn ystyrlon cyn-geini gyda niferoedd **genedigaethau byw** yng Nghymru, er mwyn adnabod niferoedd a chanran y rhieni nad ydynt wedi derbyn arweiniad am drosglwyddo iaith.
- Adnabod maint y dasg i sicrhau tegwch cymdeithasol a **chyfle cyfartal** i bob rhiant gael derbyn arweiniad ar ddewisiadau ieithyddol fydd yn effeithio dyfodol eu plant.

Defnyddio'r astudiaeth fel sail i fuddsoddiad pellach mewn gwasanaeth pwrpasol boed drwy ymestyn capasiti a chyfrifoldebau Cymraeg i Blant, neu drwy ddiffiniad mwy eglur o'r disgwyliadau sydd ar y gwasanaeth iechyd, neu drwy greu gwasanaeth newydd, ond sicrhau fod **atebolrwydd** a **monitro** cadarn i wireddu'r nod o gynnig y sesiwn ymwybyddiaeth am fanteision trosglwyddo iaith i **bob** rhiant.

1.b.1.ii:

Datblygu **pecyn cynhwysfawr** i'r sesiynau di-dâl cyn-geini drwy becyn ehangach o gyngor ymarferol a defnyddiol, sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o fanteision trochi yn y Gymraeg a dwyieithrwydd i blentyn. Hefyd cyflwyniad, a gedwir yn gyfredol, o'r adnoddau cefnogol sydd ar gael yn y cartref a'r gymuned e.e. apiau megis Selog, Magi Ann, rhaglenni Cyw S4C, teganau megis Seren Swynol, a gwasanaethau megis tylino ac ioga Cymraeg i Blant, sesiynau Mentrau Iaith a'r Llyfrgell, dilyniant Ti & Fi, Cylch a Meithrin, ayyb. Mae'n debyg y bydd hwn yn cydreddeg â **CG3**.

Dywedwn hyn gan ein bod trwy ein darpariaeth Cymraeg i deuluoedd yn y Fenter, yn cael cyswllt a sgwrs neu yn darparu cyflwyniadau i tua 2000 o deuluoedd y flwyddyn ym Môn. Ceir adborth clir mai yn ein sesiynau i rieni, cyn i'w plant drosglwyddo i ysgolion Cymraeg, mae'r nifer sylweddol o rieni yn deall **am y tro cyntaf** beth yw pwrpas a dulliau trochi yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar hyd at 7 oed.

Mae rhai, di-Gymraeg yn enwedig, yn gresynu nad oedant wedi dewis yn wahanol ym



mlynyddoedd cynnar eu plentyn e.e. drwy annog partner / neu berthynas i siarad Cymraeg a'u plentyn neu ganfod darpariaeth gofal/meithrin trochi yn y Gymraeg. Mae angen i'r pecyn a ddatblygir ymdrin â chamsyniadau sydd yn dal yn gryf yn nhrwch y boblogaeth e.e fod un iaith yn well i ddechrau, fod dwyieithrwydd yn golygu trin y ddwy iaith yn gyfartal (heb ystyriaeth i gyd-destun iaith ddominyddol ac iaith leiafrifol), na all plentyn anghenion arbennig ymdopi â mwy nag un iaith (gyda honiadau yn parhau i rieni dderbyn cyngor gan staff o'r sector iechyd y dylid cyfyngu iaith y plentyn i Saesneg, hyd yn oed mewn 2 achos pan oedd y rhieni yn siarad Cymraeg. Gan fod adborth yn ddiennw, nid ydym wedi gwirio a gall fod yn ddehongliad rhiant, ond erys tystiolaeth fod yma broblem cyfathrebu'r neges), fod y plentyn yn 'drysu' o glywed dwy iaith, nad ydi Cymraeg/dwyieithrwydd yn ddefnyddiol i blentyn fydd yn symud o'r ardal, fod yr ysgol leol yn 'too Welsh' heb ddeall mantais i'r plant o drochi ieithyddol tan 7, fod dysgu'r Gymraeg am leihau cyfleoedd llwyddo yn y Saesneg/Gwyddoniaeth/Mathemateg, na all plentyn sy'n siarad Saesneg ymdopi â gofal Cymraeg am na all esbonio ei hun (diffyg dealltwriaeth o ofal gan staff dwyieithog/trochi Cymraeg), ayyb.

Mae canfyddiadau "Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant" 12/02/2019 yn cefnogi'r galw i wneud hwn yn Gam Gweithredu ar wahân er efallai ddim yn ddigon uchelgeisiol o ran cyfleu neges bendant am drosglwyddo iaith a diogelu cyfle cyfartal i bob darpar riant;

"Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall uwch reolwyr yn y sector iechyd sicrhau bod eu gweithlu yn adnabod rhagor o gyfleoedd i raeadru gwybodaeth am Gymraeg i Blant i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i rieni."

Mae'r dystiolaeth yn "Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant" 12/02/2019 hefyd yn awgrymu pwysigrwydd cynnig gwasanaeth o safon uchel, ddi-dâl nad yw'n gwthio trosglwyddo iaith ar rieni ond yn hytrach yn **cynnig pecyn ehangach a defnyddiol, ble mae trosglwyddo iaith yn un rhan o'r drafodaeth/cyngor.**

"Gofynnwyd i rieni oedd yn cymryd rhan mewn cyfweiliadau am eu rhesymau am fynychu'r grwpiau Cymraeg i Blant... Cafodd y ffaith bod y grŵp am ddim ei grybwyll yn ddigymell gan lond dwrn o rieni. ... Adroddodd rai rhieni mai'r gweithgareddau oedd y prif beth a'u denodd i fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, yn hytrach na chyfrwng iaith y ddarpariaeth... Esboniodd rhai rhieni nad oedd bod yn ymwybodol o ffocws ieithyddol Cymraeg i Blant o fantais oherwydd bydden nhw wedi bod yn llai tebygol o fynychu pe byddent wedi bod yn ymwybodol o natur ieithyddol y sesiwn... Aeth rhai ymhellach ac esbonion nhw eu bod yn falch nad oedd y swyddog Cymraeg i Blant yn 'gwthio'r' Gymraeg arnynt. Adleisiwyd hyn yn y sylwadau a wnaed gan rai rhanddeiliaid a deimlai fod y swyddogion Cymraeg i Blant wedi taro cydbwysedd priodol wrth gyflwyno'r Gymraeg i rieni di-Gymraeg. Disgrifiodd y rhanddeiliaid hyn fod gan swyddogion Cymraeg i Blant ffordd gadarnhaol ac annogol, heb roi pwysau ar rieni i wneud penderfyniadau penodol."

Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau mai **wedi ei blethu gyda gwasanaeth ymarferol/ymwybyddiaeth iechyd ehangach** y dylid cyfleu manteision trosglwyddo iaith i ddarpar rieni.

Yn lleol i ni ym Môn, mae gwasanaeth Cymraeg i Blant yn boblogaidd iawn, gyda rhestrau aros yn arferol ar gyfer yr ioga a thylino babi ar ôl geni'r plentyn. Fodd bynnag mae'r diffyg capasiti yn golygu mai dim ond yn y rhan mwyaf difreintiedig o Fôn gall y Swyddog CIB rhan-amser ei wasanaethu. Sefyllfa debyg ymddengys yng ngweddill y wlad;

“Crybwyllodd y rhan fwyaf o swyddogion ardaloedd daearyddol eraill y gallent ddarparu sesiynau grŵp ynddynt o bosibl, os oedd ganddynt y capasiti i wneud hynny” (“Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant”).

Mae'r ddarpariaeth CIB ym Môn yn rhwydweithio'n dda gyda staff iechyd e.e. i ymuno mewn sesiynau pwyso babi ar yr ynys, ond erys y diffyg capasiti yn broblem i gyrraedd pob rhiant sydd wedi geni babi heb sôn am holl ddarpar rieni'r sir sy'n derbyn gwasanaeth mewn sir arall yn Ysbyty Gwynedd. Nid oes rannu na dehongliad o ddata am ddarpar rieni a rhieni newydd na chawsant fynediad at CiB oherwydd diffyg capasiti yn y “Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant”. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn awgrymu fod lle i wella ar strwythurau a diffiniad o gyfrifoldebau rhwng y sector iechyd a Cymraeg i Blant a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi rhieni yn y Gymraeg megis y Mentrau .

“Nododd y rhan fwyaf o'r rhieni y cyfwelwyd â hwy na allent gofio cael gwybodaeth gan eu hymwelydd iechyd ar weithgareddau Cymraeg i Blant (nid oedd rhai'n cofio cael unrhyw wybodaeth am weithgareddau cyfrwng Cymraeg na Saesneg gan eu hymwelydd iechyd). Nododd canfyddiadau'r ymwelwyr iechyd fod amrywiadau mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant yn eu plith, gyda rhai ymwelwyr iechyd yn adrodd na allent gofio cael gwybodaeth am y rhaglen Cymraeg i Blant.”

O gael darlun clir o strwythur a chyfrifoldebau codi ymwybyddiaeth iaith i ddarpar rieni, mi fyddai'n haws i'r Llywodraeth ac ymarferwyr adnabod y bylchau a'r diffyg capasiti yn y sector iechyd/Cymraeg i Blant, i godi'r capasiti fel bo'n briodol neu i wahodd asiantaethau eraill ag arbenigedd ymdrin â rhieni ar thema trosglwyddo iaith, megis y mentrau iaith, i lenwi'r bylchau.

#### 1.b.1.iii.

Cynnig **pecyn Dysgu Cymraeg di-dâl** gyda creche i rieni ar gyfnod **mamolaeth/tadolaeth** mewn ardaloedd difreintiedig. Hyn yn ychwanegol i wasanaeth clodwiw Clwb Cwtsh.

Mae galw am hyn wedi bod yn gyson yn ein grwpiau rhiant a phlentyn ni yng Nghaergybi. Nid oes yr un cwrs dysgu gyda creche ar yr ynys. Roedd y rhieni a fynychai ein sesiynau, dros 50 y flwyddyn, yn cwyno nad oedd gwersi codi hyder/dysgu Cymraeg gyda creche yn bodoli, ond yn ogystal eu bod wedi cau allan o gynllun di-dâl Cymraeg yn y Gweithle. Mae adroddiad “Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant” 12/02/2019 yn ategu ein canfyddiadau ni mai wedi geni plant yw union yr amser pan mae rhieni yn fodlon newid arferion er lles eu plant ac yn awyddus i ddysgu Cymraeg, e.e. Cyfweliad gyda rhiant;

“Mae cael plant yn gwneud ichi ailfeddwl am y Gymraeg. Mae'n bwysig. Ers cael plant, rydw i wedi bod yn ailystyried yr iaith. Mae fy merch hynaf yn dod adref o'r ysgol ac yn dweud “Cymraeg rŵan mam!”

Adlewyrchir hyn hefyd yn y ddogfen 'Dechrau'n Deg – Atodiad Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu' 2017:

"Pan fo menywod yn feichiog ac adeg geni'r babi mae'r rhieni yn arbennig o barod i dderbyn cyngor a chefnogaeth ac felly mae'n 'gyfle euraidd' i wneud hynny."

Mae '1001 Critical Days: The Importance of the Conception to Age Two Period' (2014) yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu'n gynnar er mwyn gwella deilliannau'r plant. Yn benodol, y 1001 diwrnod hollbwysig yw'r cyfnod o'u cenhedlu hyd nes eu bod yn ddwy oed.

Roedd rhieni yng Nghaergybi, yn ymwybodol o anfantais beidio siarad Cymraeg, yn gweld cyfle nid yn unig i ddysgu rhywfaint o Gymraeg i ganu gyda'u plentyn (megis ein grŵp ni a Chlwb Cwtsh) a'u cefnogi drwy'r blynyddoedd cynnar, ond yn awyddus hefyd i ddysgu/godi hyder eu Cymraeg yn ystod y cyfnod mamolaeth/tadolaeth er mwyn gwella eu cyfleoedd cyflogaeth i'r dyfodol. Fel y dywedir yng nghyd-destun taclo tlodi ac anfantais yn 'Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd' 2017:

"Mae'r ffordd at gyflogaeth yn cynnwys llawer o gamau; mae'n dechrau gyda chynorthwyo pobl i gael y sgiliau, yr hyder a'r gallu i ddechrau ymgeisio am swyddi ac mae'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod cyntaf mewn swydd newydd. Mae angen diffinio cyflogadwyedd yn yr ystyr ehangaf posibl, gyda phobl yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt bob cam o'r daith hon."

1.b.1.iv.

**Marchnata**'r gwasanaeth/pecyn/negeseuon yn uniongyrchol i'r grŵp hyn gydag adnodd **targedu hysbysebion ar-lein** e.e. negeseuon yn ymddangos yn dilyn chwiliadau yn ymwneud â phriodasau, beichiogrwydd neu nwyddau babi.

**1.b.2. Pwysu am arweiniad strategol eglur gan y Llywodraeth i amlygu'r cyswllt rhwng difreintedd a rhwystrau mynediad at y Gymraeg.** Yn ymarferol hefyd i brif-ffrydio trochi yn y Gymraeg yn rhaglenni taclo tlodi i deuluoedd.

**Strategol:**

Nid oes tystiolaeth amlwg hyd yma fod y Llywodraeth yn ganolog wedi adnabod mynediad di-dâl at drochi yn y Gymraeg fel cam i daclo tlodi ac anfantais. Amlygir bwriad i weithio ar draws gweinidogaethau i daclo tlodi, ond nid oes neges glir wedi mynd i'r sector gyhoeddus a gwirfoddol am y cyswllt rhwng difreintedd a rhwystrau a ddaw heb fynediad at y Gymraeg. Yn 'Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd' 2017, dywedir a ganlyn; "mae Llywodraeth Cymru wedi dod yn fwy cyd-gysylltiedig ar lefel Weinidogol o ran sicrhau dull gweithredu cydlynol o drechu tlodi, a sut y mae modd defnyddio'r holl ysgogiadau polisi i weithredu newid cadarnhaol. Rydym yn croesawu'r dull hwn o weithredu ar draws y Llywodraeth. Fodd bynnag, heb ffocws strategaeth gyffredinol, sy'n dwyn ynghyd holl elfennau'r gwaith ar draws Llywodraeth Cymru, pryderwn fod risg sylweddol iddo ddod yn broblem i bawb ac yn broblem i neb."

Teimlwn fod peryg nad yw rôl mynediad di-dâl at gyfleoedd gofal sy'n trochi yn y Gymraeg wedi eu hadnabod yn strategaeth y Llywodraeth tuag at drechu tlodi. O'n profiad ni, wrth

bwysio i brif-ffrydio'r Gymraeg i fudiadau, cyrff a phrosiectau sy'n ymdrin â thlodi neu anghyfiawnder, ceir ar adegau'r **ymdeimlad fod y gwaith ymdrin ag anfantais yn rhy bwysig ac argyfyngus** i fod yn medru delio â'r Gymraeg hefyd. **Heb ddeall fod y diffyg Cymraeg yn cyfrannu at barhad anfantais i'r plant/teuluoedd** mewn gwlad **ddwyieithog**. Oherwydd cymhlethdod a sensitifrwydd y maes, awgrymwn felly, yng nghydestun hyrwyddo trosglwyddiad iaith, dylid cael arweiniad clir strategol o'r Llywodraeth yn ganolog i gydnabod mynediad at y Gymraeg fel cam i daclo anfantais. Fel awgrymwyd yn 'Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd' 2017;

"Mae pwysigrwydd strategaeth glir a fframwaith polisi yn arbennig o bwysig mewn perthynas â lleihau tlodi, lle mae cymaint o gyfranogwyr gwahanol dan sylw, gan gynnwys cyrff cyflenwi lleol, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a'r sector preifat." Teimlwn bydd arweiniad strategol gan y Llywodraeth am fod yn llawer mwy cost-effeithiol ag effeithiol o ran gweithredu er lles plant a'u potensial na'r sefyllfa bresennol.

### **Esiampl:**

Amlygwn y potensial o amddifadu'r rhai gall elwa fwyaf o drosglwyddo'r Gymraeg, oni bai fod cynlluniau canmoladwy i daclo tlodi yn derbyn arweiniad ar sut i addasu i uchelgais polisi Cymraeg 2050. Esiampl fyddai rhaglen Dechrau'n Deg sy'n sicrhau'r dechrau gorau posibl i blant sy'n byw mewn teuluoedd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae cymorth gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael blaenoriaeth. O'r ddogfen 'Dechrau'n Deg - Atodiad Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu' 2017, gweler dyfnder ac arbenigedd yr ymchwil a dealltwriaeth ar ddatblygiad plant a chyfathrebu. Ag eto ychydig iawn a welir yma o arweiniad ymarferol yn seiliedig ar arbenigedd ymchwil dwyieithrwydd yng Nghymru e.e. arweiniad Dr Colin Baker, gwaith cyfredol Dr Enlli Thomas, neu gyfeiriad at ymchwil "Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd" y Llywodraeth. Er bod yma fwiad gan y darparwyr i hyrwyddo dwyieithrwydd fel mantais i blant ("Dylai pob teulu gael gwybod am fanteision bod yn ddwyieithog o'r crud, ac am yr arferion gorau o ran egwyddorion rhyngweithio gyda babanod a phlant ifanc wrth ddefnyddio mwy nag un iaith.") Yr awgrym yw mai'r Saesneg yw'r norm nes bod galw i adlewyrchu iaith rhiant/cartref.

"Dylid gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg ac i roi'r dewis i rieni gael cymorth i ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg." Ni ymddengys unrhyw gyfeiriad at gyflwyno rhieni i fanteision trochi plant yn y Gymraeg (gan mai hi yw'r iaith leiafrifol) er mwyn cyrraedd dwyieithrwydd rhugl. Ac er cyfeiriadau helaeth at asesu plant, ("Mae'r eirfa sydd gan blant yn 2 oed, a'u gallu i siarad mewn brawddegau o ddau neu dri gair, yn arwydd clir o ba mor barod y byddant ar gyfer yr ysgol pan fyddant yn 4 oed.") ymddengys fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant, adnoddau a'r rhaglenni asesu yn Saesneg. Cymerer er enghraifft pecyn adnoddau lleferydd ac iaith yw Wellcomm <https://www.gl-assessment.co.uk/products/wellcomm/> sy'n cynnwys dull sgrinio plant 6 mis i 6 blwydd oed, llyfr mawr o syniadau, adnoddau, DVDs hyfforddi a dewin cymorth i gofnodi a dadansoddi cynnydd y plant. Er bod yr amcanion a amlygir yn 'Dechrau'n Deg - Atodiad Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu' 2017, yn cynnwys paratoi plant ar gyfer ysgol a sicrhau fod plant yn cyrraedd eu potensial, ni cheir gyfeiriad at bolisiau iaith yr ysgolion gan gynnwys trochi yn y Gymraeg hyd 7 oed, na chwaith diben y camau hyn i gyflawni rhuglder dwyieithog a chyfluoedd cyflogaeth well yng Nghymru.

Chwithig darllen yn lle hyn;

“Mae hanner y cyflogwyr yn Lloegr yn dweud eu bod yn cael trafferth dod o hyd i weithwyr sydd â'r lefel briodol o sgiliau cyfathrebu llafar (Comisiwn y DU ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau, 2009)”.

### **Addasu ad-hoc:**

Wrth gwrs mae ymarferwyr Dechrau'n Deg yn addasu i amgylchiadau lleol ac yn ymdrechu i gyfuno amcanion y cynllun gyda blaenoriaethau ieithyddol ag addysgol yr awdurdodau lleol, sy'n adlewyrchu uchelgais Cymraeg 2050. Ond mae trefn felly yn dibynnu ar ymwybyddiaeth ymarferwyr a'u proffesiynoldeb yn addasu i anghenion y plant yn eu cymuned ehangach yn hytrach na fod yn eglur yn yr arweiniad a roddir. Baich ychwanegol o ran addasu a chyfieithu i ymarferwyr. Yn ogystal, heb bendantrwydd strategol, mae potensial creu sefyllfaoedd ble mae cynlluniau taclo tlodi yn gweithio'n groes i'r ymdrechion trosglwyddo iaith yn y teulu a chynnig cyfleoedd trochi Cymraeg i blant o bob cefndir ieithyddol. Gall hyn arwain at aneffeithiolrwydd o ran trosglwyddo'r Gymraeg a thaclo tlodi; gall y diffyg cysondeb yn y polisi a'r canllawiau arwain at densiynau rhwng ymarferwyr sy'n ymgeisio i gynnig y cyfleoedd gorau i blant, ond yn gweithredu dan arweiniad gwahanol adrannau'r llywodraeth.

### **Consensws arbenigedd:**

Dylid sicrhau fod ymarferwyr 'iaith' a 'chyfathrebu' yn ymelwa o gyfnewid arbenigedd a datblygu ymchwil pellach. Da fyddai cael consensws ar y drafodaeth am ddefnydd rhiant o'i iaith gyntaf gyda phlentyn, gan ystyried yr arweiniad yng nghyd-destun mewnfudwyr gall fod yn magu plant amlieithog, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Yn yr un modd mae gan arbenigwyr 'iaith' arweiniad gwerthfawr i'w gynnig ar sut i barhau gyda'r ffocws ar 'gyfathrebu', wrth sicrhau cyfle cyfartal i blant o bob cefndir ieithyddol ddod yn rhugl ddwyieithog drwy gyfleoedd trochi yn y Gymraeg.

Gweler hefyd amcanion a amlygir yn 'Dogfen Ymgynghori - Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu', 2020-21

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-01/dogfen-iaith-lleferydd-ymgynghori.pdf>

“1.8 Er bod negeseuon Cymraeg i Blant am ddatblygiad iaith Gymraeg yn cael eu rhannu â rhieni a darpar rieni drwy nifer o ddulliau, rydym yn cydnabod bod cyfle i ddatblygu'r negeseuon hyn a'u teilwra i anghenion gwahanol gynulleidfaoedd. Byddwn yn ystyried sut y gellir atgyfnerthu'r negeseuon hyn dros y flwyddyn nesaf er mwyn i deuluoedd ddeall eu rôl wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu plentyn, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddynt.”

“3.5 Cydnabyddir bod angen sgiliau penodol ar ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n defnyddio technegau trochi yn y Gymraeg. Mae hyfforddiant i ymarferwyr sy'n gweithio mewn Cylchoedd Meithrin i ddatblygu methodolegau trochi yn y Gymraeg wedi cael ei roi ar waith fesul cam ledled Cymru yn 2019-20. Er mwyn adeiladu ar hyn, byddwn yn sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn elfen allweddol o unrhyw gamau pellach a gymerir i atgyfnerthu darpariaeth trochi yn y Gymraeg.”

Gall fod yma gyfleoedd posib i ddefnyddio'r arbenigedd ymchwil ar ddwyieithrwydd sydd gennym yng Nghymru a'u berthnasu i waith arbenigwyr iaith a lleferydd er mwyn sicrhau fod yr arferion dwyieithrwydd gorau wedi eu prif-ffrydio yn y canllawiau, hyfforddiant a'r ddarpariaeth.

### **Darpariaeth a daearyddiaeth:**

Yn ddaearyddol, mae'n bwysig nad yw'r cynlluniau taclo tlodi ychwanegol a gynigir yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn disodli'r cyfleoedd ar gael mewn ardaloedd mwy breintiedig.

Mae sefyllfa Caergybi yn berthnasol. Wedi ei amgylchynu gan fôr ar ynys ble mae 80% o bobl ifanc yn ddwyieithog, mae diffyg Cymraeg Caergybi (am resymau hanesyddol) yn **cyfrannu at ddifreintedd**, gan gyfyngu cyfleoedd cyflogaeth. O'n profiad ni, pan fydd y rhiant yn deall y sefyllfa ehangach - sy'n dangos mwy o lwyddiant academaidd, cyflogaeth a chyfradd cyflog yn yr ardaloedd dwyieithog cyfagos - daw diffyg hyder yn y Gymraeg y rhiant yn gymhellant i anelu am y Gymraeg i'r plant. Yn ein gweithgareddau roedd dros 95% am gael eu plant yn siarad Cymraeg i fod yn ddwyieithog erbyn 16 oed. Mae'r ysgolion cynradd cymunedol yn adlewyrchu'r uchelgais, gan eu bod newydd newid i drochi ag asesu yn y Gymraeg, ond fel arall cyfyngir uchelgais y rhieni gan argaeledd y ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar. Argaeledd sydd yn parhau gan fwyaf yn 'ddwyieithog' neu yn Saesneg, o'i gymharu â'r ddarpariaeth trochi Cymraeg a geir yn eang gan y Mudiad Meithrin ar weddill yr ynys. Heblaw am yr anghyfiawnder cymdeithasol, mae peryg hefyd i'r Gymraeg gael ei gweld yn elitidd, pan fo strwythurau mewn lle sy'n cyfyngu mynediad y cymunedau mwyaf difreintiedig at y Gymraeg.

Yn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yng Nghaergybi, mae gwaith adfer gwyb bellach ar y gweill e.e. hyfforddiant 'Croesi'r Bont' y Mudiad Meithrin i staff darpariaeth meithrin Dechrau'n Deg. Pwysau gan y cyngor sir a'r gymuned sydd wedi arwain at hyn. Pwysau oedd fodd bynnag yn bwysau ychwanegol ar staff a'r capasiti. Pwysau fydd yn y pen draw gobeithio yn arwain at drochi yn y Gymraeg yn holl ddarpariaethau Dechrau'n Deg yng Nghaergybi, ond pwysau hefyd fyddai'n ddianghenraid petai strwythur cynlluniau taclo tlodi yn genedlaethol wedi gosod mynediad at y Gymraeg yn gonglfaen cyfle cyfartal i blant boed yn freintiedig neu yn ddifreintiedig.

Er bod sefyllfa pegwn dwyreiniol Môn yn unigryw, erys cymunedau tebyg o anfantais yng Nghymru ble mae'r Gymraeg/dwyieithrwydd am gynnig cyfle i gamu i gyflogaeth ac allan o'r cylch dieflig o ddifreintedd. Mewn gwlad ddwyieithog, oni fydd y Llywodraeth yn prif-ffrydio'r Gymraeg yn eu polisiau a'u cynlluniau taclo tlodi mewn teuluoedd, mae peryg bydd y diffyg cyngor, mynediad, cyfle dysgu a throchi Cymraeg yn cyfrannu at barhad difreintedd ag anfantais yr ardaloedd hyn.

### **Ategu'r farn gyfredol:**

Teimlwn ein bod yn ategu'r farn gyfredol am y galw am asio yma, gan ychwanegu llais i gyflymu'r broses a'r momentwm sydd eisoes ar droed gan y Llywodraeth:

- 'Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion - Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol', 2/2020

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-02/crynodeb-or-ymatebion.pdf>

“Teimlai llawer o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n yn gallu cynnig sylwadau ar effaith posibl y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar y Gymraeg a'i defnydd. Mae angen tystiolaeth yn cysylltu amddifadedd a mynediad at y Gymraeg Un thema a oedd yn codi drosodd a throsodd oedd y cysylltiad rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a mynediad at y Gymraeg.”

- 'Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion Cymru Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol', 4/2020

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-04/cymru-fwy-cyfartal-atgyfnerthu-partneriaeth-gymdeithasol-papur-gwyn-crynodeb-o-ymatebion.pdf>

“Gwnaed galwad ar i'r Gymraeg gael ei hadlewyrchu'n benodol o fewn deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol. Dylai prosesau caffael partneriaeth gymdeithasol nodi'r gofynion penodol o safbwynt darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg.”

“[adborth] 'dylai dyletswyddau gwaith teg a chaffael cymdeithasol sefydliadau'r sector cyhoeddus gynnwys ymrwymiad i helpu i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg fel rhan benodol o'r ddeddfwriaeth”.

### **1.b.3. Cyplysu nawdd Llywodraeth â'r polisi trosglwyddo Cymraeg yn y teulu.**

Mae'n gwneud synnwyr economaidd i gyplysu polisi 2050 gyda nawdd Llywodraeth gyda grantiau sy'n perthnasu i blant a theuluoedd. Er enghraifft, mae'n gyfle cyplysu'r cyllid am ddarparu 30 awr gofal plant i fod a disgwyladau trochi Cymraeg (taro CG8). Byddai galw i deilwrio'r disgwyladau i arferion iaith yr ardal leol ac efallai cael templed o ddisgwyladau ar sawl lefel, ond o leiaf bydd y disgwylad ar y darparwyr wedyn i ddangos eu bod ar y daith i drochi'r plant yn y Gymraeg. Esiampl arall yw grantiau chwaraeon i gynnwys darpariaeth yn y Gymraeg yn unig sy'n rhoi cyfle trochi a mwynhau'r iaith a chyfle i rieni weld llwyddiant plentyn mewn awyrgylch Gymraeg. (Gweler cyfeiriad at hyn yn CG6).

### **1.b.4. Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o fanteision dwyieithrwydd a dulliau trochi, gan grynhoi prif bwyntiau'r ymchwil hyd yma i fformatau hawdd eu deall i rieni.**

Mae Cam Gweithredu 5 eisoes yn trafod DULLIAU'r cyfathrebu ond efallai Cam Gweithredu ar wahân yw crisialu'r NEGESEUON pwysig. Bydd ffrwyth y gwaith yn sylfaen wedyn i CG 4 & 9.

Da o beth fyddai cael un hysbyseb/taflen/infographic/gartŵn o negeseuon pwyntiau bwled wedi eu selio ar yr ymchwil diweddaraf ar fanteision dwyieithrwydd e.e gwybyddol, addysg, cyfathrebu, cyflogaeth, cyflog ( gan gynnwys gwahaniaeth cyflog cyfartalog), ayyb. O gael neges a data clir i'w rannu a'i ailadrodd gan bob un o ymarferwyr iaith, addysg, gofal ac iechyd bydd y neges yn fwy cyson a'r trosglwyddiad yn fwy effeithiol.

Dywedwn hyn yn sail ein profiad o ddarparu adnodd o'r fath a gyda'n dehongliad syml ni o'r ymchwil, yn ystod ein sesiynau ymwybyddiaeth iaith i rieni a phlant, myfyrwyr a staff gofal a blynyddoedd cynnar, llywodraethwyr, a staff addysg ym Môn. Mae'r adborth helaeth ar ôl y

sesiynau yn datgelu maint yr anwybodaeth/ ddiffyg ymwybyddiaeth oedd yn bodoli cyn y sesiynau. Er yr arbenigedd a'r ymchwil gan y Llywodraeth, erys gwaith syml a thrwyadl eto i'w wireddu o ran cyfathrebu negeseuon am bwysigrwydd trosglwyddo iaith a thechnegau trochi, a'r manteision i ddatblygiad a chyfleoedd plentyn o fod yn ddwyieithog.

Dyma flas o'r adborth helaeth a dderbyniwn ar lafar neu yn ysgrifenedig ar ôl sesiwn ymwybyddiaeth iaith / hyfforddiant ar drochi a dwyieithrwydd. Pwrpas rhannu hwn yma yw pwysleisio ein bod yn colli cyfleoedd gall fod hyd yn oed yn fwy cost-effeithiol a dylanwadol o gael cysondeb cenedlaethol i'r neges a'r data, ac i ddechrau'r genhadaeth yn gynt yn y broses rhiantu. Drwy ailadrodd mae'r neges yn treiddio, felly os yw'r neges yn gwyno a'r data a ailadroddir yn gyson i Gymru gyfan yna mae'n fwy cofiadwy i'r cyhoedd/rieni ailadrodd yn eu cylchoedd anffurfiol. Mae'r adborth sy'n dilyn yn ateb y cwestiwn 'Beth ddysgais?' ar ôl sesiwn ymwybyddiaeth iaith/trochi/dwyieithrwydd. Sylwer pa mor elfennol yw'r cyflawniad dysgu o amgylch y Gymraeg / trochi a dwyieithrwydd mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig gofawyr y dyfodol:

### **Myfyrwyr gofal plant:**

- *What multilingual and what bilingual are.*
- *That bilingual people have more opportunities.*
- *That it's more helpful to be bilingual in a working setting.*
- *Mae fod yn dwyieithog yn fwy bwysig na be oeddwn yn ei feddwl.*
- *That anyone can learn a new language.*
- *Pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg.*
- *That being bilingual is very important to make people feel comfortable.*
- *How deprived areas lose out on learning the language therefore they have a disadvantage in life with jobs.*
- *That it's important to speak Welsh because it's easier to get a job in the child care sector.*
- *That Welsh is very important in the workplace to teach kids, that Welsh is something that we need to do more.*
- *That it is important to make sure young children learn Welsh at a young age to benefit them.*
- *Y pwysigrwydd o siarad dwy iaith i'r plant - fydd y plant dwyieithog hefo profiadau well na plant sy mond yn siarad Saesneg.*
- *Am sut i dysgu plant a bod on pwysig dysgu plant Cymraeg.*
- *Bod mae'n bwysig dysgu Cymraeg i blant.*
- *Welsh is an important language to give you a better advantage to get a job.*
- *Bod Cymraeg yn bwysig.*
- *That speaking & encouraging the younger generation to speak Welsh is very important & is beneficial when looking for work in the future.*
- *Pam bod hi'n bwysig i ddysgu plant siarad Cymraeg.*
- *Pwysigrwydd dwyieithrwydd ac annog plant i siarad Cymraeg.*
- *That being bilingual can help children to adopt further languages.*
- *8-10% mwy o gyflog os mae nhw'n ddwyieithog.*
- *That it's important to speak Welsh to children.*



- *About the Welsh language and the benefits of it.*
- *About the Welsh language [and] it's better to talk Welsh with your children at a young age.*
- *Many different apps to help me with my Welsh.*
- *That Welsh is important for future career.*
- *That Welsh is important for children to learn effectively.*
- *New things you can learn children.*
- *Y bobl sydd yn siarad Cymraeg a Saesneg mewn gwaith yn cael 8-10% mwy o cyflog.*
- *LLawer a pham mae'r Cymraeg yn bwysig.*
- *That Welsh isn't spoken as much as I had thought, I learnt that there is not much reason for me not to speak it.*
- *That the Welsh language helps children learn and thrive in later life.*
- *That being bilingual is important for children / people.*
- *How much knowing the Welsh language can help with work.*
- *That if you are bilingual your results of other subjects will be better.*
- *How important the Welsh language is for young children.*
- *Mae fod yn ddwyieithog hefo llawer o manteision.*
- *That being bilingual is very important.*
- *Pa mor bwysig yw fod yn ddwyieithog.*
- *How important bilingualism is in Wales.*
- *I dangos i llefydd mi fyddai'n mynd i [weithio] i ddangos rwyf yn dwyieithog.*
- *Am defnydd o'r iaith Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoed cynnar.*
- *Sut i pwysleisio i rhieni i cael addysg Cymraeg i'w plant.*
- *Sut i helpu plentyn i fod yn ddwyieithog.*
- *How important the Welsh language is in school.*
- *Why it's so important for children and young people to speak Welsh.*
- *A lot of really useful information about the importance about speaking Welsh and that Welsh used to be spoken in England and up to Scotland.*
- *That most children were bilingual by the age of 11.*
- *That most bilingual people are children/young people under 24.*
- *That more parents want their children to speak Welsh.*
- *Faint o bwysig ydi o i dysgu y iaith Gymraeg i plant ifanc ac y ffurfiau.*
- *Faint bwysig yw'r Gymraeg.*
- *Pwysigrwydd o'r ddwy iaith.*
- *Faint mor bwysig ydi o i siarad Cymraeg o hyd.*
- *That you don't have to speak Welsh fully to teach Welsh to children.*
- *That it is a good thing to be bilingual and is easier to get a job when bilingual.*
- *Pa mor bwysig yw siarad Cymraeg gyda plant bach a mae'r ffordd yr ydym yn siarad yn cael efaith ar eraill.*
- *Pwysigrwydd dysgu Cymraeg i blant yn ifanc er mwyn fod y plant yn gallu cael swyddi gyda sgiliau dwyieithog.*
- *Bod dysgu dwy iaith yn helpu chi yn y dyfodol.*
- *How important Welsh is for children and when getting a job.*

- *Bod siarad dwy iaith yn agor drysa i llawer fwy o bethau yn y dyfodol.*
- *Pa mor bwysig yw siarad Cymraeg a Saesneg, a sut allai mond siarad un effeitho eu dyfodol efo swyddi.*
- *Fod siarad Cymraeg ac Saesneg yn bwysig iawn i dyfodol pawb.*
- *Different ways to learn Welsh.*
- *That you can do so much more with the Welsh language.*
- *Pa mor bwysig mae o i siarad yn ddwyieithog o oedran ifanc.*
- *The importance of being bilingual and specific uses.*
- *That I can be much more confident in speaking Welsh and I need to speak Welsh more.*
- *Bod lefelau Cymraeg yn isel ar yr ynys ac bod rhan fwyaf o lefydd gwaith yn gofyn am pobl dwyieithog.*
- *Why it's important to be bilingual.*
- *How important it is to speak Welsh with children also other options of communicating Welsh without speaking the language.*
- *Byddai'n well siarad un iaith hefo'r plant, dim newid nol ac ymlaen o Saesneg i Gymraeg.*
- *That Cumbria was a Welsh word and in England they used to speak Welsh.*
- *That Welsh can help you have more opportunities with jobs / careers in the future.*
- *Different apps to use in Welsh.*
- *How important it is to have the use of Welsh in the workplace and in front of children.*
- *That learning many languages would be able to achieve a success in your career and most of the jobs require bilingual speakers.*
- *That it is better for children to be bilingual because it would benefit them in the future.*
- *Mae yna ap Selog i gael i ddysgu y iaith Gymraeg.*
- *That it is better for young children to be bilingual as it would benefit them more.*
- *Mae'n bwysig helpu dysgu pobl eraill yr iaith Gymraeg os y dymunwn ac mae cymorth i'w gael gan apiau Cymraeg.*
- *How important it is to teach and support young children to speak more than one language.*
- *Sut i dysgu'r iaith Gymraeg heb orfod siarad y iaith a hefyd faint o bwysig ydi o i siarad yn ddwy ieithog.*
- *Pa mor bwysig i allu siarad ddwy iaith ac ei bod yn iawn i'w siarad.*
- *Bod yn rhoi cyfle am swydd well.*

### **Gofalwyr/Cymorthyddion:**

- *Pa mor bwysig ydy dysgu Cymraeg i blant bach, cyn gyntaf a phosib.*
- *Pwysigrwydd rheini I fod yn ymwybodol o'r manteision I fod yn ddwyieithog.*
- *The importance of using Welsh in the home before coming to school.*
- *siarad Cymraeg I plentyn SEN.*
- *How to be enthusiastic about. How to come across to parents, and it is important to talk to the children in Welsh as much as possible.*
- *How important it is to speak Welsh constantly to the children.*

- *How important it is to speak Welsh as much as I can.*
- *Llawer o wybodaeth diddorol, ac pa mor bwysig ydy siarad Cymraeg gyda y plant.*
- *Pa mor bwysig mae hi i siarad Cymraeg hefo ac o flaen y plant.*
- *Nifer o wybodaeth diddorol. Dysgais am yr ap "Selog Llyfrau" ac hefyd yr ap Selog canu 1 a canu 2.*
- *Syniadau newydd ar gyfer gweithgareddau i hybu'r Gymraeg.*
- *SUt mor pwysig i siarad yn Cymraeg efo plant yn yr ysgol.*
- *How important it is for children to be bilingual.*
- *Always to answer the children in Welsh.*
- *Information for supporting pupils with learning the Welsh language & apps to use.*
- *That it's important to encourage the learning of the Welsh language.*
- *That I need to be confident and not embarrassed to get it wrong.*
- *About bi-lingualism & the importance of giving children the opportunity to develop other skills.*
- *The importance of promoting the use of the Welsh language at work and with the pupils – and also for myself!*
- *Am yr urdd a beth sydd yn mynd ymlaen yn yr ardal.*
- *Bod dysgu Cymraeg mor pwysig l'r blant ni l cael chance yn y dyfodol.*
- *Mae mwi app am plant iengach yn yr app store.*
- *Mai hi yn bwysig siarad Cymraeg os rydych yn deallt yr iaith l rhoi yr cyfle ir plant bach yn ein wlad ni.*
- *How many different resources you can have to learn Welsh using songs, games, activities, etc.*
- *New resources that will help to develop the Welsh language.*
- *i fod yn amwybodol o'r iaith Cymraeg.*
- *fwy o fod yn ymwybodol o'r Gymraeg.*
- *Cadarnhau Negeseuon.*
- *Siarad Cymraeg efo plant sydd yn cael therapy iaith.*

### **Rhieni/Llywodraethwyr:**

- *Considering dominant language / media at home.*
- *Dyfyniad [gan Colin Baker] am godi hyder y rhiant i roi mynediad i'r iaith i'w plentyn a peidio beirniadu'r plentyn ar methiannau eich hun.*
- *Different resources to use in work and at home.*
- *The importance of teaching Welsh to children from a young age.*
- *Fod siarad Cymraeg yn gyfle cyfartal.*
- *To support this effort to reintroducing Welsh to our area that has mostly lost it.*
- *Speak more Welsh to our children even small things at first e.g Diod, Panad etc.*
- *Hearing the Welsh songs that I knew the words to, now translated into English.*
- *To download and use all the apps.*
- *Reading Welsh with my children.*
- *Playing games & ioga.*
- *Learnt about Apps.*
- *Aps Cymraeg.*

- *Cyfleoedd i annog y Gymraeg.*
- *Diddorol dysgu am brofiadau personol.*
- *Looking forward to more Welsh in school.*
- *Wedi dysgu llawer mwy am pwysigrwydd y iaith Gymraeg.*

### **Staff dysgu;**

- *Pwysigrwydd Cymraeg i blant mewn ysgol gynradd, hyd yn oed rhai sydd yn dod o gefndir di-Gymraeg.*
- *Manteision dwyieithrwydd (yn y tŷ ac yn y gweithle).*
- *Pwysigrwydd defnyddio Cymraeg o oed ifanc.*
- *Am apiau sydd ar gael.*
- *Manteision dwyieithrwydd.*
- *Cyfeiriad at adnoddau gwersi.*
- *Lle i gael mwy o wybodaeth i rieni.*
- *Darllen efo iPad.*
- *Fod agwedd staff yn bwysig.*
- *Am yr ymchwil a barn proffesiynol sydd ar gael.*
- *Fod y Genedl yn ffodus o gael iaith a diwylliant ein hun.*
- *Strategaethau ar gyfer rhieni yn y cartref/darllen ehangach.*
- *Sut i gyflwyno y Gymraeg.*
- *Pwysigrwydd dysgu Cymraeg i blant.*
- *Y nifer o rieni sydd eisiau ei plant i ddysgu Cymraeg.*
- *Y pŵer sydd gan yr iaith Gymraeg.*
- *Sut gall yr effaith gynyddu hyder plant/oedolion tra'n ei ddysgu.*
- *Fod dysgu mwy nag un iaith yn helpu plant/pobl i ddysgu.*
- *Fod rhwystro pobl/plant rhag dysgu'r iaith yn rhoi cam iddynt.*
- *Apiau fel ap selog.*
- *Fod siarad Cymraeg yn yr ysgol drwy'r amser yn helpu'r plant.*
- *Fod yn well sticio at un iaith yn hytrach na dweud pethau yn Gymraeg ac wedyn yn Saesneg neu droi i Saesneg.*
- *Pwysigrwydd gwthio'r iaith efo plant rhieni Saesneg.*
- *Pwysigrwydd trochi.*
- *Syniadau o ba apiau i ddefnyddio.*
- *Sut i gyflwyno'r apiau i rieni.*
- *Edrych ar yr apiau, a dysgu sut i'w trafod.*
- *Stori bersonol o drosglwyddo iaith mewn gwlad dramor.*
- *Pwysigrwydd parhad Uwchradd – pryderus.*
- *Faint o gymorth sydd ar gael yn ehangach.*
- *Defnyddio'r iaith Gymraeg efo rhieni.*

## Plant;

- *I learnt that is important to learn Welsh.*
- *That I am bilingual.*
- *I learnt it is important to speak Welsh.*
- *That Welsh is really important to me and other Welsh people, and friends.*
- *You can use 2 languages.*
- *That being bilingual is much better for you.*
- *That children and young people speak Welsh the most.*
- *That bilingualism has a great effect on the brain.*
- *I learnt with 2 languages you can do better.*
- *To speak more Welsh.*
- *Cymraeg yn pwysig.*
- *I learnt it's important to speak Welsh.*

## Ymatebydd 40 / Respondent 40

Sut ydyn ni'n creu'r reddf naturiol o "siarad babi" gyda'n plant? Oes modd edrych ar greu cynlluniau sydd yn hyfforddi'r rhiant i siarad babi gyda'u plant? Nid sesiynau canu ond sesiynau sydd yn disgrifio'n dechnegol yr hyn yr ydych yn ei wneud wrth siarad mewn ffordd benodol gyda'r babi? Mae'n gysyniad anarferol ond mae angen canfod ffordd o gynhyrchu'r reddf yma'n artiffisial

## Ymatebydd 41 / Respondent 41

- Efallai y byddai mwy o eglurder ar ddefnydd data ym meysydd eraill (pwynt 6 y camau gweithredu) o ddefnydd.
- Oes defnydd posib o ddata PLASC a gynhelir trwy ysgolion er mwyn gosod

## Ymatebydd 42 / Respondent 42

### Strategaeth Cymraeg 2050

Mae'r ddogfen yn nod bod tri cham gweithredu penodol i gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd o raglen waith *Cymraeg 2050* fel a ganlyn:

1. Datblygu polisi ar sail ymchwil a fydd yn arwain at sut i roi'r cymorth gorau i rieni
2. Adolygu '*Rhaglen Gymraeg i Blant*'
3. Cydweithio â'r GIG, e.e. bydwagedd ac ymwelwyr iechyd er mwyn rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo iaith

Yn ôl y ddogfen ymgynghori, bwriad y polisi hwn yw cefnogi cam cyntaf *Cymraeg 2050* er mwyn cynnig sail tystiolaeth ar gyfer datblygu rhaglen waith 10 mlynedd. Er ein bod yn croesawu cynlluniau o'r fath, mae'n codi cwestiynau ehangach ynghylch gweddill y rhaglen waith a'r cyfle i'w hymgorffori yn y polisi hwn. Er enghraifft, dylid ystyried yn ofalus:

- Pa mor effeithiol yw Cam 2 a 3?

- Ble mae'r dystiolaeth?
- I ba raddau y defnyddir y broses arfarnu i ddiweddarau'r rhaglenni hyn?
- Oni fyddai'n fwy effeithiol i gynnwys Cam 2 a 3 o fewn y polisi hwn, fel rhan o strategaeth gynhwysfawr ar drosglwyddiad a defnydd iaith mewn teuluoedd?

### **Camau gweithredu'r polisi**

Credwn fyddai'r polisi'n gryfach trwy ychwanegu'r camau gweithredu canlynol.

### **Datblygu strategaeth 10 mlynedd ar draws y Llywodraeth**

- Datblygu strategaeth draws-adrannol ar gyfer y Llywodraeth, fydd yn galluogi cydweithio ag adrannau eraill ar y camau maen nhw'n gallu cymryd i wella trosglwyddiad iaith a defnydd y Gymraeg, yn enwedig yr adrannau addysg a iechyd a gofal cymdeithasol.

### **Ystyriaeth o brofiadau gwahanol deuluoedd**

- Camau gweithredu pendant i gefnogi teuluoedd rhiant sengl, teuluoedd croenliw, teuluoedd ar incwm isel a theuluoedd sydd ddim yn siarad y Gymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. Datblygu gwaith ymchwil penodol i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu'r teuluoedd hyn a rhoi mesurau yn eu lle i'w galluogi i ddysgu, defnyddio, rhoddi a throsglwyddo'r Gymraeg.

## **1c. A ddylen ni gymryd trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r camau gweithredu hyn?**

### **1c. Should we take a different approach to some of these actions?**

#### **Ymatebydd 2 / Respondent 2**

**Cam gweithredu 1:** bydd angen sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu hyrwyddo gan weithwyr cyn-geni, yn ogystal a grwpiau a lleoliadau eraill. Nodwn fod y cynllun *Euskaraldia* yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni drwy ddefnydd y bathodynau Cymraeg. Argymhellwn ymgyrch genedlaethol yn hytrach na ymgyrch ar raddfa fechan. Mae'r cynllun yn debyg iawn i'r hyn mae Dydd Miwsig Cymru yn ei lwyddo i'w gyflawni.

#### **Ymatebydd 3 / Respondent 3**

Rydym o'r farn bod angen mwy o sylw ar gamau gweithredu 8 ac 11. Mae'n glir o'r ddogfen nid yw digon o gyn-ddisgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i'w plant ac mae'r ddogfen yn rhestru rhai o'r rhesymau am hynny. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi'n ddefnyddiol bod llawer o ymatebwyr yn cyfeirio at addysg cyfrwng Cymraeg yn hytrach na defnyddio'r Gymraeg yn y cartref gan beidio â gwerthfawrogi'n llwyr y cysylltiad rhwng y ddau beth.

Er byddem yn derbyn mai proses ymddygiadol yw trosglwyddo iaith yn y bôn, ni ellir anwybyddu effaith addysg statudol ar ymddygiad a chanfyddiadau cyn-ddisgyblion y gyfundrefn addysg. Er enghraifft, mae Adroddiad Blynyddol Estyn 2018-19 (T.50 Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr) yn nodi'n gadarn,

*Nid yw tua 20% o ddisgyblion sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn parhau i ddatblygu'u medrau Cymraeg i'w potensial llawn yn ystod eu cyfnod mewn addysg statudol, ac nid ydynt yn ennill cymhwyster TGAU mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Yn yr un modd, mae gormod o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd dwyieithog mewn lleiafrif o awdurdodau lleol nad ydynt yn derbyn digon o gyfleoedd i barhau i ddatblygu a chymhwyso'u medrau Cymraeg mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r ysgolion hyn yn cynllunio'n ddigon gofalus i ddatblygu medrau iaith disgyblion, gan gynnwys hyrwyddo manteision dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar dudalen 61, mae'r un adroddiad blynyddol yn datgan (addysg a hyfforddiant ôl-16), 'dywed rhyw draean o ddysgwyr mai dim ond gweddol hyderus yn llafar y maent ar y gorau, er iddynt ddilyn cyrsiau mewn Cymraeg neu fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.'*

Yn ogystal,

*'Yn adroddiadau arolygu Estyn ar ddarparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith, un argymhelliad cyffredin yn y blynyddoedd diwethaf fu gwella'r ffocws ar ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr fel medr cyflogadwyedd, ac annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu'u medrau iaith yn y gweithle. Ar draws y sector ôl-16, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi cysylltu buddion defnyddio'r Gymraeg â chyfleoedd cyflogaeth yn glir, er bod galw am gymhwysedd yn y Gymraeg mewn nifer o ranbarthau daearyddol a meysydd dysgu. O ganlyniad, mae'r term 'siaradwr Cymraeg rhugl' yn cwmpasu ystod eang o bobl ac oherwydd materion fel y rhai a amlygir uchod, nid yw nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg ystadegol yn siaradwyr gweithredol, hyderus. Nid ydynt yn ymwybodol o fuddion economaidd bod yn ddwyieithog. Mae ffactorau economaidd yn effeithio ar ganfyddiadau pobl o'r iaith Gymraeg a'r gwerth neu ddiffyg gwerth o'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mae angen mynd i'r afael â'r materion uchod, ond mae angen hefyd sicrhau bod modd targedu y siaradwyr hyn drwy raglen o ymyraethau a gwersi i'w troi'n siaradwyr gweithredol yn hytrach na siaradwyr 'goddefol'. Bydd angen sicrhau adnoddau digonol i weithredu camau 8 ac 11 yn effeithiol.'*

We believe that more attention should be given to actions 8 and 11. It is clear from the document that not enough former pupils of Welsh-medium schools transmit the language to their children, and the document lists some of the reasons for this. The document also identifies usefully that many respondents refer to Welsh-medium education rather than using the Welsh language at home, and fail to appreciate the link between the two. Although we would accept that language transmission is essentially a behavioural process, the effect of statutory education on the behaviour and perceptions of former pupils of the education system cannot be ignored. For example, Estyn's Annual Report 2018-19 (p.49 Cymraeg 2050: A Million Welsh Speakers) identifies firmly,

*'Around 20% of pupils who are in Welsh-medium education at the end of the foundation phase do not continue to develop their Welsh language skills to their full potential during their time in statutory education and do not gain a GCSE qualification in Welsh (first language) at the end of key stage 4. Similarly, too many pupils in bilingual secondary schools in a minority of local authorities do not receive enough opportunities to continue to develop and apply their Welsh language skills in subjects across the curriculum. These schools do not plan carefully enough to develop pupils' language skills, including promoting the advantages of pursuing courses through the medium of Welsh.'*

On page 60, the same annual report states (post-16 education and training),  
*'around a third of learners say that they are only fairly confident orally at best, despite following courses in Welsh or having attended Welsh-medium schools.'*

In addition,

*'In Estyn's inspection reports on further education and work-based learning providers, a common recommendation in recent years has been to improve the focus on developing learners' Welsh language skills as an employability skill and to encourage learners to use and develop their language skills in the workplace. Across the post-16 sector, leaders and managers have not clearly linked the benefits of using the Welsh language to employment opportunities, despite competence in the Welsh language being in demand in a number of geographical regions and learning areas.'*

As a result, the term 'fluent Welsh speaker' encompasses a wide range of people and, due to issues such as those identified above, a significant number of statistical Welsh speakers are not active, confident speakers. They are not aware of the economic benefits of being bilingual. Economic factors affect people's perceptions of the Welsh language and the value, or lack thereof, of its transmission to the next generation. The above issues need to be addressed, but it also needs to be ensured that there is a way to target these speakers through a programme of interventions and lessons, so that they become active speakers rather than 'passive' speakers. Adequate resources will need to be ensured to implement actions 8 and 11 effectively.

### **Ymatebydd 5 / Respondent 5**

Do not force the Welsh language on those indigenous people who DO NOT WANT TO LEARN

### **Ymatebydd 7 / Respondent 7**

I believe that a ground up approach - one that identifies what services for families are already in communities, what each are doing in supporting the language, and what scope there is for this to increase - is vital. Everyone in Wales can say something in Welsh (even me, despite being quite hopeless at languages) so building some Welsh into these existing



services could go a long way towards fulfilling the aims of increasing language use, confidence and transmission.

### **Ymatebydd 8 / Respondent 8**

Defend existing Welsh speakers.

### **Ymatebydd 9 / Respondent 9**

Yes. On all actions that promote increasing the numbers of Welsh learners, or on spending taxpayers' money to promote the Welsh language. You need to take the exact opposite approach, and refuse to kowtow to the vocal minority of Plaid voters and Welsh nationalists. Stop promoting a dying language, stop spending the money of an impoverished nation which needs urgent investment in medical, educational and transportation infrastructure, as you are wasting it on the linguistic folly of those who understand neither international economics nor diplomacy.

### **Ymatebydd 10 / Respondent 10**

Yes, more pre natal awareness on benefits of bilingual before discussions surrounding education are considered.

### **Ymatebydd 11 / Respondent 11**

Rydyn ni'n cytuno bod angen cyngor ar deuluoedd (3+4). Mae genym ni 'Ganllaw Gwaith Cartref' newydd sy'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i helpu gyda'r gwaith cartref pan nad ydych yn siarad Cymraeg gartref, ond mae yna le i wneud un i rieni sydd yn siarad Cymraeg gartref hefyd - sut i helpu atgyfnerthu sgiliau Cymraeg y plant gartref. Ma na botensial o fewn prosiectau eraill hefyd - Dechrau'n Deg, Cyngor i deuluoedd, cynnig gofal i drosglwyddo cyngor a gwybodaeth am fagu plant yn ddwyieithog.

- Rydyn ni'n cytuno bod hwn yn faes lle mae angen arbrofi ar ymyraethau ar raddfa fach, daearyddol benodol neu sefyllfa gymdeithasol benodol i weld os allwn ni newid arferion (5).

- Rydyn ni hefyd yn cytuno bod angen edrych ar waith newid ymddygiad mewn meysydd erail, fel yr amgylchedd a'r delweddau plastig diweddar i weld beth sy'n llwyddo codi ymwybyddiaeth a newid agweddau (6).

- Rydyn ni'n cytuno gyda 7 a 8. Mae gwaith i'w wneud ar ddatblygu cymorth a thrafodaeth ar-lein (9) ond efallai y dylai gael naws mwy lleol fel bod modd rhoi cyngor am ddarpariaethau lleol i atgyfnerthu magu plant yn ddwyieithog - gweithgareddau all-gyrsiol Cymraeg ayb..

- Mae 10 yn hollbwysig, er ei fod yn anodd dylanwadu o'r tu allan ar rwydweithiau anffurfiol. Bydd angen mwy o ymchwil i weld beth sy'n gweithio i ddysgwyr/siaradawyr llai hyderus fan hyn. (Gweler fideo Val Humphreys er enghraifft).

- Rydyn ni'n ystyried 11 a 12 yn hollbwysig.

- Mae casglu mwy o ddealltwriaeth (15-20 yn bwysig, a chasglu arfer da fesul ardal hefyd i roi portffolio o ddylanwadau cadarnhaol at ei glydd).

- Efallai byddai nfer o fyrddau rhaglen mwy rhanbarthol yn gweithredu'n well yn y maes hwn gan fod y tueddiadau fesul ardal yn eithaf gwahanol.

### Ymatebydd 12 / Respondent 12

Byddai'n bwysig asesu wrth i amser fynd rhagddo, a bod yn barod i addasu'r cynlluniau os oes angen. Rydym yn nodi isod rhai o'r dulliau y credwn y gall y Ganolfan, ac adnoddau'r Ganolfan gefnogi'r bwriadau polisi. Rydym wedi hepgor ymateb i rai camau sydd ddim mor berthnasol i ni:

Camau gweithredu	Cyfraniad y Ganolfan
1. Byddwn ni'n treialu rhaglen adduned defnydd iaith wedi'i haddasu o brosiect Basgeg o'r enw <i>Euskalaradia</i> (mae prawf bod y prosiect hwn wedi cynyddu'r defnydd o'r Fasgeg). Byddwn ni'n dechrau ar raddfa fechan gyda rhieni/gofalwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol. Byddwn ni'n dysgu o'r cam cyntaf gyda'r bwriad o'i ehangu y tu hwnt i rwydweithiau teuluol.	Mae'n bosibl y gallem adnabod pobl i gymryd rhan yn y peilot, unai drwy ein rhwydwaith o ddarparwyr, neu drwy ein cydweithio gyda Meithrin ar Clwb Cwtsh. Tynnwyd rhywfaint ar y math yma o dechnegau i ddatblygu prosiect Hyder Prifysgol Bangor.
2. Byddwn ni'n creu prosiectau newydd gan adeiladu ar ein gwaith cyfredol i gefnogi trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Byddan nhw'n defnyddio'r datblygiadau gwyddonol diweddaraf i newid ymddygiad. Byddan nhw'n cefnogi pobl a fydd, efallai, heb ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ers ysgol i siarad Cymraeg gyda'u plant. Mae'n bosibl y byddwn ni'n seilio'r rhain ar anghenion ardaloedd daearyddol penodol, cynulleidfaoedd targed a/neu rwydweithiau cymdeithasol rhieni/gofalwyr (yn rhai wyneb yn wyneb neu rithwir).	Rydym eisoes wedi rhannu gwybodaeth am ein prosiect peilot a ddigwyddodd yn ardal Bangor. Bydd gwybodaeth ar gael o fewn rhai misoedd ar ein prosiect 'codi hyder' ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru. Rhwng y ddau brosiect, mae'n bosibl iawn y bydd cefndir defnyddiol i chi ar gyfer y gwaith yma.
3. Byddwn ni'n rhoi cyngor a/neu dechnegau ymarferol i deuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg ar sut i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ym mhob math o sefyllfa deuluol e.e. yn y car, yn ystod amser bwyd gartref ac ati.	Mae'r math yma o gynnwys yn cael ei ymgorffori oddi fewn i rhai o'n cyrsiau dysgu Cymraeg – yn sicr y cyrsiau newydd 'Cymraeg yn y Cartref'. Byddai modd i ni greu 'gwersi' o gwmpas y technegau/themâu hefyd maes o law. Byddem yn falch o ymgorffori unrhyw gyngor penodol sydd gennych.
4. Byddwn ni'n sicrhau bod cyngor ar gael i rieni/gofalwyr ar yr hyn y gallan nhw ei wneud pan fydd eu plant yn ddihyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg neu efallai yn amharod	Eto, byddai modd defnyddio ein rhwydweithiau i rannu'r cyngor hwn.

i'w defnyddio am resymau eraill.	
5. Byddwn ni'n dadansoddi sut rydym yn cyfathrebu â theuluoedd ynglŷn â'u defnydd o'r Gymraeg er mwyn gwella effaith ein gwaith cyfredol a'n gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn. Byddai hyn yn gallu cynnwys ystyried pa dulliau rydyn ni'n eu defnyddio a'r sut maen nhw'n cael eu defnyddio yn ogystal â'n negeseuon ni a'n rhanddeiliaid i rieni/gofalwyr. Ond nid mater o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr yn unig yw hyn— byddwn ni hefyd yn chwilio am gyfleoedd i sefydlu dulliau i rieni/gofalwyr gefnogi ei gilydd.	Byddem yn falch o dderbyn arweiniad pellach ar hyn, yn arbennig ar gyfer y teuluoedd fydd yn manteisio ar y cyrsiau 'Cymraeg yn y Cartref', ond hefyd gall fod yn berthnasol i ganran eang o ddysgwyr sy'n derbyn hyfforddiant.
6. Byddwn ni'n edrych ar waith a wnaed gyda theuluoedd mewn meysydd eraill. Os yw'n briodol, byddwn ni'n addasu'r gwaith hwnnw i helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant.	Unwaith eto, os oes ymchwil neu arferion da perthnasol, byddem yn falch o'u derbyn er mwyn gallu ymgorffori i'n gwaith ni.
8. Byddwn ni'n defnyddio'r cyfleoedd mae'r gweithle yn eu cynnig ar gyfer ailgynnau defnydd pobl o'r Gymraeg. Byddwn ni'n archwilio pa botensial sydd yna i ddefnydd cynyddol o'r Gymraeg yn y gweithle orlifo i ddefnydd yn y teulu.	Fel gwyddoch, mae'r gyllideb ar gyfer 2020-2021 wedi ei leihau – ond serch hynny, mae cynllun Cymraeg Gwaith yn ei le ar gyfer y flwyddyn, ac yn ogystal â dysgu'r Gymraeg, nod y cynllun yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, a chynyddu capasiti gweithleoedd i gynnig gwasanaethau'n Gymraeg. Ni fydd y canlyniadau yn dod i'r amlwg yn syth, ond serch hynny mae gwerthusiadau'r Ganolfan yn dangos twf mewn hyder wrth i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg mewn Gweithleoedd. Byddem yn tybio hefyd bod cysylltiad rhwng hyn a defnydd teuluol, a byddem yn falch iawn o drafod hyn ymhellach gyda chi.
9. Byddwn ni'n datblygu presenoldeb ar-lein i gynorthwyo rhieni/gofalwyr a allai, ond am ba reswm bynnag, beidio â siarad Cymraeg gyda'u plant. Byddai hyn yn gallu golygu helpu rhieni sydd heb unrhyw brofiad personol o fagu plentyn yn ddwyieithog i wneud hynny (e.e. eu helpu i ddeall sut yn union mae siarad Cymraeg gyda phlentyn).	Byddem yn falch o drafod sut allem groes-hyrwyddo'r presenoldeb newydd gyda'n platfform dysgu digidol ni.
10. Byddwn ni'n creu prosiectau i ddefnyddio rhwydweithiau rhieni/gofalwyr o amgylch ysgolion i helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant.	Mae'n debygol iawn y byddai rhai o'n dysgwyr rhugl yn awyddus i fod yn rhan o'r rhwydweithiau hyn.

<p>11. Byddwn ni'n sicrhau bod cyrsiau Cymraeg i oedolion yn atgyfnerthu nodau'r polisi drafft hwn, ac yn edrych ar ddulliau o ddatblygu'r sgiliau penodol sy'n angenrheidiol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlentyn. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i rieni a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ond a fagwyd mewn cartrefi di-Gymraeg.</p>	<p>Byddem yn hapus iawn i drafod hyn mewn manylder, ac rydym wrthi yn gweithio ar gynnwys ein cyrsiau newydd 'Cymraeg yn y Cartref'. Mae ail gymal y cam gweithredu yma yn gofyn am dargedu/datblygu math newydd o wersi o bosibl.</p>
<p>12. Byddwn ni'n ymchwilio i'r cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig i helpu plant i chwarae yn Gymraeg a sut y gall hynny yn ei dro gynnig cyfleoedd i helpu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd.</p>	<p>Mae hwn yn destun diddorol yr hoffem glywed mwy amdano.</p>
<p>13. Byddwn ni'n adolygu ein gwaith cyfredol ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd a sicrhau ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r gwyddorau ymddygiadol. Byddwn ni'n defnyddio TLA (profi, dysgu, addasu) yn strwythur ar gyfer hyn. Ac os na fydd yn gweithio, byddwn ni'n ei addasu, neu'n dod o hyd i ffordd well o helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg.</p>	<p>Credwn fod hyn yn arfer dda. Rydym wedi sefydlu'r arfer o beilota ein holl adnoddau dysgu dros y 4 blynedd diwethaf, ac mae hynny wedi talu ar ei ganfed, gan gasglu barn tiwtoriaid a dysgwyr ar bob cam o'r ffordd.</p>
<p>14. Byddwn ni'n edrych ar dechnegau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill i ddatblygu pendantrwydd a hyder pobl wrth ddefnyddio ieithoedd a, lle y gallwn, byddwn ni'n eu plethu i'n holl waith gyda theuluoedd.</p>	<p>Byddai diddordeb gennym gyfrannu i'r gwaith hwn.</p>
<p>21. Byddwn ni'n sefydlu bwrdd rhaglen er mwyn rheoli'r gwaith hwn. Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid eraill arno i'n cynghori, i'n cynorthwyo ac i'n herio.</p>	<p>Byddai diddordeb gan y Ganolfan i fod yn rhan o'r Bwrdd Rhaglen</p>

### **Ymatebydd 13 / Respondent 13**

Cytunwn fod y ddogfen yn adnabod y meysydd allweddol. O ddatblygu'r argymhellion ymhellach, hyderwn y bydd modd taro'r cydbwysedd priodol rhwng gwaith ymchwil, cydweithio a datblygu cynlluniau a phrosiectau.

Fel y nodwyd eisoes, yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd angen cynllun a chymau gweithredu cadarnach. O wneud hynny, amlygir y cysylltiadau rhwng y gwahanol elfennau o gasglu gwybodaeth, ymchwil, cynllunio strategol a gweithredu cadarn. Byddwn yn derbyn, wrth gwrs, angenrheidrwydd hyblygrwydd wrth dreialu a datblygu gweithgareddau arloesol, ond wedi dweud hynny, bydd angen strategaeth gydlynus gadarn a rhaglen waith fanwl ar gyfer gwaith mor amlweddog.

### **ymatebydd 14 / Respondent 14**

Mae angen ystyried a oes gormod o strategaethau'n cael eu cyflwyno ar yr un pryd? Mae angen ystyried hefyd sut mae targedu i wella'r canlyniadau a ddisgwyllir yn fwy clir e.e yr elfen o hyfforddiant a datblygu sgiliau'r gweithlu fydd yn cefnogi arferion da o fewn y cartref. Pa fath o hyfforddiant a sut y bydd yn cael ei gyflwyno?

Efallai y dylid ymestyn oedran y plant y canolbwyntia'r ymchwil arno hyd at bump oed, yn hytrach na dim ond tair a phedair oed? Mae arferion da'n bodoli o fewn sefydliadau addysgol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd iaith, y gellir bod yn eu cyflwyno mewn sefydliadau megis meithrinfeydd ac ati cyn i'r plant gyrraedd yr oedran statudol i gychwyn eu haddysg yn llawn amser.

### **Ymatebydd 16 / Respondent 16**

**Cam gweithredu 1:** bydd angen sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu hyrwyddo gan weithwyr cyn-geni, yn ogystal a grwpiau a lleoliadau eraill. Nodwn fod y cynllun *Euskaraldia* yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei gyflawni drwy ddefnydd y bathodynau Cymraeg. Argymhellwn ymgyrch genedlaethol yn hytrach na ymgyrch ar raddfa fechan. Mae'r cynllun yn debyg iawn i'r hyn mae Dydd Miwsig Cymru yn ei lwyddo i'w gyflawni.

### **Ymatebydd 17 / Respondent 17**

Dylech, byddai adran ar wahân yn y ddogfen sy'n edrych ar ddolenni i strategaethau eraill a sut mae'r rhain yn cynorthwyo'r uchelgais gyffredinol yn ddefnyddiol.

Yes, a separate section of the document looking at links to other strategies and how these aid the overall ambition would be useful.

### **Ymatebydd 18 / Respondent 18**

We are pleased to see that the principles that have guided the draft Policy recognise the diversity of families- lone parents, same sex, parents etc. It would also be beneficial to acknowledge that some Welsh speaking parents, for differing reasons, may choose not to send their children to Welsh medium schools or English medium state schools in Wales. For example, children of serving, Welsh speaking officers in the Armed Forces may be living and educated overseas. The policy should ensure any research and initiatives reach out to and take into account different patterns of family life.

We are also pleased to see that the draft policy recognises that different approaches may be needed in different geographical areas where access to services may differ and the Welsh language skills of the local community vary.

We welcome the whole community approach to the draft policy e.g, We'll use all the possibilities the workplace offers for reigniting people's use of Welsh. Although schools are the main thrust of Flintshire's Welsh in Education Strategic Plan the role of the wider community is vital. For children and their parents to see a value to speaking Welsh. For home life to be enriched by speaking Welsh.

In our opinion the role of employers/businesses needs to have a stronger presence.

#### **Ymatebydd 19 / Respondent 19**

Maybe.

I am looking at from far away and surely I have a biased sight, but I have missed an organizational approach. How we want to set up this project is a key factor, therefore it could be interesting to embed it (maybe it already is).

#### **Ymatebydd 20 / Respondent 20**

Dylid ceisio blaenoriaethu rhai o'r camau gweithredu ac efallai rhoi'r pwyslais ar ddatblygu'r ddealltwriaeth cyn mynd ati i weithredu a cheisio newid arferion. Mae llawer yn dal i'w ddeall am resymau pobl am beidio a throsglwyddo a sut y gellir dylanwadu ar hynny, ac mae blaenoriaethu gwaith ymchwil swmpus yn y maes yn allweddol i hynny.

Dylid hefyd ystyried sut y mae adnoddau o fewn y gymuned yn cael eu defnyddio er mwyn cyrraedd rhai o'r nodau.

Os gellir ymestyn yr oedran a cwmpasir a chynnwys plant hyd at bump oed ad edrych ar gaffael iaith yn ei gyfanrwydd ac nid trosglwyddo o fewn y cartref yn unig, byddai hefyd yn fodd o fanteisio ar ac i ddysgu o'r arferion da mewn sefydliadau addysgol a lleoliadau cymunedol eraill.

#### **Ymatebydd 21 / Respondent 21**

A consistent approach should be taken to support parents for who Welsh is not their first language and are trying to support their children with Welsh language homework / reading books sent home by schools. Consideration to the support given to parents will mean they feel an increased confidence to use the Welsh language with their children. Alongside this use of technology and social media will also engage parents, children and young people to increase their use of the Welsh language.

## **Ymatebydd 22 / Respondent 22**

Yn ein profiad ni, mae gwaith partneriaeth a gweithio trwy ddulliau cyfranogol yn cyfoethogi'r broses a'r canlyniad. Gweler enghreifftiau diweddar gan gynnwys project *Dippy ar Daith* gydag Amgueddfa Hanes Natur Llundain (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd) a phroject ailddatblygu Sain Ffagan. I'r perwyl hwnnw byddem yn annog cynnwys dulliau cyfranogol mewn agweddau ar y gwaith hwn.

Gall gynnwys gweithio gyda chyrff fel Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cymraeg Campus a'r Siarter Iaith, a gweithio gyda grwpiau cymunedol ac elusennau neu hyd yn oed unigolion o fewn y gymuned.

At hynny hefyd, gellid ychwanegu'r dimensiwn lleol pwysig sy'n lliwio'r cydweithio ac yn rhan bwysig o'r canlyniad, er enghraifft mae ein hamgueddfeydd unigol yn gweithio gydag ysgolion lleol ar rai projectau gan fod amrywiaeth o ffactorau lleol yn gallu dylanwadu ar lwyddiant projectau lleol a chenedlaethol.

## **Ymatebydd 25 / Respondent 25**

Don't do it

## **Ymatebydd 26 / Respondent 26**

Do nothing

## **Ymatebydd 27 / Respondent 27**

Yng nghyd-destun y nod o ysbrydoli plant ysgol i ddefnyddio'r iaith gyda'u plant hwy yn y dyfodol awgrymwyn y gellir trafod trosglwyddiad iaith gyda disgyblion ysgol fel rhan o raglen ddinasyddiaeth uwchradd. Mae cynnig rhaglen o hyfforddiant dwys i gynifer o athrawon uwchradd a phosib ar yr elfennau yma i sicrhau eu bod yn trosglwyddo negeseuon allweddol i ddisgyblion uwchradd yn holl bwysig. Mae cyfle o fewn Cwricwlwm i Gymru (o ran Meysydd Dysgu a Phrofiad 'Y Dyniaethau' a 'leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu') i ddylunio cwricwlwm fyddai'n hwyluso hynny.

Mae angen i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol atgyfnerthu y cynllun i helpu rheini newydd ddatblygu eu sgiliau iaith, ei gwneud yn hawdd iddynt ddysgu'r iaith neu eu helpu i godi hyder yn eu sgiliau iaith os ydynt wedi colli defnydd bob dydd o'r iaith. Mae modd gwneud hyn ar y cyd gyda cynlluniau fel Cymraeg i Blant, cyn belled a bod modd sicrhau digon o nawdd a hyfforddiant i gyflawni'r nod yn llawn

## **Ymatebydd 28 / Respondent 28**

What you have suggested is great but too limited

### **Ymatebydd 29 / Respondent 29**

Ensure that all signs, notices and place names are in English and Welsh. Obviously precedence be aimed to reflect the current needs of majorities as apposed to prejudice of "OUR" AMs.

### **Ymatebydd 30 / Respondent 30**

Dim sylwad

### **Ymatebydd 31 / Respondent 31**

No

### **Ymatebydd 32 / Respondent 32**

Stop doing all the actions and let the language thrive as a language of culture but it is unrealistic to expect it to be a language of business or commerce when we have mass immigration, global links and the only folk who speak it are in this country and some Patagonians who I can converse with in Spanish.

### **Ymatebydd 33 / Respondent 33**

We already work closely with schools which targets the children but perhaps workplaces and employers should be involved.

### **Ymatebydd 34 / Respondent 34**

Euskaraldia is a very interesting initiative, and I wonder if you could start in Cymraeg breathing spaces first, for example, in geographically Cymraeg speaking areas (i.e. Gwynedd) or culturally Cymraeg speaking areas (e.g. a very committed school playground, certain bars, etc.).

The concept of "arigunea" in the second edition of Euskaraldia seems key to me, which means that active spaces of language use should be created/promoted before-hand. (<https://euskaraldia.eus/ariguneak/>)

### **Ymatebydd 35 / Respondent 35**

I do not believe so.

### **Ymatebydd 36 / Respondent 36**

More insight into why welsh language is not being transmitted within families. More



research into welsh language development and norms and the best practice for supporting Welsh language learning and use.

### **Ymatebydd 37 / Respondent 37**

Fel sydd wedi'i nodi uchod, fe fyddem ni yn dymuno bod amryw o'r camau gweithredu yn fwy penodol ac yn osgoi ymrwymadau cyffredinol ac amwys. Byddem hefyd yn dymuno gweld camau gweithredu sy'n cyfeirio yn benodol at gynnal a datblygu'r prosiectau a rhaglenni sydd eisoes yn cyfrannu yn sylweddol at amcanion y polisi drafft hwn.

Nid yw'r polisi drafft yn cynnig amserlen ar gyfer unrhyw un o'r camau gweithredu a does dim manylder ynglŷn a sut bydd y Llywodraeth yn mesur cyflawniad y camau gweithredu. Ymhellach na hyn, byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth ynglŷn a'r cyllid sydd ar gael er mwyn gweithredu'r polisi hwn.

As noted above, we would like several of the actions to be more specific and avoid general and ambiguous commitments. We would also like to see actions which refer specifically to maintaining and developing the projects and programmes which already contribute significantly to the objectives of this draft policy.

### **Ymatebydd 38 / Respondent 38**

Hoffai Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd wneud y pwyntiau canlynol, i'w cynnwys yn y camau gweithredol a amlygwyd yn yr ymgynghoriad neu i'w cynnwys fel pwyntiau gweithredu ychwanegol:

- Pwyslais ar ddealltwriaeth o bwysigrwydd 'trochi', i rieni ac i ymarferwyr (CG 3, 4, 7)
- Camau penodol i dargedu darpar rieni er mwyn sicrhau ymyrraeth effeithiol ar y cyfnod pwysicach o ran trosglwyddo iaith teulu.
- Cynnig gwersi 'Cymraeg i'r teulu' di-dâl i rieni newydd, dyweder yn y 6 mis cyntaf.
- Adnabod difreintedd penodol ardaloedd Gogledd Orllewin Môn a'r modd gall mynediad di-dâl at y Gymraeg gyfrannu at daclo difreintedd yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd trosglwyddo iaith.
- Sicrhau cysondeb y neges. Crynodeb o'r ymchwil ddiweddaraf ar fanteision trochi Cymraeg a dwyieithrwydd, ar ffurf pwyntiau bwled syml. Sicrhau fod yr adnodd yn cael ei ddefnyddio gyda rhieni gan holl ymarferwyr ieuchyd, gofal plant, blynyddoedd cynnar ag addysg.
- Sicrhau fod adrannau eraill y Llywodraeth sy'n ymwneud â theuluoedd yn adlewyrchu blaenoriaethau trosglwyddo iaith a pholisïau Cymraeg 2050, ee Iechyd, Addysg a Lles.

### **Ymatebydd 39 / Respondent 39**

Dim trywydd gwahanol ond a ganlyn gweler sylwadau a rhai awgrymiadau pellach:

CG1 –

Datblygiad cyffrous, edrychwn ymlaen at ddysgu mwy ac i weld ei dreialu. Mawr obeithiwn caiff Môn/y gymuned o amgylch Ysbyty Gwynedd fod yn rhan o unrhyw gynllun peilot.

#### CG2 –

Da gweld y pwyslais ar ‘anghenion ardaloedd daearyddol penodol’ gan ein bod yn daer am yr angen am sylw i Gaergybi/Gorllewin Môn fel ardal ag anghenion ieithyddol unigryw i Gymru oherwydd ei daearyddiaeth ar ynys ddwyieithog.

#### CG3 –

Dylid casglu a rhannu'r adnoddau yma i sicrhau defnydd gan yr holl asiantaethau sy'n ymdrin â theuluoedd gan gynnwys tlodi a/neu yn hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd. Bydd angen cynllunio i'w diweddarau a'u cadw'n gyfredol hefyd. Mae ein profiad o gynnal rhwydwaith anffurfiol o rannu gwybodaeth ac adnoddau Cymraeg i rieni yn ystod y cyfnod clo, ar gyfryngau cymdeithasol drwy adnodd Selog, wedi dangos ystod yr adnoddau sydd ar gael i'w rhannu ac amllder y newidiadau.

#### CG4 –

Mae hwn yn gam pwysig, ac yn adlewyrchu peth o'n gwaith ni fel menter iaith. Rydym felly yn awyddus i ddeall mwy am fformat y cyngor. O brofiad gwyddwn fod un-i-un fwyaf effeithiol gan ymateb i anghenion yr unigolyn, yn ogystal fod hygredd y cynghorwyr, o ran profiad trosglwyddo iaith, hefyd yn ddylanwadol.

#### CG5 –

Mae hwn eisoes yn gam gweithredu aml-haenog yn trafod dadansoddi cyfathrebu, dulliau, yn ogystal â sefydlu rhwydweithiau rhieni i ddylanwadu. Rydym felly eisoes wedi awgrymu y dylid edrych ar y 'neges' fel cam gweithredu ar wahân. Deall pam, a'r anfantais o beidio trosglwyddo iaith, yw'r symbyliad yn aml i'r rhiant wneud yr ymdrech ychwanegol sydd ei angen. Felly mae deall sut orau i drosglwyddo neges sensitif yn gam gweithredu pwysig hefyd.

#### CG6 –

Da gweld y bwriad i ymgorffori gwaith teuluoedd mewn meysydd eraill. Ystyriwn ein gwaith gydag lechyd a Chwaraeon yn ddau fodel gwerth ystyried. Hoffwn rannu fod ein profiad o gydweithio â'r Urdd ar weithgareddau chwaraeon wedi cyflawni dwy nod, caniatáu i'r Urdd gyrraedd teuluoedd anhraddodiadol, a chaniatáu i ni fel menter iaith i fynd â neges trosglwyddo iaith a throchi i ganran llawer uwch o ddynion nag arfer. Dengys yr ymchwil 'Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd 2017' sy'n greiddiol i'ch polisi fod trosglwyddo iaith gan ddynion yn her benodol. Awgrymwn felly y byddai cydweithio yn agos â Chwaraeon Cymru/ yr Urdd i sicrhau canran uwch o ddigwyddiadau Cymraeg, yn gyfle da i ddynion weld sut mae plant yn goroesi a mwynhau mewn awyrgylch trochi Cymraeg. Dyma fu canlyniad ein sesiynau athletau yng Nghaergybi 2017. Roedd cofrestru yn amodol ar riant/ofalydd yn aros i wyllo, cynlluniwyd ar gyfer 30 o blant, cofrestrodd 70, y mwyafrif o gartrefi di-Gymraeg. Ag eto o weld eu plant yn mwynhau wrth gael eu trochi mewn sesiwn Gymraeg, yn yr adborth roedd 100% wedi nodi fod y gweithgaredd yn cyfrannu at godi hyder a defnydd y Gymraeg i'r plant, a chyfrannu at ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned, gyda 96% yn mynegi yr hoffent i'w plant fod yn medru siarad Cymraeg pan yn 16 oed. Ers hyn rydym wedi cynnal cyfleoedd tebyg mewn ardaloedd eraill ym Môn, i oed iau 2 ½ - 7, a

chanfod yn yr un modd fod gan chwaraeon gyfraniad pwysig i **ddenu tadau** i weithgareddau teulu ac i alluogi rhieni/darpar rieni weld trochi Cymraeg ar waith a medruswydd plant i ymdopi'n ieithyddol.

#### CG7 –

Yn gysylltiedig â'r CG yma, rydym eisoes wedi crybwyll yr angen i wneud ymwybyddiaeth i deuluoedd o fanteision dwyieithrwydd a dulliau 'Trochi' yn bwynt gweithredu ar wahân. Fodd bynnag derbyniwn adborth yn gyson ar draws y sector addysg/Cymraeg fod angen diweddar/atgoffa rhai ymarferwyr addysg/gofal o ddulliau trochi hefyd. Derbyniwn y negeseuon am hyn drwy ein Fforwm Iaith ym Môn ond bu hefyd ffocws rhanbarthol arno drwy Dîm Prosiect Blynyddoedd Cynnar Gogledd Cymru a drefnwyd gan GwE. Mae gan ymledu hyfforddiant 'Croesi'r Bont' y Mudiad Meithrin gyfraniad pwysig i wneud yn hyn o beth. Fodd bynnag oherwydd bod costau yn gysylltiedig â'r rhaglen, cyfyngir y defnydd o'r ddarpariaeth gan awdurdodau lleol.

O ran CG7 yn benodol, mae adnoddau chwarae iard, megis y rhai yr ydym wedi datblygu drwy hyfforddiant i ysgolion, a drwy ap Selog, yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, canfûm fod y plant yn y cynghorau ysgol yn barod iawn i dreialu ond fod angen buddsoddiad mewn hyfforddiant cymorthyddion ar yr iard i fod yn annog ac yn cynnal y chwarae.

#### CG8 –

Cam arall i'w groesawu. Rydym yn flaenrol wedi esbonio pam dylid ystyried cyfle dysgu/codi hyder rhieni ar famolaeth/tadolaeth fel cam gweithredu ar wahân. Mae yma hefyd le i edrych ar agweddau mynediad at y Gymraeg yn y gweithle. 'Y Gymraeg yn y gweithle (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2018 i Mawrth 2019': "Y bobl â chyflogau cyn treth o £31,100 i £41,499 oedd y mwyaf tebygol i nodi bod eu cyflogwr wedi cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. 20% yw'r data ar gyfer rhai sy'n ennill llai na £10,400." Felly mae angen rhaglen sy'n sensitif i anfantais a mynediad at y Gymraeg mewn swyddi sy'n talu llai.

Yn ogystal, i helpu truch y boblogaeth gyda'r diffiniad o Gymraeg sy' 'ddim digon da', efallai mai drwy'r hyfforddiant yn y gweithlu mae modd codi ymwybyddiaeth o ymarferiad diagnostig 5 lefel o allu, sy'n rhoi diffiniad mwy defnyddiol iddynt o allu yn hytrach nag anallu. Ond yn rhan o'r un broses byddai hefyd modd cyfleu nad oes y fath beth a 'dim digon da' wrth gyflwyno'r Gymraeg adref i blant.

#### CG9 –

Rydym yn awyddus i ddeall mwy am y datblygiad cadarnhaol yma. Bydd yn hynod o ddefnyddiol os yw yn cynnig sylw un-i-un, yn ogystal â chynnig y casgliad o adnoddau/cyngor a ddarparwyd yn CG3. Mae hefyd yn ymddangos fel cam gweithredu â chyswllt agos iawn i CG4.

#### CG10 –

Mae hwn hefyd yn ddatblygiad cyffrous, a chyda cyfuniad ieithyddol rhieni Môn, awgrymwn fod yr ynys yn lleoliad da i gynnal un o'r prosiectau. Mae'n siŵr y byddwch yn awyddus i gynnwys rhieni o gefndiroedd ieithyddol gwahanol i Saesneg a Chymraeg ar gyfer y prosiectau hyn hefyd.

## CG11 –

Croesawn y cam yma sy'n ategu'r galw am ddysgu tu hwnt i ddarpariaeth gyfredol Clwb Cwtsh, er mwyn symud ymlaen ar y llwybr dysgu Cymraeg, ond i berthnasu'r dysgu i drosglwyddo iaith yn y teulu. Rydym eisoes wedi gwneud apêl i ystyried rhieni ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth fel grŵp targed uchel. Yn ogystal mewn ardaloedd o ddifreintedd, megis Caergybi, byddwn yn apelio am drefniant, efallai drwy grantiau taclo tlodi, i sicrhau fod y ddarpariaeth yn ddi-dâl. Byddwn yn gweld cyfle i gefnogi'r CG yma drwy weithgareddau cymunedol y mentrau iaith. Bu eisoes gydweithio ar ddiwyddiadau rhwng Menter Iaith Môn a Dysgu Cymraeg i godi proffil dysgu'r iaith mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, ac i adlewyrchu'r hwyl a'r gefnogaeth sydd i gael i deuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

## CG12 –

Hollbwysig. Mae llwyddiant apiau megis Magi Ann a Selog gan y mentrau iaith yn dangos y galw am adnoddau i helpu rhieni i gefnogi eu plant yn y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'n bwysig cydnabod dylanwad cartwnau ar y plant lleiaf a gemau cyfrifiadurol ar y plant hŷn o ran dewisiadau iaith cyd-chwarae. Hoffwn grybwyll dau bwynt gall fod o ddefnydd yma:

- Gyda'n partneriaid yn y canolfannau trochi iaith Cyngor Sir Ynys Môn, amlygwyd y diffyg mewn adnoddau ffilm ar gyfer trochi plant 7-11, gan orfodi'r hyfforddwyr i ddefnyddio deunydd ffilm sydd wedi dyddio. Er holi, nid oedd cynhyrchu diweddariad yn opsiwn masnachol i S4C oherwydd y gynulleidfa gyfyngedig. Fodd bynnag efallai yn ystod y broses yma, byddai modd derbyn mewnbyn gan yr unedau trochi iaith i hwyrddyfodiaid (ac yn gynyddol i deuluoedd lleol sy'n teimlo iddynt fethu ar drosglwyddo'r Gymraeg) ar yr adnoddau a'r technegau gorau i annog plant i drosi o ddysgu Cymraeg i chwarae Cymraeg ar yr iard. Er mai cyd-destun addysg yw hwn, ni ddylid ei diystyru yng nghyd-destun trosglwyddo iaith teulu, gan fod yr unedau iaith ym Môn yn flaengar yn gwahodd rhieni i'r uned gan rannu profiadau actio a chwarae plant gyda'r rhieni, a dangos sut i barhau i gefnogi'r Gymraeg yn y cartref.
- Teimlwn hefyd fod yma gyfle i gydweithio â S4C i gynnwys ymdriniaeth bositif o drosglwyddo iaith/drochi i deulu di-Gymraeg mewn opera sebon megis 'Rownd a Rownd'/'Pobl y Cwm' yn yr un modd ag y byddant yn ymdrin â themâu llosg meddygol a chymdeithasol eraill. Mae gwerth masnachol i S4C i gynyddu ei chynulleidfa teulu ac yn yr un modd mae gan uned y Gymraeg arbenigwyr ieithyddol, megis awduron 'Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd 2017', fyddai'n medru cynghori. Byddai modd anelu am bortread real o sefyllfaoedd fasa'n codi, o bosib chwalu rhai ystrydebau a chamsyniadau, ac amlygu rhai nodweddion o drosglwyddiad iaith megis swildod dynion mewn perthynas gyda phartner di-Gymraeg. I gyrraedd cynulleidfa ehangach, byddai modd defnyddio'r clipiau wedyn i hyrwyddo'r rhaglen/cymeriadau ond hefyd i gyfleu negeseuon positif am y broses trochi a byw mewn cymdeithas ddwyieithog. Mae canfyddiadau'r ymchwil 'Trosglwyddo'r Gymraeg' yn ddeunydd drama naturiol;

“Dangosodd canlyniadau'r dadansoddiad ansoddol nad oedd defnydd iaith yn y cartref yn cael ei drafod yn agored cyn geni'r plentyn ond mewn aelwydydd

dau riant lle nad oedd ond un rhiant yn siarad Cymraeg. Roedd y rhieni hyn, a oedd wedi caffael y Gymraeg drwy drosglwyddiad gan eu rhieni eu hunain, yn tueddu i drafod defnydd iaith â'u partner a ffafrio siarad Cymraeg â'u plant. Gwelwyd y gallai rhai rhieni di-Gymraeg fod yn gefnogol i hyn ar y cychwyn, ond canfod eu bod yn teimlo'n anghyfforddus os oedd iaith nad ydynt yn ei deall yn cael ei defnyddio pan oeddent yn bresennol. O ganlyniad, yn achos rhai ymatebwyr, roedd y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref yn lleihau dros amser."

#### CG13 –

Mae'r Cam Gweithredu'n eang ond yn berthnasol i'r pwynt a wnaethpwyd 1.b.1 am brofi hyd a lled y cyngor ar drosglwyddo iaith i ddarparu rieni, adnabod y bylchau, ac addasu i sicrhau cyfle cyfartal i holl rieni Cymru i dderbyn cyngor safonol ar ddewisiadau trosglwyddo iaith cyn genedigaeth eu plentyn.

#### CG 14 –

Edrychwn ymlaen at ddysgu o wledydd eraill a'r cyfle i normaleiddio dwyieithrwydd a hybu pendantsrwydd ieithyddol.

- Mae yma gyfle i bontio ymchwil a'u gyfleu yn syml i rieni, efallai ar ffurf ffilm, i ysgolion eu dangos yn y sesiwn croesawu rhieni newydd i'r ysgol. Hoffwn nodi'r galw gan rieni am gyflwyniadau syml o'r ymchwil ar ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg yn benodol. Er ein bod fel menter iaith yn ceisio cyflwyno i gymaint o rieni a phosib yn ystod y cyfnod dechrau ysgol, nid oes gennym y capasiti i gyrraedd pob rhiant ag ysgol. Fodd bynnag mae yna glipliau fideos defnyddiol iawn ar-lein, gan yr academydd yr Athro Colin Baker a'r pennaeth cynradd Dafydd Idriswyn Roberts, sy'n bodloni'r galw am esboniad deallusol, ar lefel ymarferol, o bolisiâu iaith ysgolion a'r manteision i blant. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'r ffilmiau wedi dyddio bellach a da o beth fyddai cael ffilm sy'n cyfuno arbenigedd lleol ar ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg, dyweder gan Dr Enlli Thomas a phennaeth ysgol gynradd gyfredol, gan gynnwys wrth gwrs y cyd-destun ehangach o'r hyn a wneir dramor.
- Heb gynnig atebion, fe dynnwn sylw at berthnasedd pendantsrwydd a hyder wrth gydnabod defnydd iaith yng nghyd-destun Cyfrifiad 2021. Weithiau, i oedolion dihyder, yn enwedig yn yr ardaloedd difreintiedig, gall eu casgliad nad ydynt yn siarad Cymraeg ddeillio o ganlyniad arholiad ysgrifenedig blynyddoedd yn ôl. Mae'n werthfawr felly i ddefnyddio'r technegau posib i godi hyder rhieni all ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg llafar, er mwyn iddynt siarad â hybu datblygiad eu plant a manteisio ar eu gallu i siarad rhywfaint o Gymraeg fel sgil i'w gynnig yn y gweithle. Mae sensitifrwydd yn perthyn i hyn, gan fod ymarferwyr yn treulio cymaint o amser yn codi hyder drwy gyfleu fod y mwyafrif llethol ar y daith o siarad Cymraeg, gan ddechrau efo ychydig eiriau fel 'diolch' a chynnig y camau dysgu nesaf ar y sbectrwm o fod yn siaradwyr Cymraeg. Yn tanseilio'r ymdrechion, bydd Cyfrifiad 2021 yn gorfodi dewis moel deuaidd ar yr unigolion dihyder hyn. Fodd bynnag, gall ymateb person dihyder o gydnabod eu bod yn 'siarad Cymraeg' yn y Cyfrifiad fod yn gam pwysig ymlaen at ddatblygu pendantsrwydd a hyder i siarad yr iaith a'i

drosoglwyddo.

- CG15 – 20;

Yn ychwanegol i'r Cynigion ar Ddatblygu Dealltwriaeth, hoffwn ychwanegu tri phwynt ynglŷn â datblygu dealltwriaeth eraill yn y Llywodraeth a'r cyhoedd:

- Cau'r bwloch rhwng ymchwil arbenigwyr a dealltwriaeth y boblogaeth yn gyffredinol. (Gweler yr esiamplau lu yn ateb lb). Mae hwn yn berthnasol i CG5 wrth ddadansoddi'r cyfathrebu a da fyddai sicrhau fod pob ymchwil yn cynnwys allbwn o grisialu casgliadau perthnasol yn syml a'u cyfathrebu drwy CG 3, 4, 7, 9, 10 er mwyn i rieni gael y wybodaeth gywir wrth wneud dewisiadau trosglwyddo iaith.
- Apelio am fwy o fewnbwn i ymchwil arall a gomisiynir gan y Llywodraeth. Fel esiampl gweler <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/your-birth-we-care.pdf> a <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/eich-babi-eich-gofal.pdf> Ymchwil, o fod wedi ymgynghori â'r adran Gymraeg, fyddai wedi datgelu llawer o atebion defnyddiol iawn i ni ar amllder ag ansawdd y cyngor ar drosglwyddo iaith yn y sesiynau cyn-geni, yn ogystal â datgelu a oedd y ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg i bob rhiant oedd yn dymuno. Apêl felly i'r Llywodraeth godi statws y Gymraeg gan sicrhau fod ystyriaethau Trosglwyddo Iaith a Cymraeg 2050 wedi prif-ffrydio yn ymchwil a chynllunio'r holl adrannau a chyrrff a ariennir gan y Llywodraeth.
- Mewn cydweithrediad â'r Gweinidogion priodol, a chomisiynwyr Plant, Cenhedloedd y Dyfodol, a'r Gymraeg; adnabod unrhyw ymchwil sydd ar waith, neu sydd angen ei gomisiynu i asesu'r cyswllt rhwng mynediad teuluoedd, plant a rhieni, at y Gymraeg a lleihau tlodi/difreintedd yng Nghymru. Yn amlwg, mewn gwlad ddwyieithog, mae'n rhesymol damcaniaethu fod mynediad di-dâl at gyfleoedd yn y Gymraeg am hyrwyddo'r cyfleoedd i deuluoedd incwm isel drosglwyddo'r Gymraeg yn ogystal â gwella eu cyfleoedd cyflogaeth a chyflog uwch. Ond mae galw am gydweithio i ddatguddio darlun manylach gan ddod ag eglurder i'r sefyllfa. Er enghraifft, yn 'Cymunedau yn Gyntaf yr Hyn a Ddysgwyd' 2017, ceir y cyfeiriad yma ei fod yn: "briodol i Lywodraeth Cymru ariannu astudiaeth hydredol o dlodi yng Nghymru i wneud yn iawn am y diffyg data sefydledig o Cymunedau yn Gyntaf. ... amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddwy astudiaeth â chefnogaeth Llywodraeth Cymru sy'n gallu darparu rhagor o ddata a gwybodaeth i helpu i lywio polisïau... hefyd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried dichonoldeb creu mesur unigol o amddifadedd yng Nghymru gan ddefnyddio data Gweinyddol. Croesawn y gwaith hwn, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell yn ein barn ni. Rydym ni'n dal i gredu y byddai'n werth chweil i Lywodraeth Cymru bwysu a mesur dichonoldeb astudiaeth hydredol benodol o dlodi yng Nghymru."

Galwn ar i'r trafodaethau a'r ymchwil o amgylch tlodi, gynnwys ymchwil ar fynediad at yr iaith Gymraeg er mwyn cynnig data ar gyfer polisïau a chymau gweithredu trosglwyddo iaith, darpariaeth blynnyddoedd cynnar a dysgu Cymraeg i'r dyfodol.

Croesawn y cam yma'n fawr gan edrych ymlaen at weld y gynrychiolaeth fydd arno. Mawr obeithiwn fydd cynrychiolaeth strategol e.e o'r Byrddau Iechyd, ynghyd â daearyddol i sicrhau adlewyrchiad o amgylchiadau lleol. Cynigwn fod sefydlu'r Bwrdd Rhaglen yn gyfle i adlewyrchu gwaith y Fforymau Iaith (ac ym Môn yr is-bwyllgor Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd) yn yr ardaloedd ble maent yn weithredol, gan eu bod yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sefydliadau sydd eu hangen i wireddu'r amcanion ar lefel lleol. Efallai bod sefydlu cyswllt rhwng y Bwrdd Rhaglen a'r Fforymau Iaith lleol yn gyfle hefyd i bwysu ar ardaloedd lle nad yw'r Fforwm Iaith yn weithredol/effeithiol i ail-sefydlu trefn gynaliadwy er mwyn bwydo materion ar drosglwyddo iaith yn y teulu i'r Bwrdd Rhaglen. Bydd Menter Iaith Môn/ Fforwm Iaith Môn yn barod iawn i rannu arfer dda gydag ardaloedd sy'n ceisio ail-danio eu Fforymau Iaith.

CG 22 –

Rydym yn croesawu'r cam yma fel cyfle i gyfnewid arfer dda. Gobeithio bydd y cyfleoedd yn parhau i ffrydio i'r ymarferwyr yn y maes i gyfnewid syniadau a chydweithio. Ar lefel gweithredol, eisoes mae cyswllt yn bodoli yn y rhwydwaith Celtaidd i WiciMôn sy'n cynnig cyfleoedd teuluol a chymunedol i ddefnyddio iaith lleiafrifol wrth gofnodi nodweddion a hanes lleol. Yn ogystal cyfieithwyd ap Magi Ann i'r Gernyweg, ac mae potensial tebyg i efelychu llwyddiant apiau Selog i hwyluso defnydd o ieithoedd lleiafrifol eraill yn y teulu. Mae modd datblygu prosiectau cydweithio tebyg ym maes cerddoriaeth e.e gwersi Bocsw'n Ukulele/offeryn ar-lein mewn ieithoedd lleiafrifol, a gemau cyfrifiadurol megis cydweithio'r mentrau iaith ar sesiynau Minecraft Cymraeg.

Edrychwn ymlaen hefyd i elwa o ddyfeisgarwch ac arbenigedd ymarferwyr iaith yn y gwledydd eraill.

#### **Ymatebydd 40 / Respondent 40**

Mae ystyried swyddogaeth y plentyn wrth ddefnyddio iaith o fewn y teulu'n hynod bwysig. A fyddai'n syniad edrych yn fanylach ar waith prosiect megis Tús Maith (<http://tusmaithocd.ie/welcome-homepage/>) yr Iwerddon lle e.e. y mae'r cyfnodau ym mhientyndod y plentyn yn cael eu torri i lawr i gyd-fynd gyda datblygiad y plentyn ac yn cysylltu'r iaith sydd angen ei ddefnyddio gyda'r cyfnodau hyn. Yn y cyfnod cynnar hwn y mae'r rhiant yn treulio llawer o amser yn edrych ar ddatblygiad y plentyn, mae diddordeb gwirioneddol yn y cyfnod hwn. Oes cyfle i gyflysu hyn gyda throsglwyddo iaith ar yr un pryd? Ar wefan Tús Maith gwelir y cyfnodau hyn ar linell amser gyda'r hyn a ddisgwylir o ran datblygiad y plentyn. Gellid cysylltu'r cyfnodau hyn gyda defnydd iaith yn anuniongyrchol er mwyn dod i ddefnyddio'r iaith gyda'r plentyn yn naturiol. Mae Cassie Smith-Christmas o Brifysgol Galway wedi gweithio ac wedi gwneud ymchwil i mewn i swyddogaeth weithredol y plentyn mewn adfywio iaith yn rhan o Tús Maith a fyddai o ddiddordeb efallai.

#### **Ymatebydd 41 / Respondent 41**

Awgrymwn rhannu pwynt 12 fel ei fod yn crybwyll technoleg a chwarae corfforol arall.

Buasai'n ddefnyddiol hefyd crybwyll polisi blynyddoedd cynnar i wella'r cyfleoedd i chwarae, nid ond technoleg, ond edrych ar y technegau chwarae rhwng rhieni a phlant a sut mae dod a'r Gymraeg mewn i chwarae. Mae yna brosiectau gemau buarth wedi digwydd yn y gorffennol i help yn yr ysgol ond a oes cyfle i gynllunio yma ar gyfer helpu gyda rhianta yn y Gymraeg megis cynlluniau Iaith a Chwarae lle anogir y rhiant i siarad gyda'r plentyn mewn ffordd benodol. Cynllun sy'n adeiladu o waelodlin syml iawn, ac yn gynyddol ( incremental ).

#### **Ymatebydd 42 / Respondent 42**

Amwys a gwan yw'r rhestr hirfaith o gamau gweithredu o fewn yr adran hon, gyda diffyg manylder difrifol. Maent yn codi cwestiynau llawer ehangach, fel y rhestrir isod. Er mwyn cryfhau'r polisi, mae angen amlinellu'r rhesymeg ar gyfer pob un o'r camau gweithredu a'r berthynas rhyngddynt er mwyn cyfiawnhau'r sylw.

Yn benodol, mae angen **rhagor o fanylder ar bob cam gweithredu** ynghylch:

- **beth yn union fydd yn cael ei wneud?**
- **pwyl fydd yn gyfrifol?**
- **pwyl sy'n cael eu targedu?**
- **beth yw'r amserlen?**
- **oes unrhyw dargedau neu fesurau llwyddiant ynghlwm?**
- **sut fydd yn cael ei werthuso?**
- **beth yw'r gyllideb?**

Gweler sylwadau ychwanegol ar y camau isod.

#### **Gwaith newydd**

##### **Treialu rhaglen adduned defnydd iaith Euskalaradia**

Dylid cynnwys esboniad o'r rhaglen hon yn y ddogfen a pam mae'n cael ei hargymell. Mae angen eglurder o ran pwyl fydd y rhaglen yn targedu a phwyl fydd yn ei gweithredu.

##### **Prosiectau newydd i newid ymddygiad**

Dylid cynnwys manylion o ran beth yn union yw'r prosiectau newydd hyn a'r sail tystiolaeth iddynt.

##### **Cyngor a / neu dechnegau ymarferol i deuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg**

Dylid cynnwys manylion o ran beth yn union yw'r technegau newydd hyn a'r sail tystiolaeth iddynt.

##### **Cyngor i rieni / gofalwyr i fagu hyder eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg**

Dylid esbonio sut bydd y cyngor hwn yn cael ei ddatblygu a ble fydd e ar gael.

##### **Dadansoddi sut mae cyfathrebu â theuluoedd ynglŷn â'u defnydd iaith, dulliau, ayyb.**

Dylid esbonio sut bydd y dadansoddi hyn yn digwydd.

##### **Gwaith a wnaed gyda theuluoedd mewn meysydd eraill**

Dylid esbonio pa waith mewn pa feysydd mae hyn yn cyfeirio ato, gydag enghreifftiau.

##### **Rhoi sgiliau ac adnoddau addysgu i ymarferwyr addysg**

Dylid esbonio os yw hyn yn cyfeirio at raglenni hyfforddiant a/neu adnoddau dysgu, ac os yw rhain ar gael eisoes neu yn rhywbeth bydd yn cael ei ddatblygu. Dylai hyn hefyd cynnwys cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd.

##### **Defnyddio cyfleoedd yn y gweithlu i ailgynnu defnydd pobl o'r Gymraeg**

Dylid esbonio ymhellach pa fath o waith a chyfleoedd gallai hyn gynnwys.



### **Datblygu presenoldeb ar-lein**

Dylid esbonio pa fath o bresenoldeb ar-lein mae hyn yn cyfeirio ato. Credwn fod angen datblygu cynnwys ar-lein o wahanol fathau, megis gwybodaeth i rieni, fideos, gemau, adnoddau addysg ayyb.

### **Defnyddio rhwydweithiau rhieni / gofawyr**

Dylid esbonio neu roi enghreifftiau o'r fath o brosiectau gellir eu creu.

### **Cymraeg i oedolion i atgyfnerthu nodau'r polisi**

Credwn fod rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn allweddol yn y maes hwn, a bod angen gwaith a buddsoddiad ychwanegol mewn i ddatblygu raglenni Cymraeg yn y Teulu, yn lle ymrwymiad amwys fel sydd fan hyn. Dylid ymestyn hyn hefyd i gynnwys rhieni sydd ddim yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

### **Ymchwilio rôl technoleg**

Dylid ymestyn y cam gweithredu hyn i ddatblygu a chefnogi defnydd technoleg a phrosiectau digidol, yn lle dim ond archwilio rôl technoleg, gan ein bod eisoes yn gwybod bod hyn yn faes allweddol. Gweler cynigion Cymdeithas yr Iaith ar gyfer Menter Iaith Ddigidol: <https://cymdeithas.cymru/dogfen/menter-iaith-ddigidol-papur-safbwynt>

### **Datblygu Prosiectau Cyfredol**

#### **Adolygu gwaith cyfredol a'i addasu**

Dylid esbonio pa waith cyfredol sy'n digwydd fydd yn cael ei adolygu.

#### **Ystyried technegau o wledydd eraill**

Ymddengys mai gwaith newydd fyddai hwn i'w osod yn yr adran flaenorol yn lle.

### **Datblygu'n Dealltwriaeth**

Mae sawl cwestiwn yn codi ynghylch addasrwydd dulliau ymchwil traddodiadol ar gyfer y maes hwn, fel yr amlinellir isod.

#### **Wrth gomisiynu ymchwil, archwilio dylanwad cyfansoddiad ieithyddol aelwydydd**

Mae ymchwil blaenorol wedi dangos pa mor anodd yw ynysu effaith ffactorau o'r fath. Ymhellach, gall dulliau ymchwil traddodiadol arwain at broses hir a chostus, heb unrhyw sicrwydd y caiff y dystiolaeth ei ddefnyddio. Am hynny, dylid ystyried cyflwyno dulliau ymchwil newydd, ee ymchwil gweithredol, gwyddoniaeth gweithredu, newid ymddygiad, sy'n ystyried beth sy'n gweithio orau ac ym mha gyd-destun, ac sy'n galluogi canlyniadau a gweithredu yn llawer ynghynt.

#### **Wrth gomisiynu ymchwil, archwilio dylanwad rhwydweithiau teuluol ehangach**

Mae ymchwil blaenorol wedi dangos pa mor anodd yw ynysu effaith ffactorau o'r fath. Ymhellach, gall dulliau ymchwil traddodiadol arwain at broses hir a chostus, heb unrhyw sicrwydd y caiff y dystiolaeth ei ddefnyddio. Am hynny, dylid ystyried cyflwyno dulliau ymchwil newydd, ee ymchwil gweithredol, gwyddoniaeth gweithredu, newid ymddygiad, sy'n ystyried beth sy'n gweithio orau ac ym mha gyd-destun, ac sy'n galluogi canlyniadau a gweithredu yn llawer ynghynt.

#### **Be sy'n gweithio mewn gwledydd eraill?**

Dylid cyfuno hwn â'r cam gweithredu uchod **Ystyried technegau o wledydd eraill.**

#### **Wrth gomisiynu ymchwil, astudio datblygiad plant yng nghyd-destun dwyieithrwydd yn y cartref**

Dylid esbonio sut mae disgwyl i'r ymchwil hwn gynorthwyo'r gwaith o wella trosglwyddiad a defnydd iaith.

#### **Wrth gomisiynu ymchwil ystyried astudiaethau arsylwi**

Gall dulliau ymchwil traddodiadol arwain at broses hir a chostus, heb unrhyw sicrwydd y caiff y dystiolaeth ei ddefnyddio. Am hynny, dylid ystyried cyflwyno dulliau ymchwil newydd, ee ymchwil gweithredol, gwyddoniaeth gweithredu, newid ymddygiad, sy'n ystyried beth sy'n gweithio orau ac ym mha gyd-destun, ac sy'n galluogi canlyniadau a gweithredu yn llawer ynghynt.

### **Cynnwys cwestiynau ymchwil ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn arolygon**

Rydym yn croesawu'n fawr y cam hwn ac yn credu dylid defnyddio'r ymchwil i archwilio profiadau gwahanol deuluoedd o'r Gymraeg i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o ffactorau strwythurol ac effaith meysydd polisi eraill ar drosglwyddiad a defnydd o'r Gymraeg.

**Cwestiwn 2 : Bwriad y polisi drafft hwn yw llywio rhaglen waith ddeng mlynedd. A oes unrhyw gamau gweithredu dylen ni eu rhoi ar waith cyn rhai eraill?**

**Question 2: This draft policy is intended to inform a ten-year programme of work. Are there any actions which should be implemented before others?**

### **Ymateb 2 / Response 2**

Oherwydd fod 'cyfathrebu yn effeithiol' yn greiddiol i'r holl weithredoedd credwn fod rhoi Cam gweithredu 5 ar waith cyn rhai eraill yn fodd o roi sail cadarn cychwynol i'r holl waith.

Argymhellwn blaenoriaethu buddsoddiad mewn grwpiau cefnogaeth teuluol cyfrwng Cymraeg sydd yn croesawi teuluoedd rhugl a dysgwyr megis grwpiau Cymraeg i Blant a Cylchoedd Ti a Fi. Byddai hyn yn galluogi ehangu capasiti a sicrhau fod pob teulu yng Nghymru o fewn cyrraedd rhesymol i'r grwpiau cefnogi hollbwysig hyn. Mae angen sicrhau fod trosglwyddiad iaith o fewn cartrefi y cymunedau yn cael ei gynnal, a bod teuluoedd yn medru adeiladu rhwydwaith cymdeithasol cyfrwng Cymraeg iddyn nhw ei hunain ac i'w plant.

Gweler hefyd ein ymateb i gwestiwn 1, cam gweithredu 13.

### **Ymateb 3 / Response 3**

Fel yr ydym wedi tanlinellu isod, teimlwn fod y pedwar nod a sonnir amdanynt yn 3 yn cynnig eu hunain yn gyfleus i bedwar cynllun gweithredu, gyda phedair llinell amser sy'n addas a phriodol i'r meysydd dan sylw o fewn fframwaith 10 mlynedd.

As we have outlined below, we feel that the four aims that are referred to in 3 lend themselves conveniently to four action plans, with four timescales that are suitable and appropriate to the areas in question within the 10-year framework.

#### **Ymateb 5 / Response 5**

Respect democratic choice

#### **Ymateb 6 / Response 6**

Quick investment in ensuring new technologies support Welsh. Small things such as default settings on appliance or devices. Children are getting phones, and typing in English as default because of spellcheckers. Children are speaking to Siri Google Alexa in English and establishing unconscious views that English is the language of technology.

#### **Ymateb 7 / Response 7**

Similar to what I've said above, proposals that work direct with families and with the key services that provide for them should be prioritised. Work to build Welsh confidence within service workforce is essential, but using some words and phrases can begin today without difficulty.

#### **Ymateb 8/ Response 8**

Close the undemocratic Assembly which works against the demands of the Welsh. Any vote must include reduction of powers and scrapping of the ineffective, power grasping dictatorship.

#### **Ymateb 9/ Response 9**

None of your actions as stated should be implemented. So, no.

#### **Ymateb 10/ Response 10**

Yes Pre Natal- Marketing and engagem

#### **Ymateb 11/ Response 11**

Beth am gychwyn gydag un prosiect neu ymgyrch proffil uchel i sefydlu pwysigrwydd defnyddio Cymraeg gartref. Yna symud ymlaen i greu adnoddau a chyngor defnyddiol i bawb. Gall sefydlu prosiectau newydd, gwerthuso a gwella prosiectau presennol a gwneud gwaith ymchwil a newid ymddygiad ddigwydd ochr yn ochr a'r gwaith hwn.

#### **Ymateb 12/ Response 12**

Credwn fod hwn yn fater i'w ystyried yn gyson gan y Bwrdd Rhaglen.

### **Ymateb 13/ Response 13**

Cytunwn â'r 4 nod, ac o ddatblygu argymhellion y ddogfen ddrafft dan reolaeth Bwrdd Rheoli grymus, nid oes gennym le i amau na roddir sylw teilwng i bob un ohonynt.

### **Ymateb 14/ Response 14**

Mae rhai o'r camau gweithredu yn rhai y gellir gweithredu arnynt yn gyflym gan weld canlyniadau yn eithaf buan. Mae Cam Gweithredu 5 yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau sampl eang ac amrywiol. Tybed a oes un cam ar goll – sef yr angen i wrando ar adborth teuluoedd yn fwy eang cyn penderfynu ar drywydd i weithredu'r camau a nodir? Cyfeirir yn y ddogfen i hynny ddigwydd gyda sampl fechan iawn wrth lunio'r Polisi Drafft. Cwestiynir, oherwydd maint y sampl hwnnw, a oes digon o dystiolaeth i gynllunio llwybrau gweithredu fydd yn berthnasol i ystod eang o 'deuluoedd' amrywiol sy'n bodoli.

### **Ymateb 15/ Response 15**

Early Years Wales would encourage the review of existing work on Welsh Language transmission in families listed as action 13, to take place first. Reviewing what is already on offer to parents to support them is essential so it can be adapted if necessary. This would provide clear overview of what is on offer and what can be adapted, rather than creating new projects that are similar to others.

Use of the Euskalardia model would appear to be beneficial however, Early Years Wales would encourage its trial before a larger roll out and would envisage the wider roll out after other actions have been successfully implemented and embedded perhaps over a few years to ensure adequate uptake.

### **Ymateb 16/ Response 16**

Oherwydd fod 'cyfathrebu yn effeithiol' yn greiddiol i'r holl weithredoedd credwn fod rhoi Cam gweithredu 5 ar waith cyn rhai eraill yn fodd o roi sail cadarn cychwynnol i'r holl waith.

Argymhellwn blaenoriaethu buddsoddiad mewn grwpiau cefnogaeth teuluol cyfrwng Cymraeg sydd yn croesawi teuluoedd rhugl a dysgwyr megis grwpiau Cymraeg i Blant a Cylchoedd Ti a Fi. Byddai hyn yn galluogi ehangu capasiti a sicrhau fod pob

teulu yng Nghymru o fewn cyrraedd rhesymol i'r grwpiau cefnogi hollbwysig hyn. Mae angen sicrhau fod trosglwyddiad iaith o fewn cartrefi y cymunedau yn cael ei gynnal, a bod teuluoedd yn medru adeiladu rhwydwaith cymdeithasol cyfrwng Cymraeg iddyn nhw ei hunain ac i'w plant.

Gweler hefyd ein ymateb i gwestiwn 1, cam gweithredu 13.

### **Ymateb 17/ Response 17**

Byddai rhai o'r elfennau ymchwil arfaethedig yn ddefnyddiol ymlaen llaw i helpu i lywio a gyrru gwaith newydd. Felly, byddai gweithredoedd 13 a 14 sy'n edrych ar ddatblygu gwaith presennol yn darparu llinell sylfaen a dadansoddiad defnyddiol ar gyfer blaengynllunio mentrau newydd sy'n cael eu cynnig. Bydd data sylfaenol hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith hwn.

Bydd llywodraethu'r rhaglen yn bwysig i'w llwyddiant felly dylai gweithred 21 yn naturiol fod yn un o'r camau cyntaf a weithredwyd.

Some of the proposed research elements would be useful beforehand to help steer and drive new work. Therefore, actions 13 and 14 looking at developing existing work would provide a useful baseline and analysis for forward planning of new initiatives that are being proposed. Baseline data will also be a key component to this work.

Governance of the programme will be important to its success so action 21 should naturally be one of the first actions implemented.

### **Ymateb 18/ Response 18**

Using research to develop initiatives is important however it is also important that some actions are put in place as soon as possible so that the research does not delay activity.

Possible actions that could be implemented before others are:

Action 3 - providing practical advice to families where not everyone speaks Welsh on how to increase the use of Welsh

Action – 7 giving teaching practitioners the skills to positively encourage children to speak Welsh

Action – 8 using the workplace for reigniting people's use of Welsh

Action 12- increasing opportunities, using technology, to help children play in Welsh

As a 10 year programme of work this draft policy complements the draft policy for the new national WESPs structure 2021-2031. We welcome this and believe it is a challenging yet realistic time frame.

As this programme focusses on language acquisition in the home, we believe that actions focusing on robust structured support for parents/carers is important.

(Actions 3, 4, 7, 9, 10, 12). This support may come from schools and other teaching practitioners or on line, but without it adults may not have the skills set required to develop Welsh speaking in their homes. The WESPs demonstrate the work being done, in Welsh medium and English medium schools, across Wales to increase the use of, and raise standards in Welsh. We believe these successes can inform the increase of Welsh speaking in all homes in Wales.

### **Ymateb 19/ Response 19**

It can sound obvious, but starting from the easiest and the most performing could be smart.

Related with what I have said in the box above, team-building could be a good starting point to follow the path. This is an issue that will likely need to enhance active listening and collective decision-making and all that will likely work better if the institutions and people which must take part in the implementation of this policy start sharing its foundations first and its actions later.

### **Ymateb 20/ Response 20**

Yn sicr mae angen blaenoriaethu'r gwaith ymchwil ehangach a mwy swmpus, er mwyn sicrhau bos unrhyw weithredu yn ymateb i adborth a rhwystrau sydd wedi codi gan y teuluoedd eu hunain, yn hytrach nag argraffiadau allanol ohonynt. Yn wir, gellir dadlau y dylai mwy o waith ymchwil fod wedi cael ei gomisiynu cyn mynd ati i ysgrifennu dogfen bolisi sydd yn manylu ar gamau gweithredu. Mae cymaint o amrywiaeth o sefyllfaoedd a dylanwadau o fewn teuluoedd fel bod peryg mewn creu ymyrraeth "one size fits all" heb ddeall yr amrywiadau hynny yn llawn a cheisio mireinio'r ymyrraeth o ganlyniad.

### **Ymateb 21/ Response 21**

More Welsh language lessons for parents and carers to gain confidence in using the Welsh they already know.

### **Ymateb 22/ Response 22**

Wrth gynllunio ar gyfer cyfnod estynedig o 10 mlynedd, byddai'n ddefnyddiol deall yr egwyddorion cyffredinol fydd yn sail i'r gwaith e.e. os bydd pwyslais ar gyfranogiad, hawliau'r plentyn neu fuddsoddiad ariannol mewn meysydd penodol, a chael syniad o'r meysydd ymchwil fydd yn sail i'r gwaith.

Byddai hefyd yn dda deall y dirwedd o ran pwy yw'r ymarferwyr a'r rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes er mwyn adeiladu ar y rheini yn ogystal â deall seilwaith gyfredol y maes a'r ardaloedd i'w datblygu, gan gofio y gallant amrywio yn ôl ardal ddaearyddol.

Hefyd, byddai'n ddefnyddiol deall mwy am gerrig milltir y gwaith, yn enwedig o ran ceisio cydblethu polisïau a chynlluniau gweithredu cyrff llywodraethol a chyrrff mewn sectorau allweddol all fod yn ategu'r gwaith.

### **Ymateb 25/ Response 25**

Don't implement it

### **Ymateb 26/ Response 26**

Waste of money

### **Ymateb 27/ Response 27**

Awgrymw'n fod rhoi ymgyrch eang o ennyn ac annog balchder cenedlaethol ar waith yn flaenoriaeth.

Awgrymw'n hefyd y dylid buddsoddi a blaenoriaethu ardaloedd y Gorllewin sef yr ardaloedd hynny sydd yn aml yn cael eu diystyru o ran buddsoddiad ieithyddol ar y sail eu bod yn gadarnleoedd y Gymraeg. Mae colli pobl ifanc i ddinasoedd y Ddeddwyrain a thuedd yr unigolion hynny i sefydlu teuluoedd yn yr ardaloedd hynny yn cael effaith andwyol ar drosglwyddiad iaith yng nghefn gwlad. Teimlwn felly y byddai'n briodol peilota camau gweithredu yn yr ardaloedd hyn gan ateb yr angen i gymryd camau i wrthdroi dirywiad ieithyddol graddol ein hardaloedd traddodiadol Cymraeg.

#### **Ymateb 28/ Response 28**

Help the parents and grandparents first to help the children. Use the nurseries and schools to help.

#### **Ymateb 29/ Response 29**

Represent the English speaking majority.

#### **Ymateb 30/ Response 30**

Gweler sylwad "B"

#### **Ymateb 32/ Response 32**

Immediate scrapping of the policy and save the taxpayer some money.

#### **Ymateb 33/ Response 33**

No

#### **Ymateb 34/ Response 34**

I guess the research and preparation part should go first. Then the empowering courses should follow, and finally, the Euskaldia-liked actions.

#### **Ymateb 35/ Response 35**

Firstly, Implementing action's 3, 9 and 11 and 14. Exploring best practice from other countries will be very beneficial and will hopefully help lead the way. Ensuring practical advice and/or techniques as well as online presence are available to families is important - in order for families to feel supported.

I believe that ensuring Welsh for Adults courses reinforce the aims of the policy is also important - in order to ensure parent/carer confidence to converse with their families

#### **Ymateb 36/ Response 36**

Developing the research base for welsh language development and learning and the

evidence base for the proposed initiatives to develop welsh language transmission in families for all ages and stages of development (early years, school age and adults).

### **Ymateb 37/ Response 37**

Mae cam gweithredu 21, sef sefydlu bwrdd rhaglen er mwyn rheoli'r gwaith hwn yn un cadarnhaol, a byddai'n gwneud synnwyr sefydlu'r bwrdd hwn fel cam cyntaf o weithredu gweddill y polisi. Gall fod yn fforwm effeithiol ar gyfer derbyn adborth gan randdeiliaid allweddol ar fanylder y prosiectau a'r strategaethau dan sylw ac yn fodd o gynnwys gwahanol bartneriaid ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae cam gweithredu 13 yn nodi'r bwriad i adolygu gwaith cyfredol y Llywodraeth ar drosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd. Byddai'n gwneud synnwyr fod y cam hwn yn cael ei weithredu cyn gynted â phosib, a hynny er mwyn llywio gweithredu gweddill y polisi.

Mae cam gweithredu 1 (rhaglen adduned defnydd iaith) a cham gweithredu 10 (rhwydweithiau rhieni/gofalwyr) yn ymddangos yn hynod ddiddorol ac â photensial i ddylanwadu ar ddefnydd teuluoedd o'r Gymraeg. Mae *Euskarladia* y seilir cam gweithredu 1 arno, fel y gwyddoch, yn ymgyrch genedlaethol lle mae siaradwyr rhugl a siaradwyr goddefol yn addunedu i gyfathrebu â'i gilydd mewn Basgeg, a hynny ar sail gwisgo bathodyn sy'n dynodi eu gallu/dymuniad i siarad Basgeg. Byddai'n dda deall yn well sut y bwriadwch addasu'r prosiect hwnnw i ddefnydd teuluoedd o iaith ac a fyddwch yn defnyddio bathodyn megis un iaith Gwaith sy'n cael ei adnabod drwy Gymru bellach. Byddem yn awyddus i ddeall rhagor am gamau 1 a 10 a'r amserlen ar gyfer eu gweithredu.

Action 21, namely establishing a programme board to manage this work is positive, and it would make sense to establish this board as the first step of implementing the rest of the policy. Establishing a programme board would provide an effective forum to receive feedback from key stakeholders on the detail of the projects and strategies in question. It could also be used as a means of gathering feedback from various stakeholders on the detail of specific projects and strategies, and could bring together the various partners and agencies that work with children, young people, and their families.

Action 13 notes the intention to review the Government's existing work on Welsh language transmission in families. It would make sense that this action is implemented as soon as possible, in order to inform the implementation of the rest of the policy.

Action 1 (language use pledge programme) and action 10 (parent/carer networks) appear particularly interesting and have the potential to influence families' use of Welsh. We would therefore be eager to see these actions being implemented as soon as possible. As you are aware, *Euskarladia* is a national campaign where fluent and passive Basque speakers make a commitment to communicate with each other in Basque, and this is symbolised by the wearing of a badge which indicates their ability and desire to speak the language. It would be useful to receive further



information on how you intend to adapt this project in order to increase the use of Welsh within families, and whether there is an intention to use badges such as those already used with Iaith Gwaith, which is recognized across Wales. We would be interested to receive more information regarding action points 1 and 10, including a timescale for their implementation.

### **Ymateb 38/ Response 38**

Ystyriaethau Covid19

### **Ymateb 39/ Response 39**

**CG 1 a G13** yng nghyd-destun a drafodwyd **1.b.1: Targedau darpar rieni yn ystod y cyfnod beichiogrwydd/ôl-eni.**

- Mapio'r ddarpariaeth, gwerthuso & addasu
- Datblygu pecyn cyngor safonol
- Cynnig gwersi dysgu Cymraeg di-dâl yn y cyfnod mamolaeth/tadolaeth.

### **CG 9 (& 4, 6, 7)**

Yn sgil effaith Cofid a'r cyfyngiadau cyswllt unigol. Blaenoriaethu'r ddarpariaeth cyngor ar-lein. Mae'r ymarferwyr eisoes yn bodoli yn y Mentrau Iaith, Cymraeg i Blant, allai fod yn cynnig y cyngor arferol ar-lein yn hytrach na'r sefyllfaoedd unigol mewn digwyddiadau, ffeiriau, nosweithiau rhieni, ymwybyddiaeth anghenion a dulliau trosglwyddo iaith i staff/hyfforddai (CG 7), ayyb. Yn gyfredol mae'r ddarpariaeth am fod yn ad-hoc gennym ni fel darparwyr i lenwi'r bwlch. Ond os oes bwriad cael ymgyrch a gwasanaeth cenedlaethol, fel Helo Blod i fusnes, yna gall fod yn gyfuniad perffaith o effeithiolrwydd trefn ddigidol y llywodraeth yn genedlaethol wedi cyplysu â mewnbwn ymarferwyr profiadol prosiectau Cymraeg gyda'u harbenigedd a dealltwriaeth leol. Wrth gwrs byddai angen mewnbwn helaeth gan swyddogion maes i sicrhau y bydd yn ateb y galw.

**G12.** Oherwydd y ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg/gyfryngau digidol yn y cyfnod Cofid.

**Gweler 1.b.2. Cyplysu targedau Trosglwyddo Cymraeg yn y Teulu a Cymraeg 2050 i raglenni taclo tlodi'r Llywodraeth.** Am fod materion o degwch cymdeithasol bob tro yn flaenoriaeth yn enwedig os ydym am wynebu dirwasgiad.

### **CG15-20**

Yr agwedd strategol o sicrhau fod Polisi Trosglwyddo Cymraeg yn y Teulu yn cael ei brif-ffrydio yn ymchwil ac adrannau eraill y Llywodraeth. Gan nad yw yn fater o fuddsoddiad nac ail-drefnu - ond yn hytrach yn fater o arweiniad strategol, ewyllys da a monitro - dylid bod modd gwireddu hyn fel mater o flaenoriaeth.

### **CG21**

Mae'r arfer o gyfarfodydd digidol cyfnod Cofid efallai am hwyluso cyflymu'r broses o sefydlu Bwrdd Rhaglen i gynrychioli sectorau ac ardaloedd ar draws Cymru.

### **Ymateb 40/ Response 40**

Mae'r maes polisi cyfan yn flaenoriaeth.

O bosib byddai edrych ar yr hyn sydd yn digwydd mewn meysydd polisi eraill yn gymorth i alinio datblygiadau yn y maes hwn i bennu blaenoriaethau. Bydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu cynllunio ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. A oes cyfle i ddatblygu prosiect addas a fyddai'n cydweddu gyda hyn? Cyfnodau dilyniant o'r blynyddoedd cynnar i'r cynradd neu o'r cynradd i'r uwchradd efallai?

### **Ymateb 41/ Response 41**

I ni, y mae'r polisi cyfan yn flaenoriaeth. Mae'r cyfnod gyda covid-19 wedi dangos breuder sefyllfa trosglwyddiad iaith o fewn y teulu hyd yn oed yn fwy.

Awgrymwn bod 2, 5 a 9 yn fannau cychwyn pwysig ond fel y nodwn, mae'n hymateb heddiw wedi newid i beth fyddai ein hymateb wedi bod yn ôl ym mis Mawrth eleni o ran pwysigrwydd technoleg.

Gyda rhwydweithiau cyfathrebu arferol cymunedau yn awr wedi eu cyfyngu, rhaid canfod ffyrdd newydd, wedi eu haddasu i anghenion cyfnod covid-19. Mae pwysigrwydd datblygu technegau a phrosiectau technolegol yn hanfodol. Gan fod digwyddiadau wyneb yn wyneb yn her, golyga hyn nad oes modd i ni gymdeithasu ac nid oes yna gefnogaeth trosglwyddiad iaith ar aelwyd wyneb yn wyneb ar gael ar hyn o bryd ac felly mae'n llai personol gan fod y sgrin yn ein gwahanu.

Er hyn, rhodda'r dechnoleg gyfle o'r newydd hefyd i fod yn arloesol ac i symud prosiectau megis Macsen (Alexa Cymraeg), Common Voice ac eraill yn eu blaen.

### **Ymateb 42/ Response 42**

Gwerthfawrogwn yr amserlen 10 mlynedd i'r gwaith hwn, sy'n briodol i'r maes. Siomedig felly yw'r diffyg uchelgais a manylder o ran y camau gweithredu sydd yn y ddogfen ar hyn o bryd.

Byddai'r polisi yn lot gryfach trwy gynnwys ymrwymiad i ddatblygu strategaeth drawslywodraethol 10 mlynedd gyda chamau gweithredu ar draws meysydd polisi i fynd i'r afael â materion strwythurol sy'n effeithio ar drosglwyddiad iaith a'i defnydd o fewn teuluoedd. Dylai hyn gynnwys gwaith penodol gyda'r adrannau addysg a iechyd a gofal cymdeithasol

**Cwestiwn 3. Mae pedwar nod i'r polisi hwn.**

**a. A yw'r polisi hwn yn rhoi digon o sylw i bob un o'r pedwar nod hyn?**

**Question 3. This policy has four aims.**

**a. Does this policy give sufficient attention to each of these four aims?**

#### **Ymatebydd 2 / Respondent 2**

Er bod yna gyswllt a pherthynas amlwg rhwng y system addysg a throsglwyddo'r Gymraeg, rhaid bydd sicrhau peidio â drysu'r ddau nod.

Nodwn fod y polisi hwn yn pwysleisio gwaith gyda theuluoedd plant ifanc. Teimlwn fod angen nodi ymyraethau pwrpasol ar gyfer myfyrwyr 14 - 19 oed mewn ysgolion a cholegau addysg bellach er mwyn eu hannog i barhau i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol wrth iddynt adael y gyfundrefn addysg.

Drwy weithredu i ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain, un ffactor allweddol i'w hystyried ydy effaith defnydd iaith rhwng oedolion ar ganfyddiad plentyn o ddefnyddioldeb y Gymraeg. Mae'r cynlluniau diweddar a phresennol wedi canolbwyntio ar annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, er mwyn normaleiddio'i ddefnydd a chynyddu'r nifer o siaradwyr brodorol. Serch hynny, mae ymchwil yn dangos mai iaith rhyngweithiadau rhieni sydd fwyaf tebygol o effeithio patrymau defnydd iaith plant dros amser, a gosod sylfaen gadarn i drosglwyddiad y Gymraeg ymysg y genhedlaeth nesaf.

#### **Ymatebydd 3 / Respondent 3**

Teimlwn fod y pedwar nod cyffredinol hyn yn cynnig sail gadarn ac addas i'r polisi a fyddai'n arwain yn fuddiol at bedwar cynllun gweithredu fydd yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ag agweddau gwahanol ar drosglwyddo'r iaith Gymraeg. Rydym wedi cyfeirio at yr angen i roi digon o bwyslais ar nod (ii) yn ein ymateb i 1c.

We feel that these four overall aims provide a sound and suitable basis for the policy that will lead beneficially to four action plans, which will address different aspects of

Welsh language transmission proactively. We have referred to the need to place a sufficient emphasis on aim (ii) in our Respondent to 1c.

#### **Ymatebydd 5 / Respondent 5**

Within the 4 aims there is an assumption that non welsh speakers will be compliant - what about choice

#### **Ymatebydd 7 / Respondent 7**

Yes, although I would like to see more details on how the third and fourth aim will be fulfilled (in line with what I've said above regarding community-focus)

#### **Ymatebydd 8 / Respondent 8**

Protect English speakers.

#### **Ymatebydd 9 / Respondent 9**

It gives far too much attention to these aims, which are intrusive into the personal decisions of your nation's families. You are at serious risk of being seen as a domineering nanny-state, imposing the will of a vocal minority onto the unwilling majority. Such an approach will clearly not succeed in the ballot box, so it is your decision whether or not you wish to learn the lesson before election time, or after.

#### **Ymatebydd 10 / Respondent 10**

I feel there should be more specific and more details surrounding the Basque language initiative called Euskalaradia

#### **Ymatebydd 11 / Respondent 11**

Efallai nad oes gymaint o sylw i rhif i.

- Efallai y dylwn anelu i greu digwyddiad blynyddol ar ddiwedd blwyddyn 11 neu 13 a fydd yn ddathliad o'r Gymraeg ym mywydau'r bobl ifanc hyd yn hyn ac yn gyfle i roi iddynt arfau a fydd yn galluogi nhw i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dyfodol. Gellid annog y bobl ifanc i adnabod 'Craig y Gymraeg' yn eu bywydau, sef unigolyn/unigolion y byddant yn siarad Cymraeg gyda nhw am byth. Os nad oes rhywun i gael o fewn y teulu gallai fod yn rhywun sydd yn y gymuned neu yn athro a fyddai'n fodlon parhau cyswllt rhywffordd i sicrhau bod y person ifanc yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddo gamu ymlaen gyda bywyd. Petai'r Mentrau, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn trefnu'r digwyddiad, byddai hefyd yn gyfle iddynt gynnal cyswllt

gyda'r person ifanc i roi gwybodaeth iddo am bethau Cymraeg y gallai wneud pan ddaw yn ol i'r ardal neu gysylltu gyda cangen o'r corff ble bynnag y bo'n mynd. Byddai hefyd yn gyfle i sicrhau fod pobl ifanc yn mynd ymlaen i'r byd gwaith neu addysg gyda'r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw ddefnyddio'u Cymraeg; rhaglenni teledu Cymraeg, deunydd Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, apiau, geriaduron, cymorth gramadeg, llinellau ffon Cymraeg, gwefannau canfod swyddi Cymraeg, cymorth creu cv dwyieithog ayb.

Ar gyfer iv, credwn hefyd bod lle i wneud mwy o waith i atgyfnerthu'r rhwydweithiau cymdeithasol sy'n cynnal teuluoedd. Un o'r rhain yw'r clybiau hamdden mae'r plant yn mynychu. Mae rhieni'n ymwneud llawer iawn gyda rhieni eraill drwy'r clybiau hyn. Byddai cael Cymraeg yn gyfrwng naturiol i gyfathrebu o gylch y clybiau hyn yn cynorthwyo'n fawr. Os ydy Cymraeg yn iaith naturiol clwb hamdden, mae'r rhien'n fwy tebygol o siarad Cymraeg wrth ymwneud gyda'r clwb ac yna gyda'r plant. Yn ogystal, rhieni sydd, yn fwy aml na dim, sy'n hyfforddi'r timau iau o fewn y clybiau. Dylwn ni roi pecyn electroneg i bob ysgrifenydd clwb i egluro pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant a'r teuluoedd a rhoi cymorth ymarferol iddyn nhw wneud hyn.

- Yn olaf, mae rhieni'n aml iawn yn creu rhwydweithiau o gylch y teulu gyda rhieni eraill ac mae hyn yn digwydd yn aml mewn partion penblwydd. Efallai y gellid gwneud gwaith yn y maes hwn - anog mwy o fusnesau i gynnig partion plant bach yn Gymraeg, ayb.

## **Ymatebydd 12 / Respondent 12**

Dyma ambell sylw pellach perthnasol. Byddem wrth gwrs yn hapus i ymhelaethu, ac i gyfrannu at waith y Bwrdd Rhaglen pan fyddwch yn barod. Yn amlwg, yng ngoleuni'r argyfwng iechyd cyhoeddus presennol, mae'n bosib y bydd rhai o'r bwriadau yn cael eu cyflwyno mewn dulliau gwahanol dros y cyfnod nesaf. Mae'r Ganolfan eisoes wedi symud i ddysgu'r Gymraeg o bell i'w fyfyrwyr, ac yn recriwtio dysgwyr i gyrsiau cyfunol/o bell ar hyn o bryd. Roedd y Ganolfan wedi cynllunio i gynnig cyrsiau gyda 25% o'r cwrs yn cael ei ddysgu'n annibynnol arlein y tu allan i'r dosbarth o Fedi 2020 ymlaen, mae'r gwaith hwnnw bellach yn cael ei brysuro i fod yn barod ar lefel Mynediad o 5 Mai ymlaen, gyda Mynediad llawn, ac o bosibl Sylfaen yn barod erbyn mis Medi.

Mae gennych wybodaeth eisoes am y cynllun 'Camau'. Er gwybodaeth, ni wyddom pa fath o gynllun 'Camau' fydd yn weithredol yn ystod 2020-2021 yn sgil toriadau i gyllideb y Ganolfan. Mae'r cynllun hwn wedi profi yn llwyddiannus iawn, a rhagdybir y bydd y sector gofal plant yn adfywio yn fuan wedi i'r polisi ymbellhau ddechrau llacio. Cyflwynwyd y nod o drosglwyddo cyrsiau Camau yn gyrsiau ar-lein yn y cynllun amgen ar gyfer 2020-2021 ond er mwyn cyflawni'r gwaith yma yn gyflym hoffai'r Ganolfan benodi 2 Tiwtor arbenigol (1 FTE) i hwyluso'r gwaith. Rydym yn dal

i drafod gyda'r Llywodraeth a fydd cyllideb ddigonol gennym i fwrw ymlaen gyda'r cynllun hwn. Byddai'r Tiwtoriaid hefyd yn cynorthwyo'r dysgwyr drwy gynnig hyfforddiant wyneb i wyneb maes o law neu o bell, gan ganolbwyntio ar yr hyfforddiant modelu iaith yn y gweithle. Roedd hyn yn un o'r opsiynau a weithredwyd yn ystod 2019-2020 ac mae'n un o'r modelau dysgu mwyaf llwyddiannus. Rydym o'r farn bod y cyfuniad o ddysgu yn annibynnol a chael cefnogaeth Tiwtor yn fodd o sicrhau llwyddiant Camau unwaith eto, a sicrhau bod effaith cadarnhaol ar y defnydd o'r iaith yn y gweithle. Os gallwn weithredu fel hyn credwn y bydd modd i ni gyflwyno Cynllun 'Camau' ar rhyw ffurf yn ystod 2020-2021. Bydd hyn yn gymorth o ran Cymreigio lleoliadau Gofal Plant, ac mae'n bosibl y bydd yn arwain at adnabod teuluoedd lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Drwy'r rhaglen 'Cymraeg yn y Cartref' yr ydym wedi ei rannu gyda chi, byddwn yn gallu ymgorffori'r canlynol:

- Parhau i gefnogi 'Clwb Cwtsh' – yn y tymor byr bydd hyn yn golygu ei gyflwyno drwy gyfres o wersi fideo 'ar lein' y gall rheini a phlant ei ddilyn o'u cartref.
- Parhau i ddatblygu adnodd ar-lein i rieni sy'n ceisio egluro cyd-destun y Gymraeg, a sut i gefnogi eu plant mewn addysg Gymraeg, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth am sut i ddysgu Gymraeg
- Cynnig gwersi Cymraeg yn y Cartref o bell, ar-lein neu yn gymunedol i rieni.
- Rydym wrthi'n llunio atodiadau arbennig i rieni i gyd-fynd â'n Cwrs Mynediad ni er mwyn gallu cynnig cyrsiau 'Cymraeg yn y Cartref'. Bydd yr atodiadau hyn yn rhoi iaith bwrpasol i rieni ac yn awgrymu yn gyson ddulliau o ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref.

### **Ymatebydd 13 / Respondent 13**

Mae'n debyg mai'r peth cyntaf i'w ddweud yn y cyd-destun hwn yw bod trosglwyddo'r Gymraeg a hybu ei defnydd ar yr aelwyd yn elfen cwbl hanfodol o adfer y Gymraeg, ac felly mae'r polisi drafft yn amserol, a dylid bwrw ymlaen â'r gwaith ar fyrder.

Nodwn y datganiad, 'bydd yr ymgynghoriad hwn yn arwain at gynigion cadarn'. Yng ngoleuni hyn, byddwn yn cydnabod bod angen mwy o wybodaeth o safbwynt cynlluniau penodol, amserlen, targedau a cherrig milltir. Nodwn fod y polisi drafft yn amlinellu'r cysylltiad â rhai o feysydd gwaith eraill Cymraeg 2050, ac yn sicr, bydd angen cryfhau'r cysylltiadau hyn wrth i'r gwaith ddatblygu. Credwn fod meysydd ymwybyddiaeth iaith, datblygu technoleg, a chreu gweithleoedd a chyfleoedd hamdden Cymraeg yn hanfodol i gefnogi'r gwaith a amlinellir a sicrhau ei lwyddiant yn y pen draw.

Cytunwn â'r amcanion a gobeithiwn y defnyddir y broses ymgynghori hon fel sail ar gyfer polisi a rhaglen waith rymus a phendant.

### **Ymatebydd 14 / Respondent 14**

Fel nodwyd eisoes yn yr ymateb, nid yw Llais y Plentyn yn ddigon clir yn y camau gweithredu er mwyn deall fod yr hyn a wneir yn cael effaith gadarnhaol ar eu dewis hwy i iaith wrth iddynt aeddfedu. O fewn cylch deng mlynedd mae cyfleoedd yn cael eu colli os na wneir hynny.

O ran yr ail bwynt uchod, mae angen cryfhau y cysylltiad gyda'r gynulleidfa darged hon, er mwyn gweld y rhesymau dros deimlo nad oeddent am barhau neu nad ydynt wedi parhau i ymarfer yr iaith yn dilyn gadael y gyfundrefn addysg. Mae gwersi i'w dysgu, yn bendant, o wneud hynny.

### **Ymatebydd 15 / Respondent 15**

Early Years Wales would encourage availability of Welsh courses at all levels, tailored specifically for parents/carers and expectant parents. Continuation of and adaption/development of programs such as Mudiad Meithrin's #ClwbCwtsh would be hugely beneficial to the success of the programme.

### **Ymatebydd 16 / Respondent 16**

Er bod yna gyswllt a pherthynas amlwg rhwng y system addysg a throsglwyddo'r Gymraeg, rhaid bydd sicrhau peidio â drysu'r ddau nod.

Nodwn fod y polisi hwn yn pwysleisio gwaith gyda theuluoedd plant ifanc. Teimlwn fod angen nodi ymyraethau pwrpasol ar gyfer myfyrwyr 14 - 19 oed mewn ysgolion a cholegau addysg bellach er mwyn eu hannog i barhau i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol wrth iddynt adael y gyfundrefn addysg.

O bosibl wrth sôn am "Ail-gynnau'r" sgiliau dylid nodi yn gyntaf yr angen am ymdrechion i gynnal y sgiliau trwy'r continwwm oedran fel nad ydynt yn cael eu colli yn y lle cyntaf.

Drwy weithredu i ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain, un ffactor allweddol i'w hystyried ydy effaith defnydd iaith rhwng oedolion ar ganfyddiad plentyn o ddefnyddioldeb y Gymraeg. Mae'r cynlluniau diweddar a phresennol wedi canolbwyntio ar annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, er mwyn normaleiddio'i ddefnydd a chynyddu'r nifer o siaradwyr brodorol. Serch hynny, mae ymchwil yn dangos mai iaith rhyngweithiadau rhieni sydd fwyaf tebygol o effeithio patrymau defnydd iaith plant dros amser, a gosod sylfaen gadarn i drosglwyddiad y Gymraeg ymysg y genhedlaeth nesaf.

### **Ymatebydd 17 / Respondent 17**

Mae angen mwy o ffocws ar ysbrydoli'r genhedlaeth iau. Mae'n ymddangos bod y ffocws ar y polisi ar deuluoedd nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg, yn siarad Cymraeg. Er bod hwn yn nod i'w groesawu, efallai bod angen mwy o ffocws ar nod i ac anelu i cefnogi Cymru mwy dwyieithog yn y dyfodol.

Yn yr un modd, mae ffocws sylweddol ar weithredu iv, cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant. Unwaith eto, er bod hwn yn nod a gefnogir, mae'n debygol y bydd y teuluoedd hyn eisoes yn siarad Cymraeg â'u plant. O'r data a ddarperir yn y ddogfen bolisi, mae plant mewn cartrefi â rhieni sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fynd ymlaen i siarad Cymraeg.

More focus on inspiring the younger generation is needed. Focus on the policy seems to be on families who do not speak Welsh, speaking Welsh. While this is a welcomed aim, more focus is perhaps needed on aim i and aim ii to support a more bilingual Wales in the future.

Similarly, there is significant focus on action iv, supporting Welsh-speaking families to speak Welsh with their children. Again, while this is a supported aim, there is a likelihood these families will already be speaking Welsh to their children. From the data provided in the policy document, children in households with Welsh speaking parents are more likely to go on to speak Welsh.

### **Ymatebydd 18 / Respondent 18**

We believe it does.

Although all four stated aims are given sufficient attention we consider (i) and (ii) to be aspirational whereas (iii) and (iv) are operational – they specifically refer to 'support'.

The word 'inspire' is key and it is vital. In our view, that the views of children and young people are taken into consideration. To reignite, in adults any skill learnt in school days, takes careful consideration. None more than a language. To be successful a significant amount of skilled support will be needed and some detail on where this will come from would be helpful for local authorities and interested parties. That support exists in all school communities at present and detail on how that can be extended more effectively into all homes in Wales is needed

### **Ymatebydd 19 / Respondent 19**

I do not understand very well the sense of the first aim, but It will be because of my ignorance of the situation.

From my point of view, the best inspiration for new generations will be the linguistic behavioral patterns that their referent people give them, especially parents in the context of this programme.

If that is the case, the development of the three other aims will be the key factor to achieve that first one too.



## **Ymatebydd 20 / Respondent 20**

Teimlir bod y cynulleidfaoedd a nodir yn eang iawn a bod peryg mewn taflu'r rhwyd yn rhy eang. Gan gydnabod bod angen ceisio dylanwadu ar wahanol gyfnodau, nid yw o reidrwydd yn mynd i fod yn bosib profi bod unrhyw weithred wedi arwain at y canlyniad a ddymunir yn y tymor hir.

Mae targedu pobl ifanc yn benodol yn broblematig. Er enghraifft, sut y gellir profi y bydd unrhyw ymyrraeth gyda phobl ifanc nawr o reidrwydd yn arwain at benderfyniad bwriadol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn y dyfodol.

Mae'r penderfyniad hwnnw, fel y gwyddom, yn mynd i gael ei ddylanwadu gan gymaint o ffactorau nad oes modd i ni eu rhagweld yn y presennol – lle byddant yn byw, beth fydd eu gwaith, eu cylch cymdeithasu, eu partneriaid. Y gorau y gallwn ei wneud gyda phobl ifanc yw dangos iddynt bod yr iaith yn berthnasol, bod yna bwrpas iddynt gario ymlaen i ddefnyddio eu hiaith a'u sgiliau, ac y gallant gael bywoliaeth a bywyd cyfoethog drwy ei defnyddio. O wneud hynny mae mwy o siawns iddynt barhau i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol eu hunain ac wedyn i'w throsglwyddo i'w plant.

Gan fod gwaith fel hyn eisoes yn digwydd dan benawdau eraill Cymraeg 2050, drwy waith y mentrau iaith a'r Siarter Iaith (a'r Strategaeth Iaith Uwchradd yma yng Ngwynedd) efallai mai gwell fyddai gadael y gynulleidfa darged yma allan, neu o leiaf sicrhau bod y strategaeth yn adlewyrchu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i ddylanwadu yn gadarnhaol ar y garfan honno.

Dylid penderfynu ar lle mae'r budd a'r dylanwad mwyaf i'w gael a chanolbwyntio ar hynny yn gyntaf.

## **Ymatebydd 21 / Respondent 21**

While sufficient attention is given to each of the four aims there needs to be more focus within the draft policy on social media and technology to increase the use of the Welsh language with young people.

## **Ymatebydd 22 / Respondent 22**

Rydym yn croesawu'r 4 nod cyffredinol er mwyn rhoi ffocws ar wahanol gynulleidfaoedd penodol, a'n galluogi i blethu'r nodau hyn â'n nodau gwaith ni e.e. gweithio gyda phobl ifanc neu brojectau penodol. Tybiwn y bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn gliriach pan fydd cynlluniau gweithredu mwy penodol ar gael.

## **Ymatebydd 25 / Respondent 25**

I don't want you to do it

### **Ymatebydd 27 / Respondent 27**

Er bod y camau gweithredu yn ymddangos fel petaent yn mynd i'r afael â'r pedwar nod yn gyfartal nid oes modd nodi hynny gyda sicrwydd heb dderbyn manylion union dechnegau y camau gweithredu

### **Ymatebydd 28 / Respondent 28**

Not enough support for people that want their child to become truly bi lingual (at least not in Caerleon.

### **Ymatebydd 29 / Respondent 29**

Discrimination of English speakers to the detriment of British education and inward investment.

### **Ymatebydd 30 / Respondent 30**

Ydi ond gweler isod

Dylai unrhyw adnoddau ee.gwersi iaith fod am ddim i bawb. Gallir gwneud llawer mwy o ddefnydd o raglenni teledu, radi ayb i helpu hyn

### **Ymatebydd 31 / Respondent 31**

Yes

### **Ymatebydd 32 / Respondent 32**

Who cares. If the language were viable it would be winning out in the workplace without such massive subsidies. Even in local councils they can not comply with the welsh language act and often issue documents in English with the Welsh version following some weeks behind as so few people speak or write the language to the level they can in English. It makes a mockery of the language far more than just quietly giving up on it and using it as a language of culture and history.

### **Ymatebydd 33 / Respondent 33**

It does

### **Ymatebydd 34 / Respondent 34**

I believe so. I am not an expert on Cymraeg, but I would say that with some of my comments above and below the policy could give extra attention to these four aims.

### **Ymatebydd 35 / Respondent 35**

Yes this policy gives sufficient attention to these four aims.

Regarding Action 12- exploring technology opportunities to help children play in Welsh will be fantastic.

You could also explore Welsh Language game provision such as board games or garden games and Welsh Language C.D's and Story book provision. Providing language support packages for families on how to read Welsh books with their children and the discussion opportunities which arise from story telling/reading could also be considered. Publicising the available resources/provision is of great importance as families are often unaware of what is available to support them

### **Ymatebydd 36 / Respondent 36**

Yes – this is addressed within the draft policy.

### **Ymatebydd 37 / Respondent 37**

Sylwn fod yr ail bwynt yn cyfeirio at 'ailgynnau' sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol. Er bod hyn yn bwysig, byddem yn dadlau fod hefyd angen ffocws ar gynnal sgiliau Cymraeg unigolion wedi iddynt adael yr ysgol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar adfer sefyllfa lle mae unigolion wedi colli hyder yn yr iaith eisoes, efallai bod angen mwy o ffocws ar ymyraethau fyddai'n atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf. Hynny yw, canolbwyntio ar ymyraethau fyddai'n cynnal sgiliau siaradwyr Cymraeg, ac yn sicrhau nad ydynt yn colli hyder, a'u bod felly yn fwy tebygol o siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.

Mae hyn yn ategu'r pwynt sydd eisoes wedi'i wneud uchod ynglŷn â phwysigrwydd meysydd polisi eraill, er enghraifft addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, a defnydd cymdeithasol o'r iaith. Gwyddom fod ystadegau'r cyfrifiad yn dangos bod nifer sylweddol o unigolion yn colli hyder ac yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg wedi iddynt orffen addysg statudol. Mae'r cyfnod rhwng bod unigolion yn gadael yr ysgol ac yn cychwyn magu teulu yn faes ffrwythlon ar gyfer ymyraethau polisi sy'n anelu at gynnal a datblygu sgiliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg, a thrwy hynny gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn trosglwyddo'r iaith i'w plant ei hunain.

We notice that the second point refers to 'reigniting' the Welsh language skills of those who may not have used Welsh since their school days. Although this is important, we would argue that there is also a need to focus on maintaining individuals' Welsh language skills once they have left school. Rather than concentrating on restoring a situation where individuals have already lost confidence

in the language, maybe more focus is needed on interventions which would prevent this from happening in the first place. That is, concentrating on interventions which would maintain the skills of Welsh speakers, and ensure that they do not lose confidence, and that they are therefore more likely to speak Welsh to their own children.

This supports the point already made above regarding the importance of other policy areas, for example further education, higher education, apprenticeships, use of Welsh at work, and social use of the language. We know that census statistics show that a significant number of individuals lose confidence and stop using Welsh once they have finished statutory education. The period between individuals leaving school and starting to raise a family is a fertile area for policy interventions which aim to maintain and develop Welsh speakers' linguistic skills, and thereby increasing the likelihood that they will transmit the language to their own children.

### **Ymatebydd 38 / Respondent 38**

Ydi

### **Ymatebydd 39 / Respondent 39**

Mae'r polisi yn deg o ran dosbarthiad sylw.

Hoffwn fodd bynnag wneud apêl ar y dosbarthiad daearyddol gan gynnig fod peilot Cam 1 & 2 yn digwydd ym Môn, yn ogystal ag ardaloedd penodol eraill a adnabyddir yn yr ymgynghoriad. Erys arwyddocâd economaidd trosglwyddo iaith a diffyg cyfleoedd trochi ardal Gorllewin Ynys Môn yn unigryw, gan arwain at barhau difreintedd economaidd. Felly'r cynharaf y cawn gynlluniau ar waith yn yr ardal hon y cynharaf medrwn ddangos y dystiolaeth rhwng trosglwyddiad y Gymraeg yn y teulu/trochi blynyddoedd cynnar a chyrraedd dwyieithrwydd rhugl i gyflawni potensial sgiliau a chyflogaeth.

### **Ymatebydd 40 / Respondent 40**

Ydi

### **Ymatebydd 41 / Respondent 41**

Yn gyffredinol teimlwn bod y polisi yn rhoi sylw digonol i amcanion ii. a iii. , ac yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddu hyder unigolion sy'n meddu ar y Gymraeg. Mae hyn yn ei dro yn gatalydd i ddefnyddio'r iaith ar yr aelwyd.

Mae'r camau gweithredu rydych yn eu cynnig yn hyblyg ac yn agored i fod yn arloesol wrth ymateb i'r amcanion polisi hwn. Byddwn yn gwerthfawrogi pe bai mudiadau a phrosiectau sydd eisoes yn bodoli, neu wedi digwydd yn y gorffennol, yn cael eu hystyried wrth weithredu'r amcanion polisi.

Credwn nad yw nodau i. a iv. yn cael yr un sylw a'r pwyntiau eraill yn y polisi. Gall ddiffyg ymyrraeth yng nghynulleidfya darged amcanion polisi i. a iv. arwain unigolion i gollu hyder neu at benderfynu peidio trosglwyddo'r iaith sydd yn ei dro yn cyfrannu at gylch seithug.

e.e. Gan ystyried pwysigrwydd dewis y plentyn, yng ngham gweithredu 5 dylid dadansoddi sut mae cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc er mwyn dylanwadu arnynt i ddefnyddio'r Gymraeg, ac felly arwain at drosglwyddo'r iaith yn y dyfodol. Awgrymwn felly bod y cam gweithredu yma yn cyfrannu at amcan polisi i. yn ogystal â ii. iii. a iv..

Er bod nifer o'r camau gweithredu yn cyfrannu at amcan polisi iv. nid oes cam gweithredu penodol sy'n crybwyll y garfan hwn o'r boblogaeth.

Gyda dylanwad y we a thechnolegau newydd yn cynyddu o fewn cartrefi, dylid ystyried yr effaith gall hyn gael ar deuluoedd Cymraeg eu hiaith a iaith naturiol yr aelwyd. Deallwn fod gwaith arloesol eisoes yn cael ei wneud yn y maes technoleg iaith i gystadlu gyda dylanwad byd eang Saesneg. Er hyn, mae gwaith i'w wneud yn y maes hwn er mwyn hwyluso rhieni i gadw aelwydydd yn rhai Cymraeg eu hiaith a bod y Gymraeg yn parhau fel iaith naturiol y cartref.

#### **Ymatebydd 42 / Respondent 42**

Er ein bod yn gytûn y dylid cefnogi ac annog Cymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg yn ogystal â chefnogi teuluoedd Cymraeg i siarad Cymraeg a'u plant, rydym o'r farn na ddylid gwahaniaethu'n ormodol rhwng teuluoedd o'r fath. Yn hytrach, dylid cefnogi teuluoedd o bob math sydd â'r gallu i drosglwyddo'r Gymraeg. Rydym hefyd yn credu dylid cynnwys teuluoedd lle nad oes rhiant neu ofalwr yn siarad Cymraeg yn rhugl ar hyn o bryd.

**3b. A oes unrhyw nodau eraill y dylen ni dalu sylw iddyn nhw yn y polisi?**

**3b. Are there any other aims which should be addressed in the policy?**

#### **Ymatebydd 2 / Respondent 2**

Nodwn bwysigrwydd polisi economaidd er mwyn medru sicrhau codi statws y Gymraeg, ac felly dylanwad y statws hwn ar drosglwyddo iaith ryng-genedlaethol.

Argymhellwn hefyd casglu astudiaethau achos gan rieni sydd yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant gan eu bod yn siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i'r system addysg, er mai Saesneg yw eu Mamiaith. Byddai casglu'r astudiaethau hyn yn ein galluogi i ddatblygu dealltwriaeth well o'r hyn sydd yn bosib wrth ystyried y lleiafrif hwn sydd yn troi iaith eu haddysg yn iaith y cartref.

Er mwyn gweithredu'r polisi i'w lawn botensial, mae angen mwy o ddealltwriaeth o gyllideb ac union fanylion y camau gweithredu.

Gan ystyried mai trwy ryngweithio rhwng plant ifanc a'u gofalwyr y mae plant yn caffael ac yn datblygu eu sgiliau iaith, nodwn yr angen i ystyried trosglwyddiad iaith ar draws cenedlaethau, ac argaeledd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg er mwyn annog a chefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dylid hefyd ystyried bod yna waith ymchwil sydd yn awgrymu mai iaith y fam yw'r rhagfynegydd orau o ddatblygiad ieithyddol y plentyn. Mae data'r cyfrifiad yn cefnogi hyn, ac yn dangos bod y tebygolrwydd o fewn teuluoedd cymysg eu hiaith drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf 10% yn uwch mewn teuluoedd ble'r fam sy'n siarad Cymraeg. Argymhellwn felly'r angen i ystyried gweithio gyda thadau sy'n medru'r Gymraeg mewn teuluoedd cymysg eu hiaith.

Nodwn bwysigrwydd hyrwyddo trosglwyddo rhyng-genedlaethol i'r boblogaeth gyfan. Cyniga hyn ffordd o normaleiddio defnydd mwy nag un iaith o fewn y teulu, gan hefyd gynnig cyfleoedd i ddarpar rieni drafod a pharatoi cyn geni eu plant.

### **Ymatebydd 3 / Respondent 3**

Nodir ym mhwynt gweithredu 21 y bwriad i '*sefydlu bwrdd rhaglen er mwyn rheoli'r gwaith hwn*' ac yn '*cynnwys rhanddeiliaid eraill arno i'n cynghori, i'n cynorthwyo ac i'n herio*'.

Credwn y dylai'r bwrdd rheoli hwn gydweithio'n agos â Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050, sef y corff a sefydlwyd o fewn y Llywodraeth i graffu ar gynnydd, cynnig cyngor ac arweiniad a sicrwydd wrth weithredu *Cymraeg 2050*. (Tudalen 44 Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Adroddiad Blynyddol 2018-19) yn ogystal â'r Grŵp Cynllunio Ieithyddol.

Action point 21 refers to the intention to '*establish a programme board to manage this work*' and '*include other stakeholders on it in order to advise, assist, and challenge us*'.

We believe that this management board should work closely with the Cymraeg 2050 Programme Board, namely the body that was established within the Government to scrutinise progress, provide advice, guidance and assurance in implementing Cymraeg 2050. (Page 44 Cymraeg 2050: A Million Welsh Speakers Annual Report 2018-19), in addition to the Linguistic Planning Group.

### **Ymatebydd 5 / Respondent 5**

CHOICE

Welsh Government are forcing the Welsh language on indigenous people who historically do not speak their native tongue and choose not to do so. We are

becoming a nation divided by language due to the Welsh Language policies being forced on alleged democratic country.

English is needed by all to communicate with the world outside of Wales and making Welsh a priority is disabling and disadvantaging people who want to move across borders.

Money is being invested in Welsh language promotion that could be better used to support social services, health and education

### **Ymatebydd 7 / Respondent 7**

How the Welsh language is portrayed in media - particularly news media? For years, we have seen the Welsh language sometimes portrayed as a joke, as a dead or useless language, within news media and at times film or television media. These sorts of things do harm the language by giving the perception that the language is not something worth learning or using, so any strategy will need to at least be aware of this.

### **Ymatebydd 8 / Respondent 8**

Promote bilingual signs.

### **Ymatebydd 9 / Respondent 9**

Yes. The aims of the 89% non-Welsh speaking majority of the nation, who are being marginalised. The aims to raise their families in accordance with their own wishes, and not to have them dictated to by REDACTED Their aims to raise their families in an economically-sound, prosperous nation, which has access to first-world health and educational services, and which has transport infrastructure to other nations to allow for trade and commerce to raise investment and living standards (and for which the Welsh language will be precisely zero use).

### **Ymatebydd 10 / Respondent 10**

Yes pre -natal support and training for midwife/ health visitors ect,

### **Ymatebydd 11 / Respondent 11**

(Gweler b): Dau nod posib arall;

- trosglwyddo negeseuon cadarnhaol am ddefnyddio'r Gymraeg gartref i'r cyhoedd  
- atgyfnerthu'r rhwydweithiau anffurfiol sy'n cefnogi defnydd teuluoedd o'r Gymraeg yn y cartref

-Annog gweithleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg bobl ifac sy'n dod o addysg Gymraeg.

## **Ymatebydd 12 / Respondent 12**

Mae'r maes yn un eang, a chredwn na ddylid ystyried y polisi mewn gwagle. Credwn bod cael darpariaeth Dysgu Cymraeg Cenedlaethol cynhwysfawr yn bwysig i gefnogi teuluoedd cymysg eu hiaith, gan ei gwneud yn fwy posibl i siaradwyr Cymraeg drosglwyddo'r iaith wrth i'w partneriaid ddod yn fwy hyderus wrth ddysgu a siarad yr iaith.

## **Ymatebydd 13 / Respondent 13**

Er ein bod yn cytuno â'r 4 nod, manteisiwn ar y cyfle hwn i amlygu 2 faes allweddol na roddir sylw digonol iddynt yn y polisi drafft:

- i) Yr angen i lunio rhaglen helaeth o ymwybyddiaeth iaith mewn ysgolion, gan gynnwys Hanes y Gymraeg.
- ii) Anghenion mewnfudwyr, boed y rheiny'n rhieni, darpar-rieni, gofalwyr, neiniau neu deidiau. Bydd angen ystyried sut a phryd i rannu'r neges o bwysigrwydd y Gymraeg, efallai wrth iddynt ystyried symud i Gymru, neu yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd, fel sydd yn digwydd eisoes mewn o leiaf un sir.

## **Ymatebydd 14 / Respondent 14**

Amserlen gweithredu'r camau a phwyntiau adolygu yn ystod y cyfnod gweithredu. Beth a fonitir a phryd?  
Sut yr adroddir ar y casgliadau?

## **Ymatebydd 16 / Respondent 16**

Nodwn bwysigrwydd polisi economaidd er mwyn medru sicrhau codi statws y Gymraeg, ac felly dylanwad y statws hwn ar drosglwyddo iaith ryng-genedlaethol.

Argymhellwn hefyd casglu astudiaethau achos gan rieni sydd yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant gan eu bod yn siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i'r system addysg, er mai Saesneg yw eu Mamiaith. Byddai casglu'r astudiaethau hyn yn ein galluogi i ddatblygu dealltwriaeth well o'r hyn sydd yn bosib wrth ystyried y lleiafrif hwn sydd yn troi iaith eu haddysg yn iaith y cartref.

Er mwyn gweithredu'r polisi i'w lawn botensial, mae angen mwy o ddealltwriaeth o gyllideb ac union fanylion y camau gweithredu.

Gan ystyried mai trwy ryngweithio rhwng plant ifanc a'u gofalwyr y mae plant yn caffael ac yn datblygu eu sgiliau iaith, nodwn yr angen i ystyried trosglwyddiad iaith ar draws cenedlaethau, ac argaeledd gofal ac addysg blynnyddoedd cynnar cyfrwng



Cymraeg er mwyn annog a chefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dylid hefyd ystyried bod yna waith ymchwil sydd yn awgrymu mai iaith y fam yw'r rhagfynegydd orau o ddatblygiad ieithyddol y plentyn. Mae data'r cyfrifiad yn cefnogi hyn, ac yn dangos bod y tebygolrwydd o fewn teuluoedd cymysg eu hiaith drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf 10% yn uwch mewn teuluoedd ble'r fam sy'n siarad Cymraeg. Argymhellwn felly'r angen i ystyried gweithio gyda thadau sy'n medru'r Gymraeg mewn teuluoedd cymysg eu hiaith. Byddai talu mwy o sylwi effaith ac arwyddocâd rhywedd trwy'r camau gweithredu i gyd yn fuddiol. Wrth drafod ymdrechion i ddwyn perswâd, ac i ddylanwadu ar bobl mae targedu priodol yn hollbwysig, ac mae angen ystyried oedran, cefndir ethnig, crefydd, a rhywedd wrth wneud hyn.

Nodwn bwysigrwydd hyrwyddo trosglwyddo rhyng-genedlaethol i'r boblogaeth gyfan. Cyniga hyn ffordd o normaleiddio defnydd mwy nag un iaith o fewn y teulu, gan hefyd gynnig cyfleoedd i ddarparu rieni drafod a pharatoi cyn geni eu plant.

Cynllun a gwedd y polisi

Byddai'n fanteisiol yn ein tyb ni pe bai'r polisi hwn yn cael ei gydblethu yn well gyda Strategaeth Cymraeg 2050 mewn modd amlycach. Gellid amlinellu'r berthynas rhwng y ddwy ddogfen, ac o bosib ymgorffori y rhannu perthnasol o Strategaeth 2050 fel atodiad i'r polisi hwn. Heb wneud hyn mae yna arwahanrwydd i'r polisi gallai ei wanhau ac arwain iddo gael ei weithredu mewn modd wedi ei ynysu o'r holl feysydd hanfodol i ddatblygu defnydd y Gymraeg.

### **Ymatebydd 17 / Respondent 17**

Dylai'r polisi hwn ddarparu'r nod trosfwaol ar gyfer elfen deuluol Cymraeg 2050 a sut mae'r polisi hwn yn cysylltu ag eraill fel Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs), Safonau Iaith Cymru a Mwy na Geiriau. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i gael yr effaith fwyaf.

Dylai'r polisi ganolbwyntio ar sut y gall cyrff lleol a chenedlaethol ddarparu gwybodaeth i rieni am eu cefnogaeth a'u dewisiadau yn eu cymuned leol mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai hyn yn golygu alinio â Cymraeg 2050 a chreu isadeiledd a chymunedau i'r Gymraeg ffynnu.

Byddai hyn hefyd yn golygu defnyddio technoleg, fel mae'r polisi drafft yn awgrymu, ond hefyd defnyddio cysylltiadau cymunedol a gwaith rhwng cenedlaethau.

This policy should provide the overarching aim for the family element of Cymraeg 2050 and how this policy links to others such as Welsh in Education Strategic Plans (WESPs), Welsh Language Standards and Mwy na Geiriau. This is a missed opportunity to maximise the impact.

The policy should focus on how local and national bodies can provide information to parents on their support and choices within their local community in relation to the

Welsh language. This would mean aligning to Cymraeg 2050 and creating an infrastructure and communities for the Welsh language to thrive.

This would also mean using technology, as the draft policy suggests, but also using community links and intergenerational work.

### **Ymatebydd 18 / Respondent 18**

Our WESP is central to our vision for the continued increase in the use of the Welsh language in Flintshire. Be this in our homes, schools or the wider community. The draft policy covers many aspects of this and we welcome its holistic approach.

However, how we co-ordinate and support this challenge to homes in Wales needs clarity of purpose and specific steps to be followed nationally. This needs, of course, the flexibility to be interpreted and implemented at local level to reflect the strengths and needs of those areas.

We also welcome the draft policy's statement of intent to look to successful actions internationally e.g. language use pledge programme adapted from the Basque initiative Euskalardia and the work of the Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD), and the indigenous, minority and lesser-used languages group of the British-Irish Council. As stated in the draft policy "we cannot work in isolation".

### **Ymatebydd 19 / Respondent 19**

I do not know.

I have thought that the FLP policy we are developing in our town could help you in any way. The societies are different and the language situations too, but maybe how to tackle the improvement of the transmission of our languages in the families do not so much.

Because of that, I send you a report attached to this form, where I try to explain how we are working.

· The report's title is: "Family language policy in a town in the Basque Country. An experience to share and some challenges to overcome"

### **Ymatebydd 20 / Respondent 20**

Dim rhai eraill, ond symleiddio y geiriad fel bod y gynulleidfa darged yn glir, ac hefyd meddwl am ffordd o ddangos yn glir sut mae'r nodau yma yn plethu yn ôl i Strategaeth Cymraeg 2050 a'r nodau sydd wedi eu gosod fel rhan o'r rhaglen waith honno, yn hytrach na'u bod yn edrych fel nodau ychwanegol, ar wahân.

Dylid rhoi mwy o sylw i theorïau newid ymddygiad a seicoleg iaith. Er bod y ddogfen yn nodi ar y cychwyn nad oes dymuniad i "reoli ymddygiad pobl yn eu cartrefi", ni ellir creu y newid sydd ei angen heb newid ymddygiad, hyd yn oed os nad oes dymuniad i wneud hynny drwy orfodaeth. Dylid fod yn eglur ac agored am hyn a defnyddio'r termau y mae gweithwyr yn y maes yn gyfarwydd gyda nhw, fel ei bod yn fwy eglur beth sydd mewn golwg (e.e. Cam G 13).

### **Ymatebydd 21 / Respondent 21**

The policy should also give recognition and support to Out of School Childcare and Playwork settings to increase the use of Welsh. Many children and young people spend more time of their younger years within a childcare and play setting than with their parents, a continuity of language is very important.

It should be noted within the reference to Camau that this project is being delivered to Playworkers in Out of School Childcare as well as Early Years settings. Recognition is needed to for the need to deliver Welsh at work to the Childcare and Playworkers of the older age group 5 -12 years old without this continuity from the Early Years settings the language will not have continuum

### **Ymatebydd 22 / Respondent 22**

Gweler ein sylwadau ar gwestiwn 1. b) os gwelwch yn dda.

### **Ymatebydd 25 / Respondent 25**

Don't do it

### **Ymatebydd 27 / Respondent 27**

Yr ydym o'r farn bod y pedwar nod yn ddigon cyffredinol ac yn ddigon eang eu cwrpawd i alluogi'r polisi i fynd i'r afael â throsglwyddiad iaith yn ddarostyngedig i gamau gweithredu effeithiol a phriodol.

### **Ymatebydd 28 / Respondent 28**

Make it easier (and cheaper) for non Welsh speakers to learn Welsh so that they can help the children. Long fixed classes are difficult if people work and need to look after children.

### **Ymatebydd 29 / Respondent 29**

Ensure real consideration be given to International languages.

### **Ymatebydd 32 / Respondent 32**

Stop discrimination against those who chose to use the other official language of this country.

## Ymatebydd 34 / Respondent 34

1. By 2050 this kids will be adults and some of the work done could be damaged if this speakers do not find tools and opportunities to follow their path. I am talking about the professional market, but also leisure activities in Cymraeg, and of course, the development of Cymraeg-speaking schools

2. I am not sure, but I think newcomers to Cymru are not proportionally as important as in other places, but in any case, I would include actions to promote the language amongst migrants, as they find it hard to understand the sociolinguistic setting of such societies and some tend to stick to the dominant language.

Two examples:

- Materials for foreigners to learn Basque: <https://www.ikasbil.eus/eu/dokutekako-fitxa?articleId=16523443>

- Materials for Urdu speakers to learn Catalan (they have materials like this for all the big language communities settled in Catalunya):

[https://lengua.gencat.cat/ca/serveis/informacio\\_i\\_difusio/publicacions\\_en\\_linia/aprenem\\_catala\\_des\\_de\\_col/urdu\\_aprenem\\_cat\\_general/](https://lengua.gencat.cat/ca/serveis/informacio_i_difusio/publicacions_en_linia/aprenem_catala_des_de_col/urdu_aprenem_cat_general/)

3. My colleague **REDACTED** suggested me to send you a booklet that he has written recently, containing interesting tips to promote Basque intergenerational transmission. Sorry for the quality of the translation, I am a bit overwhelmed with work and I used Google Translate for it, but the author gave me the permission to share the book and I have also sent it to my colleague **REDACTED**. Even though I found some of the tips in the Twyf booklets, perhaps you would find it interesting. →

To parents who know Basque:

4-8 years!

You have children in one of the most beautiful age groups in life. These are the years to enjoy and play with children. For them, on the other hand, it is also a time of search and discovery; emotionally, curiously a time full of pain and questions.

Knowledge of the language, usage habits and language attitudes are also fixed during this period. Basque during those years learn well, do so with those around you and laugh in Basque, children who are excited and feel the joy of life, in the future they will also have many more opportunities to have the right level of knowledge, a habit of use and a positive attitude towards language to maintain. The Upper Deba City Council has decided to address the parents of the region we, these ages in language learning and family transmission given their importance. On these pages, some tips and parents are often created you will find answers to the questions that are. I hope so we hope they will be useful to you. Anyway, no way if you have any questions or suggestions, let me know that you have us at the City Council's Basque Service we will welcome you with kindness and good will.

1.- Do it in Basque

- Because it is our language.
- Because you are a role model or example to your parents.
- Because working in the family is the best guarantee for learning Basque and the most natural, easy, and effective way.
- Because family use is the basis for ensuring a rich Basque language.

Isn't it better to learn both languages "at home" to them?

- Basque is not at the same level as Spanish; much of the situation is weaker. One of the parents who speaks Basque speaks Spanish to the child if it is directed at it, to invalidate the motivation for the Basque language there is a risk.
- On the other hand, and for the same reason, the home language is Basque. In some cases, it is much easier for children to speak Basque

### **Ymatebydd 35 / Respondent 35**

I do not believe so.

### **Ymatebydd 36 / Respondent 36**

Identify why Welsh language is not being transmitted within the target families

### **Ymatebydd 37 / Respondent 37**

Fel mae'r ddogfen ymgynghori yn ei drafod, mae gwahaniaeth pwysig rhwng rhoddi iaith (drwy ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i blant) a throsglwyddo iaith yn y cartref. Er bod y ddau fater hyn yn gysylltiedig, mae'r polisi dan sylw yn canolbwyntio yn benodol ar drosglwyddo iaith yn y cartref.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod trosglwyddo iaith yn y cartref yn cyfrannu at ddau brif darged *Cymraeg 2050*, sef cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg a hefyd cynyddu defnydd o'r iaith. Er hyn mae'n debyg bod yr ymyraethau sy'n rhan o'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu defnydd teuluoedd o'r iaith. Hynny yw, mae'r polisi yn targedu yn benodol rieni sydd yn gallu siarad Cymraeg ond sydd ddim yn defnyddio'r iaith gyda'r plant yn y cartref. Yn aml mae'r rhieni hyn yn dewis gyrru eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly mae'r plant yn debygol o ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg. Un o brif amcanion y polisi hwn felly yw annog rhieni i fynd ymhellach na rhoddi iaith i'w plant, ond i'w throsglwyddo a'i defnyddio yn y cartref. Dyma'r ffordd fwyaf cadarn o greu siaradwyr Cymraeg hyderus fydd yn defnyddio'r iaith ac yn eu tro yn trosglwyddo'r iaith i'w plant hwythau.

Mae amryw o'r camau gweithredu yn y polisi drafft yn cyfeirio at gyfathrebu â rhieni/gofalwyr ac at y math o negeseuon fydd yn cael eu trosglwyddo er mwyn cefnogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Efallai bod angen ystyried mewn mwy o fanylder sut y gellid egluro i rieni a theuluoedd y gwahaniaeth pwysig rhwng rhoddi a throsglwyddo iaith, ynghyd â goblygiadau hyn i ddatblygiad ieithyddol eu plant. Mae

hyn yn arbennig o wir o ystyried bod yr ymchwil sy'n bodoli am drosglwyddo iaith yn y cartref yn nodi bod rhieni yn aml yn anymwybodol o'r gwahaniaeth hwn, ac yn tueddu i ystyried y gyfundrefn addysg yn gyfrwng ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg. As the consultation document discusses, there is an important difference between donating a language (by choosing Welsh medium education for children) and transmitting a language at home. Although both matters are connected, the policy in question focuses specifically on transmitting a language at home.

The consultation document notes that language transmission at home contributes to the two main targets of *Cymraeg 2050*, namely increasing the numbers of Welsh speakers and also increasing use of the language. However, it appears that the interventions which are part of the action plan concentrate mainly on increasing families' use of the language. That is, the policy targets specifically parents who can speak Welsh but who do not use the language with the children at home. It is often the case that these individuals choose to send their children to Welsh medium education, and therefore the children are likely to develop to be Welsh speakers. Therefore, one of the main objectives of this policy is to encourage parents to go further than donating a language to their children, by also transmitting and using it at home. This is the most robust way of creating confident Welsh speakers who will use the language and in turn transmit the language to their own children.

Many of the actions in the draft policy refer to communicating with parents/carers and to the type of messages that will be transmitted in order to support families to use the Welsh language. There may be a need to consider in more detail how to explain to parents and families the important difference between donating and transmitting a language, as well as the associated implications for their children's linguistic development. This is particularly true considering that the research which exists about language transmission at home notes that parents are often unaware of this difference, and tend to consider the education system as a medium for transmitting the Welsh language.

### **Ymatebydd 39 / Respondent 39**

i) Adnabod y grŵp darpar rieni a rhieni newydd fel grŵp targed penodol.

Mae'r cyfnod amser ers eu plentyndod, a'r dylanwadau a fu arnynt ers hynny, rhy hir i fedru dibynnu ar y dewisiadau a wnaethant yn blant a phobl ifanc. Gan mai'r adeg cyn-geni ydi'r amser mwyaf tyngedfennol i newid agweddau am drosglwyddo iaith, mae'r buddsoddiad mewn amser/adnoddau i drosglwyddo'r negeseuon am fod cymaint yn fwy cost-effeithiol.

ii) Defnyddio polisi a champau gweithredu trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd fel un arf i gefnogi ymdrechion y Llywodraeth i gau'r bwlch difreintedd yng Nghymru.

### **Ymatebydd 40 / Respondent 40**

Mae angen cyd-destun byw ar gyfer rhoi ystyr gwirioneddol i drosglwyddo iaith yn llwyddiannus ac felly efallai bod angen adlewyrchu hyn yn y nodau. Os nad oes cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol beuoedd mewn cymdeithas yna mae'r cymhelliant yn dirywio. Oes cyfle i ychwanegu nod i gefnogi creu'r amgylchiadau gorau o fewn cymdeithas y tu hwnt i'r cartref a'r teulu i ddefnyddio'r iaith o bosib?

#### **Ymatebydd 41 / Respondent 41**

Fel Mentrau Iaith mae ein gwaith wedi ei selio ar gymunedau ac rydym o'r farn nad yw'r polisi hwn yn adlewyrchu'r dylanwad all cymunedau ei gael ar ddewis iaith y teulu.

Mae'r elfen o berthyn yn hanfodol i ddylanwadu ar unigolion i ddefnyddio'r iaith ac felly dylid ystyried yr amgylchedd cymunedol ehangach yn y polisi.

Er mwyn dylanwadu ar unigolion i drosglwyddo'r iaith mae angen creu'r amgylchiadau gorau i wneud hynny. Mae'r camau gweithredu yn y polisi hwn yn crybwyll dylanwad y gweithle i orlifo i'r aelwyd ond nid yw'n ystyried yr elfen arall o'r gymdeithas a all wneud hyn – sef y cyd-destun ac is-adeiledd cymunedol.

Gall bodolaeth prosiectau fel Helo Blod a'r safonau ar wasanaethau cyhoeddus gynyddu amlygrwydd y Gymraeg yn lleol, mewn busnesau ac endidau cyhoeddus a'r trydydd sector, ond mae angen cynyddu amlygrwydd a chreu amgylchiadau ffafriol sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith yn gymunedol, a chael hynny i ddylanwadu ar unigolion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref. Gweler Atodiad A sydd yn dangos rhai enghreifftiau o rieni sydd wedi'u dylanwadu gan weithgareddau Cymraeg o fewn eu cymunedau yn ehangach.

Felly rydym yn awgrymu cynnwys amcan polisi ychwanegol:

#### **v: cefnogi creu amgylchiadau ffafriol cymunedol i ddefnyddio'r iaith**

Mae nifer o'r camau gweithredu rydych yn eu cynnig yn cyfrannu tuag at yr amcan polisi newydd hwn ac felly hawdd fyddai ychwanegu'r pumed pwynt hyn at y camau gweithredu hyn (gweler Atodiad C)

#### **Ymatebydd 42 / Respondent 42**

#### **Teuluoedd lle nad oes rhiant na gofalwr yn siarad Cymraeg yn rhugl ar hyn o bryd**

Credwn dylid cynnwys nod ychwanegol ynghylch gweithio gyda theuluoedd lle nad oes rhiant na gofalwr yn siarad Cymraeg yn rhugl ar hyn o bryd. Nid ydym yn cytuno gyda diystyrru'r teuluoedd hyn fel pwynt lle gellir rhoddi a/neu drosglwyddo iaith i genhedlaeth newydd a'i defnyddio bob dydd. Yn wir, gyda'r nod cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hanfodol bod y polisi yn cynnwys y teuluoedd hyn, a datblygu camau gweithredu er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr i ddysgu Cymraeg gyda'u plant a'u defnyddio yn y cartref.

Rydym yn nodi mai bwriad y polisi hwn yw cynnal ymchwil sy'n cynorthwyo rhieni i drosglwyddo yn hytrach na rhoddi ieithoedd i'w plant. Ond mae modd i rieni sy'n ddi-

Gymraeg neu'n ddysgwyr drosglwyddo'r Gymraeg adref. Yn sicr, maent mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg adref.

### **Cefndir y Polisi**

Dylid pwysleisio manteision ehangach dwyieithrwydd o ran cynnal iechyd a lles (Baker,2017) a chyfaladd cymdeithasol neu'r 'ocsigen mewn cymunedau' a'r rhyngweithio / ymdeimlad o fod yn perthyn i gymuned (CGGC) Gweler <https://wcva.cymru/cy/views/peidiwch-a-gofyn-am-wirfoddolwyr-rhowch-nhw-ar-daith-cyfalaf-cymdeithasol-yn-lle/>

Ymhellach, dylid ystyried cydweithio gyda mentrau iechyd cyhoeddus, megis atal smygu, bwydo o'r fron, rhiantu, bwyta'n iach ac ymarfer corff, er mwyn dysgu gwersi am newid ymddygiad a / neu gyflwyno manteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y mentrau hyn.

### **Ystadegau**

Mae angen defnyddio'r ystadegau o Gyfrifiad 2001 a 2011 i amcangyfrif y newid yn y cyfraddau trosglwyddo sydd eu hangen dros amser i gyrraedd *Miliwn o Siaradwyr* er mwyn sefydlu rhaglen waith benodol a chynhwysfawr gyda meincnodau / targedau cyrhaeddiad y gellir eu monitro.

### **Ymchwil**

Gall dulliau ymchwil traddodiadol arwain at broses hir a chostus, heb unrhyw sicrwydd y caiff y dystiolaeth ei ddefnyddio. Am hynny, dylid ystyried cyflwyno dulliau ymchwil newydd, e.e., ymchwil gweithredol, gwyddoniaeth gweithredu a newid ymddygiad, sy'n ystyried beth sy'n gweithio orau ac ym mha gyd-destun, ac sy'n galluogi canlyniadau a gweithredu yn llawer ynghynt.

Rydym yn croesawu'r bwriad i gydweithio â chymunedau ieithyddol eraill er mwyn dod â dimensiwn rhyngwladol i'r gwaith ond dylid bod yn ofalus wrth allosod canfyddiadau rhyngwladol yng nghyd-destun Cymru.

### **Egwyddorion**

Mae'r ddogfen ymgynghori yn datgan bod modd i blant fynegi eu dewisiadau ieithyddol eu hunain ond mae hyn ond yn bosib os yw'r gallu ganddynt. Am hynny, dylid pwysleisio mai bwriad y polisi yw sicrhau eu bod yn gwneud y dewis iawn, h.y. dewis defnyddio'r Gymraeg. Gellir cymharu hyn ag annog plant i fwyta'n iach, gwneud ymarfer corff, ac yn y blaen.

### **Rheoli'r Gwaith**

Mae angen amlinellu cyfansoddiad y bwrdd a'r rhanddeiliaid, gan gynnwys y dimensiwn rhyngwladol a chynrychiolaeth gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol.